

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol IGDC 2024

Thu 25 July 2024, 15:00 - 16:00

Zoom



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd a Gofal
Digidol Cymru
Digital Health
and Care Wales

Agenda

15:00 - 16:00

60 min

1. Croeso a Chyflwyniadau

I'w Nodi

Cadeirydd

1.1. Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2023/24

I'w Gymeradwyo

Cadeirydd IGDC

1.1 DHCW AGM Minutes 20220928 V1.pdf (4 pages)

1.2. Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2023/24

I'w Draford

Prif Swyddog Gweithredol

1.2 DHCW-Annual-Report-2023-2024-Cymraeg-Final.pdf (250 pages)

1.3. Arddangosiad a Rhagolwg IGDC 2023/24 gan gynnwys Cyflwyniad ar y Sefyllfa Ariannol

I'w Draford

Tim Gweithredol IGDC

1.3 23_24 DHCW AGM Slide Pack_bilingual_FINAL.pdf (17 pages)

1.4. Sesiwn Holi ac Ateb

I'w Draford

Bwrdd IGDC


1.5. Crynodeb a Diwedd y dydd

I'w Nodi

Cadeirydd

DHCW Annual General Meeting – Unconfirmed minutes

Minutes of the meeting of Digital Health and Care Wales (DHCW) Annual General Meeting held on Thursday 28 September 2023 as a virtual meeting broadcast live via Zoom.

 16:00 – 17:00

 28 September 2023

Members Present	Initial	Title	Organisation
Simon Jones	SJ	Chair of the Board	DHCW
Ruth Glazzard	RG	Vice Chair	DHCW
Marilyn Bryan Jones	MBJ	Independent Member	DHCW
Ifan Evans	IE	Executive Director of Strategy	DHCW
Andrew Fletcher	AF	Associate Board Member – Trade Union	DHCW
Rowan Gardner	RoG	Independent Member	DHCW
Rhidian Hurlle	RH	Executive Medical Director	DHCW
Alistair Klaas Neill	AKN	Independent Member	DHCW
Sam Lloyd	SL	Executive Director of Operations	DHCW
Claire Osmundsen-Little	COL	Deputy Chief Executive Officer / Executive Director of Finance	DHCW
David Selway	DS	Independent Member	DHCW
Helen Thomas	HT	Chief Executive Officer	DHCW
Marian Wyn Jones	MWJ	Independent Member	DHCW

In Attendance	Initial	Title	Organisation
Chris Darling	CD	Board Secretary	DHCW
Sam Hall	SH	Director of Primary, Community & Mental Health Digital Services	DHCW

Sarah-Jane Taylor	SJT	Director of People and Organisational Development	DHCW
Laura Tolley	LT	Head of Corporate Governance (Secretariat)	DHCW
Steffan William	SW	Translator	Translation Services

Apologies	Title	Organisation
Sam Hall	Director of Primary Community & Mental Health Digital Services	DHCW

Acronyms			
DHCW	Digital Health and Care Wales	SHA	Special Health Authority
CEO	Chief Executive Officer	DPIF	Digital Priority Investment Fund
AGM	Annual General Meeting	IMTP	Integrated Medium-Term Plan

Item No	Item Detail
1.1	<p>Welcome and Apologies</p> <p>The Chair welcomed everyone bilingually to the second Annual General Meeting for DHCW.</p> <p>The Chair confirmed the meeting was being broadcast live via Zoom, in addition, the recording would be available via the DHCW website for any persons unable to access the meeting live. The Zoom platform was being used to allow for members to be visible throughout the entire meeting and for simultaneous translation to take place, allowing members to engage in the meeting in English or Welsh.</p> <p>The Chair expressed thanks to DHCW CEO, Helen Thomas and DHCW Board members for their vision and commitment to DHCW.</p> <p>The Chair explained DHCW would not be here without the commitment, hard work and dedication of DHCW's people – so gave sincere thanks, personally and on behalf of the Board, to all DHCW staff who worked extremely hard throughout the year and continue to do so, he explained that all staff make a massive contribution to the delivery of quality digital health and care services for the people of Wales.</p> <p>The Chair added as Chair, he had been impressed with the culture and the work ethic of DHCW staff. In the past 12 months staff numbers had grown to almost 1,113 and new people had joined.</p> <p>Given all that happened globally in DHCW's second year of operation as a Special Health Authority the Chair explained he was very pleased and proud of DHCW's achievements and the</p>

	<p>way the organisation responded to the pandemic, the cost of living crisis, and ever increasing cyber threats to NHS Wales.</p> <p>The Chair explained 2022/23 hadn't been without its challenges, with DHCW having to prioritise activities and recruit staff to ensure we had capacity to continue our active work on delivering Programmes, including programmes transferred to DHCW to take forward from the NHS Wales Collaborative.</p> <p>The Chair commented that it was with pride DHCW digital services have been absolutely key to the safe delivery of care for people across Wales.</p>
<p>1.2</p>	<p>Apologies for Absence</p> <p>Apologies for absence were noted from:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sam Hall, Director of Primary, Community & Mental Health Digital Services
<p>1.3</p>	<p>Annual Report and Accounts for 2022/23</p> <p>Helen Thomas, Chief Executive Officer (HT) presented the Annual Report and Accounts for 2022/23 and explained it was her privilege to bring the first ever 2022/23 DHCW Annual Report and Accounts for DHCW as a statutory body, reflecting on achievements and challenges during 2022/23 and looking ahead and added that the AGM was a considerable milestone reflecting on DHCW's second year of operation.</p> <p>HT explained the DHCW Annual Report 2022/23 was published as a single unified document could be seen in the AGM papers and noted they were available on the DHCW website, and it included:</p> <ul style="list-style-type: none"> • The Performance Report • The Accountability Report • The Financial Statements <p>HT noted her pride that as the national digital organisation for NHS Wales, DHCW were the first NHS Wales organisation to publish its Annual Report in HTML format.</p> <p>HT reminded the Board that the Annual Report and Accounts as a whole must be fair, balanced and understandable and as the Accountable Officer she took personal responsibility for this, and the judgments required for determining that it is fair, balanced and understandable.</p> <p>HT extended thanks to all colleagues across the organisation with a special thanks to the staff involved in the delivery of the annual report and accounts.</p>
<p>1.4</p>	<p>DHCW 2022/23 Showcase and Forward Look including Financial Position Presentation</p> <p>The DHCW Board presented the DHCW 2022/23 Showcase and provided detailed information on the following areas:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Who we are and what we do - Areas included DHCW being part of the NHS in Wales, DHCW Vision and Missions, Our People Overview, Culture and Organisational Development and Board and Governance arrangements. • Finances - Areas included financial performance against statutory targets and an overview of DHCW finances 2022/23. • Progress and achievements – Areas included performance and stability, cyber security, single record, primary care, choose pharmacy and Welsh immunisation system.

	<ul style="list-style-type: none"> • Foundations for digital transformation – Areas included, digital diagnostics, digital services for critical care units, Digital Maternity Cymru, Digital Medicines Transformation Portfolio, NHS Wales app and National Data Resource.
1.5	<p>Question and Answers</p> <p>1. When will the NHS Wales App be fully rolled out and what will it mean for those who have downloaded it?</p> <p>The App wouldn't be fully completed as it was an iterative process with new functionality explored and incorporated. The coming months would see a significant acceleration in the promotion of the app to get GP practices' connected and this would drive user uptake. The NHS Wales App functionality was aligned to the NHS England App and would include functionality such as appointment booking, repeat prescription ordering, viewing a summary of medical records.</p> <p>2. Will the financial challenges impact on how quickly digital transformation can be rolled out in NHS Wales?</p> <p>It was inevitable that the financial challenge would impact on the pace of digital transformation. DHCW's role would be to address and support the challenge by looking at areas where impact is minimised and to support core deliverables and key digital priorities.</p> <p>3. How can the Board measure how values and behaviours are embedded across the organisation?</p> <p>Assurance was gathered through a variety of data and information sources which included, but were not limited to, staff surveys, turnover analysis, exit interviews, discussions and the Local Partnership Forum, all information of which is reported regularly to the Board via the Integrated Organisational Performance Report, and Local Partnership Forum Highlight Report. However, the need for all Board members and staff to demonstrate and role model values and behaviours was emphasised.</p> <p>4. Staff numbers have increased greatly over the last year. How has DHCW developed it's recruitment plan to meet it's objective of becoming a fully bilingual organisation?</p> <p>83% of recruitment information was now bilingual. In addition, work was being undertaken to increase Welsh skills and confidence of Welsh speakers across DHCW.</p>
1.6	<p>Summary and Close</p> <p>The Chair gave thanks to all those in attendance and observing the second Annual General Meeting for DHCW.</p> <p>The meeting closed at 17:00</p>



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd a Gofal
Digidol Cymru
Digital Health
and Care Wales

IECHYD A GOFAL DIGIDOL CYMRU

ADRODDIAD BLYNYDDOL

2023 - 2024

IGDC • DHCW



RHAGAIR

YR ADRODDIAD PERFFORMIAD

TROSOLWG PERFFORMIAD

DADANSODDI CYFLAWNI A PHERFFORMIAD

CENHADAETH 1: DARPARU PLATFFORM AR GYFER GALLUOGI TRAWSNEWID DIGIDOL

CENHADAETH 2: DARPARU CYNHYRCHION A GWASANAETHAU DIGIDOL O ANSAWDD UCHEL

CENHADAETH 3: EHANGU'R COFNOD GOFAL A DIGIDOL A'R DEFNYDD O DDULLIAU DIGIDOL I WELLA IECHYD A GOFAL

CENHADAETH 4: OGI GWELL GWERTH A CHANLYNIADAU DRWY ARLOESI

CENHADAETH 5: BOD YN BARTNER STRATEGOL DIBYNADWY AC YN SEFYDLIAD CYNHWYSOL AC UCHELGEISIOLO ANSAWDD UCHEL

YR ADRODDIAD ATEBOLRWYDD A'R CYFRIFON

Y DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR AR GYFER Y CYFNOD A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2023

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL. SWYDDOGATEBOL YR AWDURDOD IECHYD ARBENNIG.

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R CYFARWYDDWYR

ADRODDIAD AR DÂL A STAFF

ADRODDIAD ATEBOLRWYDD AC ARCHWILIO SENEDD CYMRU

TYSTYSGRIF ARCHWILIO AC ADRODDIAD ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

REPORT OF THE AUDITOR GENERAL TO THE SENEDD

ATODIAD 1 AELODAETH A PHRESENOLDEB Y BWRDD A PHWYLLGORAU, 1 EBRILL 2023 I 31 MAWRTH 2024

ATODIAD 2 SWYDDOGION ARWEINIOL

ATODIAD 3 RHESTR O GYFARFODYDD Y BWRDD, PWYLLGORAU A'R GRŴP CYNGHORI 23/24

ATODIAD 4 CYFARWYDDIADAU GWEINIDOGOL

RHAGAIR

Wrth i ni gwblhau ein trydedd flwyddyn lwyddiannus fel Awdurdod Iechyd Arbennig, mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) yn parhau i dyfu a datblygu ei rôl arweinyddiaeth ddigidol.

Er gwaethaf pwysau sylweddol ar draws GIG Cymru ar gyfer staff a chleifion, mae ein gweithlu ymroddedig o fwy na 1,200 o bobl wedi gweithio gyda'i gilydd i gyflawni rhai o brosiectau gofal iechyd digidol a data mwyaf y DU, tra'n cefnogi mwy na 100 o wasanaethau iechyd a gofal diogel o ansawdd uchel i'n partneriaid.

Rydym yn parhau i wrando ar ein staff, ein rhanddeiliaid a'n partneriaid i esblygu'r ffordd yr ydym yn gweithredu a darparu'r datrysiadau digidol sydd eu hangen ar ein defnyddwyr. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran datblygu partneriaethau strategol o fewn GIG Cymru a sefydliadau masnachol allweddol, wrth rymuso a chefnogi ein staff.

Ym mis Mawrth, cyhoeddwyd ein [strategaeth hirdymor](#), gan amlinellu ein rôl drawsnewidiol wrth ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal dros y chwe blynedd nesaf. Mae'r strategaeth yn adeiladu ar y pum cenhadaeth yn ein Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) tair blynedd ac yn cyflwyno golwg feid-dgar ac uchelgeisiol o ble mae angen i ni gyrraedd. Mae ein pwrpas wedi'i ddiweddarau, sef 'Gwneud digidol yn rym er gwell ym maes iechyd a gofal', ac mae'n tanlinellu'r gwerth a'r bud-

dion y bydd ein gwaith yn eu darparu i weithwyr gofal iechyd proffesiynol, cleifion a'r cyhoedd.

Cafodd [Ap GIG Cymru](#), sydd bellach wedi'i gyflwyno i bob un o'r 373 o bractisau meddygon teulu yng Nghymru, ei lawrlwytho gan dros 170,000 o ddefnyddwyr erbyn mis Mawrth 2024. Wrth i ni barhau i ddatblygu ei nodweddion, bydd yr Ap yn ganolog i drawsnewid y ffordd y darperir iechyd a gofal yng Nghymru. Bydd yr Ap yn grymuso pobl i gymryd rhan fwy gweithredol wrth reoli eu hiechyd a'u lles eu hunain, gyda nodweddion fel trefnu apwyntiadau, cyrchu canlyniadau profion, archebu presgripsiynau rheolaidd a dewis y fferyllfa y maent am i'w presgripsiynau gael eu hanfon iddi.

Ym mis Tachwedd, [cyflwynodd y Gwasanaeth Presgripsiynau Electronig \(EPS\) y trosglwyddiad electronig cyntaf o bresgripsiwn](#) rhwng practis meddyg teulu a fferyllfa gymunedol yng Nghymru. Disgwylir i'r gwasanaeth hwn gyflymu yn 2024/25 a bydd yr EPS yn gwneud y broses o ragnodi a dosbarthu meddyginiaethau yn haws, yn fwy diogel ac yn fwy effeithlon i gleifion a chleifion gofal iechyd.

Mae cynnydd wedi'i wneud eleni o ran gwella gofal cancer drwy [Borth Clinigol Cymru](#) (WCP), sy'n rhannu, darparu ac arddangos gwybodaeth cleifion o ffynonellau lluosog gyda mewngofnodi sengl ar draws ffiniau byrddau iechyd. Mae WCP hefyd wedi gwella ansawdd gwybodaeth a chyflymder cyflwyno ceisiadau radioleg a chardioleg.

Mae Cofnod Gofal Nyrsio Cymru (WNCR), sydd bellach yn ei bedwaredd flwyddyn, yn trawsnewid y ffordd y mae nyrsys yn cofnodi, yn storio ac yn cyrchu gwybodaeth am gleifion trwy ddisodli nodiadau nyrsio cleifion mewnol oedolion â system ddigidol ddiogel. Mae'r WNCR bellach ar gael mewn 85% o wardiau cleifion mewnol oedolion gyda bron i 13 miliwn o nodiadau nyrsio cleifion mewnol wedi'u casglu.

Mae dros 12,000 o ddefnyddwyr gwasanaethau gofal sylfaenol wedi elwa ar ystod gynyddol o offer digidol, gan gynnwys **Dewis Fferyllfa**, sy'n cefnogi fferyllfeydd cymunedol i ddarparu gwasanaethau i gleifion, gan ryddhau apwyntiadau meddygon teulu i bobl ag anghenion mwy cymhleth.

Gwnaethom gefnogi 14,000 o frechwyr ar draws GIG Cymru i ddarparu'r 10 miliynfed brechiad COVID a **datblygu Strategaeth Gofal Sylfaenol newydd** i gefnogi'r gwaith o drawsnewid digidol ar draws gwasanaethau gofal sylfaenol yng Nghymru.

Rydym wedi cymryd camau sylweddol i ddatblygu'r platfformau a'r seilwaith allweddol sy'n hanfodol ar gyfer darparu gofal iechyd modern. Mae cwblhau'r gwaith o adeiladu Google Cloud Platform wedi gosod y sylfaen ar gyfer datblygu'r **Adnodd Data Cenedlaethol** ymhellach. Rydym wedi mudo un o'n canolfannau data i leoliad newydd, gan gefnogi ein **Cynllun Strategol Datgarboneiddio**, gan ddarparu'r cam nesaf i'n dull gweithredu cwmwl yn gyntaf a sicrhau systemau sefydlog a gwydn.

Rydym yn falch o'r cynnydd cynnar yr ydym yn ei wneud yn ein hymagwedd at ddylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr, gan weithio ar y cyd â phartneriaid i ddatblygu gwasanaethau i ddiwallu anghenion y defnyddwyr orau, a chael **Achrediad Siarter Cynhwysiant Digidol** gan Gymunedau Digidol Cymru, a oedd

yn cydnabod ein hymagwedd fel 'rhagorol'.

Mae IGDC yn anelu at fod yn lle gwyh i weithio ac mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud ym maes arweinyddiaeth a datblygu talent, piblinellau recriwtio, cydraddoldeb ac amrywiaeth, a chynllunio gweithlu strategol. Rydym yn falch bod ein staff yn teimlo'n gadarnhaol am weithio i IGDC, ac mae arolwg staff eleni yn dweud wrthym fod 80% o'r staff yn ystyried IGDC yn 'lle ardderchog neu dda iawn i weithio', ac mae 88% yn teimlo eu bod wedi'u cymell i weithio i IGDC.

Dim ond cipolwg yw hwn o'r 12 mis diwethaf, gyda mwy o fanylion am ein llwyddiannau a'n heriau yn yr adroddiad hwn.

Edrychwn ymlaen at barhau â'n cynnydd yn y flwyddyn i ddod, gan gydwethio'n agos â rhanddeiliaid a phartneriaid i wneud digidol yn rym er gwell ym maes iechyd a gofal.



Simon Jones -
Cadeirydd a **Helen Thomas** - Prif
Swyddog Gweithredol



YR ADRODDIAD PERFFORMIAD


IGDC • DHCW

TROSOLWG PERFFORMIAD

PWRPAS YR ADRODDIAD

Mae'r adroddiad perfformiad yn rhoi crynodeb o'n cyflawniadau, ein perfformiad a'n heriau allweddol. Mae'n manylu ar sut rydym wedi perfformio yn erbyn ein cynlluniau a thargedau Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn disgrifio sut rydym wedi cynnal ffocws ar ansawdd.





EIN GWELEDIGAETH

Darparu gwasanaethau digidol o'r radd flaenaf, gan rymuso pobl i fyw bywydau iachach.

EIN PWRPAS

Gwneud digidol yn rym er gwell ym maes iechyd a gofal.

PWY YDYM NI A BETH RYDYM NI'N EI WNEUD

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn Awdurdod Iechyd Arbennig sydd â rôl unigryw o ran darparu gwasanaethau digidol, data a thechnoleg cenedlaethol i gefnogi darparu iechyd a gofal yng Nghymru. Fe'n sefydlwyd o dan statud ar 1 Ebrill 2021, ac rydym yn cael ein hariannu'n bennaf gan Lywodraeth Cymru ac yn gweithio'n agos ac mewn partneriaeth â byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd, gofal sylfaenol, gofal cymdeithasol, gwyddorau bywyd, diwydiant a'r byd academaidd.

Mae ein cymwysiadau digidol yn galluogi staff iechyd a gofal i gofnodi a chyrchu'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt yn y lle cywir, ar yr amser cywir, i gefnogi gwneud penderfyniadau gwybodus. Rydym yn gweithredu dwy ganolfan ddata genedlaethol ac rydym yn rheoli seilwaith digidol cenedlaethol mawr, gan gynnwys seiberddiogelwch.

Mae ein gwaith yn cefnogi ymchwil, arloesi a thrawsnewid gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i gyflawni canlyniadau iechyd a lles gwell i bobl yng Nghymru.

Rydym yn cyflwyno rhaglenni trawsnewid digidol cenedlaethol gan gynnwys yr [Adnodd Data Cenedlaethol](#), [Moddion Digidol](#), dwy raglen newid diagnostig, systemau digidol newydd ar gyfer gofal dwys a gofal mamolaeth, gofal sylfaenol cenedlaethol, iechyd cymunedol ac iechyd meddwl, [Dewis Fferyllfa](#) a brechlynnau. Rydym yn gweithio i ddarparu mynediad digidol gwell i'r cyhoedd drwy [Ap GIG Cymru](#) i alluogi pobl i reoli eu hiechyd a'u lles eu hunain yn fwy effeithiol.

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn, gan weithio gyda phartneriaid i ddarparu gwasanaethau digidol a data ar gyfer iechyd a gofal yng Nghymru. Rydym yn gwerthfawrogi ein staff ac yn gweithio i wneud IGDC yn lle cefnogol a boddhaus i weithio iddo. Cydnabuwyd IGDC fel y lle gorau i weithio i weithwyr TG proffesiynol yn y DU gan Gymdeithas Cyfrifiaduron Prydain (BCS) yn 2020 ac eto yn 2022.

EIN SEFYDLIAD

Fel aelod allweddol o deulu GIG Cymru, rydym yn datblygu ac yn darparu'r systemau a'r gwasanaethau digidol sy'n cefnogi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Mae ein heffaith yn amlwg drwy'r mwy na 100 o wasanaethau gweithredol a ddefnyddir bob dydd gan ein partneriaid.

Mae IGDC wedi'i strwythuro i saith cyfarwyddiaeth:

- Strategaeth Ddigidol
- Gwasanaethau Gweithredol
- Clinigol
- Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl
- Pobl a Datblygu Sefydliadol
- Cyllid a Sicrwydd Busnes
- Llywodraethu Corfforaethol a Chyfathrebu

Mae mwy na hanner ein gweithwyr yn weithwyr technegol, gan gynnwys peirianwyr meddalwedd, dadansoddwyr data a phenseiri digidol. Mae ein model gweithredu hybrid yn golygu bod ein staff yn elwa o gyfuniad o gydweithio yn un o'n swyddfeydd a gweithio gartref.

[Llwyddodd IGDC i ennill gwobr 'Safon Aur' mewn Gwiriad Statws Uwch yn y Safon Iechyd Corfforaethol](#) ym mis Mai 2023. Dyfernir y wobr i gyflogwyr sy'n rhagori ym maes iechyd a llesiant yn y gweithle.

Dyweddodd yr aseswyr: "Roedd hi'n amlwg iawn bod ethos a diwylliant llesiant IGDC yn rhagorol, yn flaengar ac yn gynhwysfawr ac wedi'i ddatblygu i fod yn gwbl strategol o ran ymagwedd. Mae'n amlwg bod llesiant wrth wraidd popeth y mae IGDC yn ei wneud."



Gwylwch arddangosfa o'n gwaith

[DHCW - A showcase of our work](#)

[IGDC - Arddangosiad o'n gwaith](#)



CRYNODEB O'R DADANSODDIAD PERFFORMIAD

Gyda thair blynedd lwyddiannus fel Awdurdod Iechyd Arbennig (AIA), mae IGDC yn parhau i ehangu ei rôl arweinyddiaeth ddigidol.

Mae ein gweithlu wedi cynyddu o 1,030 i 1,177 yn 2023/24, gyda chyfanswm cyllid (refeniw a chyfalaf) o £186.0m. Rydym yn darparu mwy na 100 o wasanaethau digidol gwydn, technolegau, a gwybodaeth sy'n hanfodol ar gyfer darparu gofal iechyd.

Eleni, cyhoeddwyd ein [strategaeth hirdymor](#) a nifer o strategaethau ategol gan gynnwys:

- [Strategaeth Gofal Sylfaenol 2024-27](#)
- [Strategaeth Llywodraethu Gwybodaeth 2023-26](#)
- [Strategaeth Gwybodeg Glinigol a Newid Busnes 2023-26](#)
- [Strategaeth Gwybodaeth a Dadansoddeg 2023-26](#)
- [Strategaeth Gyfathrebu 2023-26](#)
- [Strategaeth Ymgysylltu 2023-26](#)

Yn ystod y flwyddyn, trosglwyddwyd llywodraethu rhaglenni digidol allweddol i IGDC. Gwnaethom sefydlu Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni i roi sicrwydd a chraffu ar gyflawni rhaglenni mawr a gynhelir gan IGDC mewn modd agored a thryloyw. Yn ogystal, sefydlwyd swyddfa rheoli rhaglen newydd i symleiddio a safoni prosesau llywodraethu rhaglenni a llywio'r broses o wneud penderfyniadau a chyflawni.



IGDC • DHCW

CENADAETHAU

CENADAETH

1

Darparu platfform ar gyfer galluogi trawsnewid digidol

Rydym yn darparu platfform ar gyfer trawsnewid digidol trwy ddiogelu data, seilwaith a gwybodaeth, a thrwy agor pensaernïaeth GIG Cymru i alluogi rhannu data yn gyflymach gyda phartneriaid a chyflenwyr, gan gefnogi gofal cyson cydgysylltiedig.

CENADAETH

2

Darparu cynhyrchion a gwasanaethau digidol o ansawdd uchel

Wrth i dechnoleg ac anghenion iechyd a gofal esblygu, rydym yn datblygu ac yn darparu gwasanaethau safonedig i ddarparwyr iechyd a gofal Cymru, yn ogystal â darparu gwasanaethau newydd yn gyflym i ymdopi â sefyllfaoedd nas rhagwelwyd, wrth gefnogi effeithlonrwydd a gwelliannau mewn prosesau gofal yr un pryd.

CENADAETH

3

Ehangu'r cofnod iechyd a gofal digidol a'r defnydd o ddulliau digidol i wella iechyd a gofal

Mae gwybodaeth glinigol a gofal iechyd i ddinasyddion yng Nghymru ar gael i'w darparwyr gofal drwy'r cofnod iechyd a gofal digidol, pryd bynnag a lle bynnag y bo ei hangen, gan helpu i wella ansawdd triniaeth. Wrth symud ymlaen, bydd mwy o elfennau'r cofnod ar gael yn uniongyrchol i ddinasyddion.

CENADAETH

4

Ysgogi gwerthoedd a chanlyniadau gwell drwy arloesi

Mae'r angen am ddata cywir ar gyfer mewnwelediadau a dadansoddeg yn bwysicach nag erioed i wella iechyd a gofal. System wedi'i sbarduno gan ddata sy'n cefnogi gwerth mewn gofal iechyd trwy wybodaeth amserol i helpu i wneud penderfyniadau a sicrhau canlyniadau gwell.

CENADAETH

5

Bod yn bartner strategol dibynadwy ac yn sefydliad cynhwysol ac uchelgeisiol o ansawdd uchel

Mae bod yn un o sefydliadau GIG Cymru yr ymddiriedir ynddo yn allweddol i gyflawni gweledigaeth Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn llwyddiannus a chyflawni popeth a ddisgwylir gennym.

CENADAETHAU

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi datblygu ein [strategaeth hirdymor](#) sy'n nodi'r rôl y byddwn yn ei chwarae yn y system iechyd a gofal yng Nghymru dros y chwe blynedd nesaf. Mae'r strategaeth yn adeiladu ar ein cenadaethau, sef y pileri canolog sy'n arwain ein Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI). Mae'n disgrifio ein hamcanion strategol a'r effaith drawsnewidiol yr ydym yn disgwyl ei chael ar ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal.

Mae ein pum cenhadaeth yn rhoi golwg strwythuredig o'n gweithgaredd, a'r hyn yr ydym yn ei wneud i wella technolegau digidol a data i gefnogi gwell gwasanaethau iechyd a gofal. Mae'r cenadaethau yn arwain sut rydym yn rheoli darpariaeth ar draws ein sefydliad, gan ein helpu i flaenoriaethu buddsoddi ac adnoddau ar draws gwasanaethau byw a rhaglenni trawsnewid.

Mae'r pedair cenhadaeth gyntaf yn canolbwyntio ar yr hyn yr ydym yn ei wneud, gyda gweithgareddau wedi'u rhannu'n 14 portffolio cyflawni. Mae'r bumed genhadaeth strategol yn canolbwyntio ar sut rydym yn gweithio fel sefydliad, gyda gweithgareddau wedi'u rhannu'n chwe galluogwr strategol.

CENHADAETH 1

Mae'r [Adnodd Data Cenedlaethol](#) (NDR) yn rhaglen gydweithredol a fydd yn darparu platfform data cwmwl modern ledled Cymru. Wedi'i lansio ym mis Awst 2023, mae Platfform Data NDR yn galluogi rhannu data di-dor rhwng platfformau cenedlaethol a lleol. Mae gweithredu cynnyrch rheoli Rhyngwyneb Rhaglennu Cymwysiadau Google Apigee (API) wedi symleiddio cyfathrebu â chynhyrchion ein cyflenwr.

Rydym yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi GIG Cymru gyda seilwaith cenedlaethol helaeth, gan gynnwys canolfannau data, seilwaith rhwydwaith, gwasanaethau seiberddiogelwch, cymorth dyfeisiau defnyddwyr terfynol a gwasanaethau cydweithredu. Mae trosglwyddo i ganolfan ddata newydd wedi gwella ein hargaeledd gwasanaeth i 99.984%. Mae'r ganolfan ddata newydd yn cefnogi ein [cynllun datgarboneiddio](#), ac rydym yn parhau i leihau allyriadau sydd wedi gostwng 43% eleni o gymharu â'n blwyddyn waelodlin yn 2019-20.

Rydym wedi datblygu Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth (IG) newydd, sy'n helpu i fonitro a gwella dealltwriaeth o arferion trin gwybodaeth cyfrifol ledled Cymru. Mae'r fframwaith hwn yn gosod safonau uchel ar gyfer rheoli gwybodaeth ac yn rhoi'r offer i sefydliadau gyrraedd y safonau hyn.

CENHADAETH 2

Rydym yn datblygu ac yn darparu systemau a gwasanaethau digidol o ansawdd uchel sy'n hanfodol i'n partneriaid ar draws GIG Cymru ddarparu iechyd a gofal effeithiol.

Mae portffolio rhaglenni IGDC wedi ehangu, gyda rhaglen System Rheoli Gwybodaeth Labordy (LIMS) a rhaglen Caffael System Gwybodeg Radioleg (RISP) yn cael eu trosglwyddo i IGDC o Raglen Gydweithredol GIG Cymru ym mis Ionawr 2023. Gan weithio'n agos gyda byrddau iechyd a Llywodraeth Cymru, mae gennym bellach gynllun masnachol a chyflawni integredig clir a fydd yn moderneiddio tirwedd diagnosteg. Yn yr un modd, trosglwyddwyd y Rhaglen Ddigidol Gofal Llygaid i IGDC o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a byddwn yn ceisio gweithredu rhagdybiaethau cynllunio Llywodraeth Cymru dros y flwyddyn nesaf.

Nod y weledigaeth ar gyfer gofal wedi'i gynllunio yng Nghymru yw diwallu anghenion clinigol cleifion yn well, o atgyfeirio effeithiol i gael at driniaeth briodol ar yr amser ac yn y lle cywir. Rydym yn chwarae rhan arwyddocaol yn hyn, drwy gefnogi gweinyddiaeth cleifion ar hyd eu taith gofal drwy systemau fel WPAS (System Gweinyddu Cleifion Cymru).

WPAS yw'r brif ffynhonnell o ddata gweinyddol ar gyfer cleifion mewn lleoliad gofal eilaidd, sy'n cadw manylion adnabod cleifion, ac yn cofnodi manylion ymweliadau cleifion ag ysbytai, gan gynnwys rheoli rhestrau aros, cofnodion meddygol, triniaeth cleifion mewnol, apwyntiadau cleifion allanol ac ymweliadau brys. Eleni, [lansiodd IGDC enghraifft gyfunol o'r WPAS ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn Ilwyddiannus](#), gan wella mynediad at wybodaeth cleifion a rhyngweithiadau ar draws yr ardal – gan arbed amser, cynyddu diogelwch cleifion a gwella profiad cleifion.

Ym mis Tachwedd 2023, [cleifion yn y Rhyl oedd y cyntaf yng Nghymru i elwa ar Wasanaeth Presgripsiynau Electronig \(EPS\) newydd](#), gan alluogi meddygon teulu i anfon presgripsiynau ar-lein yn ddiogel i fferyllfa gymunedol ddewisol y claf, gan ddileu'r angen am ffurflenni papur. Hyd yn hyn, mae fferyllfeydd wedi prosesu 1,457 o bresgripsiynau drwy'r system.

Rydym yn cefnogi defnyddwyr gofal sylfaenol drwy ddarparu gwasanaethau cyfrifiadura defnyddwyr terfynol a systemau meddygon teulu i 12,216 o ddefnyddwyr mewn practisau meddygon teulu. Yn ystod y flwyddyn, disodlwyd 4,000 o gyfrifiaduron ar gyfer meddygon teulu. Yn ogystal, cynhaliwyd proses gystadleuaeth fach y Contract Fframwaith Systemau Meddygon Teulu, gan ganiatáu i bob practis meddyg teulu ddewis eu system glinigol nesaf.

Nododd System Imiwneiddio Cymru (WIS) garreg filltir arwyddocaol yn ddiweddar drwy gofnodi ei 10 miliynfed brechiad COVID. Mae WIS yn cefnogi dros 22,000 o ddefnyddwyr ar draws yr holl fyrddau iechyd, i ddarparu brechiadau COVID a fflw tymhorol mewn practis cyffredinol ac mewn fferyllfeydd.

CENHADAETH 3

Rydym yn gweithio i ddarparu gwell mynediad digidol i helpu pobl i reoli eu hiechyd a'u lles eu hunain yn fwy effeithiol. [Mae Ap GIG Cymru](#) wedi'i gyflwyno i bob un o'r 373 o bractisau meddygon teulu ac yn 2023-24 cafodd yr ap ei lawrlwytho gan 170,000 o ddefnyddwyr. Mae'r Ap a'r wefan bwrdd gwaith sy'n cyd-fynd ag ef yn cynnig mynediad hawdd at ystod o wasanaethau iechyd a gofal trwy ffonau clyfar, llechi, a chyfrifiaduron personol, gan ganiatáu i gleifion a'r cyhoedd reoli eu hiechyd a'u lles eu hunain.

Mae ein gwaith yn gwneud gwahaniaeth i'n cydweithwyr iechyd a gofal a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu i bobl Cymru. Mae'r [e-Lyfrgell](#) Iechyd, sy'n cefnogi darpariaeth gofal iechyd effeithiol trwy ddarparu gwybodaeth ar-lein berthnasol ac amserol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, wedi cynyddu ei sylfaen defnyddwyr 981 gan gyrraedd cyfanswm o 14,441 o ddefnyddwyr. Yn ogystal, mae 227 o weithwyr cymdeithasol a rheolwyr gofal cymdeithasol wedi cofrestru i ddefnyddio'r e-lyfrgell.

Mae ein Canolfan Ragoriaeth Microsoft 365 yn cefnogi dros 100,000 o ddefnyddwyr ar draws GIG Cymru. Rydym yn parhau i weithio tuag at wneud y mwyaf o werth a defnydd y pecyn cymorth hwn yng Nghymru.

CENHADAETH 4

Nod ein swyddogaeth [Ymchwil ac Arloesi](#) newydd yw meithrin y wybodaeth, yr arloesi a'r mewnwleidiad sy'n angenrheidiol ar gyfer gwella gwasanaethau, trawsnewid a chanlyniadau iechyd gwell. Rydym wedi datblygu ein strategaeth drwy wella partneriaethau ac adnoddau. Mae ein hymagwedd yn cynnwys asedau, adnoddau, diwylliant, partneriaeth, gwerth ac effaith.

Rydym yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid, gan gynnwys Canolfan Gwerth mewn Iechyd Cymru, i ysgogi gwerth o ddata. Mae hyn yn cynnwys creu dangosfyrddau sy'n cefnogi darpariaeth gofal iechyd mewn meysydd fel gofal sylfaenol a llwybrau canser. Drwy gydol y flwyddyn, mae IGDC wedi gweithio i ehangu a gwella'r defnydd o wasanaethau digidol a data ar gyfer defnyddwyr clinigol, darparwyr gofal ac eraill sy'n allweddol wrth wneud penderfyniadau ym maes iechyd a gofal. Rhoddir rhagor o wybodaeth am y dangosfyrddau hyn a'u heffaith yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

CENHADAETH 5

Rydym wedi dechrau rhoi ein [Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol](#) 2022-25 ar waith, drwy ddatblygu ein staff drwy gynlluniau arweinyddiaeth a rheoli talent. Mae hyn yn sicrhau bod gennym y cymysgedd cywir o sgiliau i wneud digidol yn rym er gwell.

Mae ansawdd a diogelwch yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud. Yn dilyn cyhoeddi [Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol \(Ansawdd ac Ymgysylltu\) \(Cymru\) 2020](#) ar 1 Ebrill 2023, mae IGDC yn mynd i'r afael â'r gofynion diffiniedig yn rhagweithiol. Ni oedd y cyntaf yng Nghymru i gyhoeddi adroddiad 'Parhaol' ac rydym yn datblygu hyfforddiant a phrosesau i gefnogi'r Ddyletswydd Ansawdd. Cefnogir y gwaith hwn gan bedair tystysgrif ISO gan gynnwys [ISO 20000](#), [ISO 9001](#), [ISO 140001](#) ac [ISO 27001](#).

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom gyflawni ein rhwymedigaethau statudol a nodi £0.7m o arbedion a ddychwelwyd i Lywodraeth Cymru i gefnogi pwysau ariannol ehangach y GIG. Mae'r amgylchedd masnachol digidol yn cydnabod fwyfwy bwysau cydgrynhoi a chwyddiant, yn enwedig o ran trwyddedu.

Rydym wedi gweithio gyda rhanddeiliaid ledled Cymru i gytuno ar fframwaith buddion a phecyn cymorth wedi'i adnewyddu gan ddefnyddio set ddata safonol. Yn ogystal, rydym yn datblygu system Adrodd ar Fuddiannau Cymru Gyfan a fydd yn coladu adroddiadau ar holl fanteision rhaglenni digidol. Mae hyn yn ein helpu i ddeall yn well y gwerth y mae ein systemau yn ei roi i GIG Cymru.

Mae'r crynodeb uchod yn rhoi trosolwg o'r cynnwys yng ngweddill y ddogfen hon sy'n cynnig rhagor o fanylion a gwybodaeth am weithgarwch ychwanegol.

EIN BLWYDDYN MEWN RHIFAU

Dewis Fferyllfa 34,453 o ymgynghoriadau drwy'r gwasanaeth anhwylderau cyffredin Byddai 77% wedi gweld meddyg teulu

Gwasanaeth Gweinyddu Cleifion Cymru 52,653 o ddefnyddwyr 6 miliwn o ddogfennau 4.5 biliwn o drafodion

System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru 16,853 o ddefnyddwyr ar draws iechyd a gofal cymdeithasol

Ap GIG Cymru Cyflwynwyd yn gyflym i bob un o'r 373 o bractisau meddygon teulu 170,000 o **lawrlwythiadau** o siopau app

System Rheoli Gwybodaeth Labordy Cymru 40 miliwn o brofion labordy wedi'u rheoli

System Imiwneiddio Cymru Cefnogwyd 10 miliynfed brechiad COVID

System Rheoli Gwybodaeth Radioleg Cymru dros 4500 o **ddefnyddwyr 2.8 miliwn** asesiadau risg digidol

E-lyfrgell ar gyfer iechyd 14,441 o ddefnyddwyr 227 o weithwyr cymdeithasol a rheolwyr gofal

Porth Clinigol Cymru 36,977 o defnyddwyr 1.5m o ddogfennau wedi'u storio

Cofnod Gofal Nyrsio Cymru Cwblhawyd dros 20.9 miliwn asesiadau risg digidol

Argaeledd Gwasanaethau 99.984%

Cymorth Bwrdd Gwaith i 16,628 o ddefnyddwyr ar draws sefydliadau GIG, carchardai a hosbisau

Data wedi'i storio yn y warws data 25 Terabeit

Disodlwyd 4,000 o **liniaduron meddygon teulu**

Datgarboneiddio Rydym wedi lleihau ein hallyriadau 43% ar ein gwaelodlin



Dwy flynedd o Gofnod Gofal Nyrsio Cymru



Gwasanaethau Digidol i Gleifion a'r Cyhoedd



Porthol Clinigol Cymru

DADANSODDI CYFLAWNI A PHERFFORMIAD

IGDC • DHCW

CENHADAETH 1: DARPARU PLATFFORM AR GYFER GALLUOGI TRAWSNEWID DIGIDOL

Mae'r genhadaeth hon yn sail i bopeth yr ydym yn ei ddarparu, gan sicrhau bod gwybodaeth yn llifo'n ddiogel rhwng systemau ar seilwaith diogel. Mae maint y data iechyd a gofal a gasglwyd wedi tyfu'n gyflym yng Nghymru wrth i ni drosglwyddo i systemau digidol. Fodd bynnag, mae data yn aml yn dameidiog ac wedi'i gadw ar draws gwahanol systemau, gwasanaethau ac ardaloedd daearyddol oherwydd cymhlethdod y llwybrau gofal.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod yr angen am ddefnyddio data yn well i gefnogi gwneud penderfyniadau a gwella gofal yn ei [Datganiad o Fwriad Gwybodaeth 2017](#) ac [ym mholisi Cymru Iachach 2019](#). Rhwystr rhag rhannu data yw diffyg safonau technegol ar gyfer rhyngweithredu, diogelwch a seilwaith.

Mae IGDC yn bwriadu mynd i'r afael â hyn trwy weithredu pensaernïaeth 'platfform agored' cwmwl, safonau cenedlaethol, ac [Adnodd Data Cenedlaethol \(NDR\)](#) i ddod â data cleifion at ei gilydd mewn un lle. Bydd hyn yn gwella'r gwaith o storio data a'r gallu i'w aildefnyddio, yn lleihau dibyniaeth ar gyflenwyr penodol, yn gwneud data'n fwy cludadwy a diogel, ac yn galluogi dadansoddeg ac ymchwil i gefnogi gwerth mewn gofal iechyd.



CYFLAWNI'R RHAGLEN

GENHADAETH

1

ADNODD DATA CENEDLAETHOL

Mae'r Rhaglen [Adnoddau Data Cenedlaethol](#) (NDR) yn rhaglen gydweithredol genedlaethol i ddatblygu pensaernïaeth data newydd ac i wella sgiliau dadansoddi data ledled Cymru. Gan ddefnyddio technoleg Google Cloud, mae'r platfform data hwn yn caniatáu gwell mynediad at ddata at ddibenion clinigol, gweithredol ac ymchwil.

Mae'r rhaglen yn cefnogi creu un cofnod iechyd a gofal cymdeithasol digidol, gan ddarparu gwybodaeth i'r person cywir am yr amser cywir. Bydd y platfform NDR yn sicrhau bod data iechyd a gofal cymdeithasol yn cael ei storio'n ddiogel, gan leihau costau rheoli data a gwella cydweithredu. Bydd gan dimau cenedlaethol a lleol fynediad at wybodaeth ddibynadwy am gleifion a thueddiadau pan fo angen, gan gynnwys ar y pwynt gofal.

Yr NDR yw ein platfform data yn y dyfodol ac mae'n rhan o'n symudiad i'r cwmwl a phensaernïaeth agored. Bydd yn ein galluogi i wneud mwy gyda data mewn ffordd ddiogel a defnyddio technolegau newydd gan gynnwys deallusrwydd artiffisial a dadansoddeg uwch.

Mae elfennau craidd y platfform yn cynnwys y Storfa Data Gofal (CDR) a'r Platfform Data a Dadansoddi Cenedlaethol (NDAP). Mae rheoli Menter API yn hanfodol ar gyfer darparu pensaernïaeth agored a rhyngweithrededd yn ddiogel, tra bod gwasanaeth terminoleg yn sicrhau defnydd cyson o systemau cod a therminolegau ac yn dosbarthu adnoddau cyfeirio gweinyddol Cymru gyfan.

Rydym yn cefnogi byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau i ddefnyddio platfform

NDR a gwasanaethau i integreiddio swyddogaethau newydd yn eu cynlluniau ac alinio mapiau ffyrdd cenedlaethol a lleol.

Roedd cwblhau adeiladu platfform Google Cloud yn gam sylweddol, gan osod y sylfaen ar gyfer yr NDAP a'r CDR. Cwblhawyd yr adolygiad o seilwaith y gweinydd terminoleg, ac mae aliniad parhaus ar y gweill.

Cyflawnwyd pob carreg filltir yn y maes hwn, gan gynnwys:

- Cyflwyno'r NDAP a'r CDR fel gwasanaethau gweithredol byw
- Dechrau cam pedwar y rhaglen ddysgu dadansoddeg
- Darparu APIs i gyrchu'r storfeydd cyfredol o ddogfennau, terminoleg a demograffeg
- Galluogi galluedd integreiddio ar blatfform Google Cloud
- Sicrhau bod rhaniadau lleol o'r platfform cenedlaethol ar gael i bartneriaid

Tua diwedd y flwyddyn, daeth heriau i'r amlwg o ran cyllid rhaglenni ar gyfer 2024-25, a ysgogodd adolygiad o gynlluniau ar draws yr holl bartneriaid cyflawni (IGDC, byrddau iechyd, ymddiriedolaethau, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, a Gofal Cymdeithasol Cymru). Er gwaethaf ansicrwydd ariannol, mae cynnydd yn parhau tuag at wella galluedd rhannu data, gan osod sylfaen gref ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol o ran

darparu gofal iechyd a gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata yng Nghymru.



Adnodd Data Cenedlaethol
National Data Resource

IGDC • DHCW

PENSAERNIAETH AGORED A RHYNGWEITHREDU

gwybodaeth yn ddiogel. Rydym yn gweithio gyda chydweithwyr yn GIG Cymru a phartneriaid yn y sector preifat i ddilyn rheolau sy'n diogelu data cleifion tra'n cefnogi nodau [Cymru Iachach](#), drwy system Rheoli API.

Rydym yn adeiladu rhannau allweddol o'n map pensaernïaeth, megis y Storfa Data Gofal, Platfform Data a Dadansoddeg Cenedlaethol a Rheoli API.

Eleni rydym wedi ehangu ein blociau adeiladu pensaernïol a'n Rhyngwynebau Rhaglennu Cymwysiadau (APIs) ac wedi datblygu ein proses sefydlu pensaernïaeth agored. Mae'r Rhaglen [Adnoddau Data Cenedlaethol](#) (NDR) wedi datblygu ei galluedd rheoli API a phensaernïaeth agored, gan ganolbwyntio ar well gofal cleifion a mynediad at wybodaeth. Gwnaethom weithredu cynnyrch rheoli API Google Apigee yn llwyddiannus, gan alluogi cynnal a rheoli pwyntiau terfyn API gyda nodweddion logio a diogelwch gwell.

Mae creu cymuned ddatblygwyr o fewn IGDC wedi annog datblygiad API-gyntaf, gan gynyddu nifer yr APIs sydd ar gael i'w moderneiddio a'u cyhoeddi trwy Google Apigee. Gwnaethom gyflwyno setiau cychwynol o APIs a chynhyrchion ymgysylltu, a oedd yn gwella mynediad a chyfraniad at y cofnod claf sengl, gan fod o fudd i gleifion a dinasyddion ledled Cymru. Mae cydweithio â byrddau iechyd a chyflenwyr wedi dangos defnydd ymarferol o APIs, yn enwedig mewn meysydd fel Rhagnodi a Gweinyddu Meddyginiaethau yn electronig (ePMA).

Roedd y rhan fwyaf o'n mapiau cynnyrch ar y trywydd iawn i'w cyflawni o hyd, er inni wneud addasiadau oherwydd newidiadau mewn blaenoriaethau a chyllid. Yn y pedwerydd chwarter, gwnaethom gynydd sylweddol gyda'r map ffordd API, er gwaethaf peth oedi oherwydd adnoddau cyfyngedig. Gwnaethom wella ymgysylltiad a sicrhau bod API diagnostig a dogfen yn cael eu hintegreiddio'n ddiraferth er mwyn rhannu data'n well ar draws byrddau iechyd.

Gan edrych i'r dyfodol, mae'r Rhaglen NDR yn bwriadu parhau i dyfu a datblygu, gyda gwelliannau pellach i alluedd API, mwy o fentrau ymgysylltu, a gwell dyraniad adnoddau i gyflawni amcanion strategol. Bydd Canolfan Data ac Integreiddio yn cael ei sefydlu yn 2024-25.



LLYWODRAETHU GWYBODAETH

Rydym wedi datblygu Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth newydd i fonitro a gwella dealltwriaeth a chyfrifoldeb llywodraethu gwybodaeth yng Nghymru. Heb fframwaith, mae'n dod yn fwy anodd sicrhau bod gwybodaeth ar gael i wasanaethau sy'n darparu iechyd a gofal.

Mae'r Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth yn cynnwys [Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru](#) (WASPI), y Teclyn Archwilio Integredig Deallus Cenedlaethol (NIAS), cyngor diogelu data i feddygon teulu, Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Cymru a chynghori ar gyhoeddi data i sicrhau cydymffurfio â safonau llywodraethu gwybodaeth. Rydym yn datblygu a hyrwyddo fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth cenedlaethol i Gymru fel y gellir rhannu gwybodaeth cleifion yn ddiogel.

Mae prosiect NIAS wedi cyflawni cerrig milltir sylweddol, gan gryfhau galluedd llywodraethu gwybodaeth ac archwilio ar draws y sefydliad, gan gynnwys gwell prosesau archwilio mewn perthynas â chymeradwyo caffael. Cadarnhaodd lansiad y drydedd fersiwn o'r Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth ymhellach ein harferion llywodraethu gwybodaeth. Roedd cyhoeddi Cytundeb Tendr Sengl NIAS yn symleiddio gweithdrefnau caffael a drafftio'r [Strategaeth Llywodraethu Gwybodaeth](#) yn blaenoriaethu mentrau allweddol ar gyfer y cylch cynllunio.

Wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi, dyfarnwyd contractau ar gyfer offer a datrysiadau hanfodol, gan ddangos cynnydd parhaus mewn galluedd archwilio.

Bu diweddariadau i'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer Gwasanaeth Swyddogion Diogelu Data ar gyfer Meddygon Teulu yn gwella mesurau diogelu data. Roedd cyflawniadau allweddol yn cynnwys cyhoeddi adroddiad ymgynghori Cod Ymddygiad WASPI, y fersiwn ddiweddaraf o'r Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth, a datblygiadau arfaethedig ar gyfer mabwysiadu safonau. Gwnaethom reoli risgiau corfforaethol sy'n gysylltiedig â chyllid hirdymor yn effeithiol. Gan edrych i'r dyfodol, byddwn yn archwilio haen reoli API ar gyfer echdynnu data archwilio, sy'n gwella prosesau caffael ymhellach ac yn cadarnhau ein hymrwymiad i lywodraethu gwybodaeth a galluedd archwilio.

Mae tîm Llywodraethu Gwybodaeth IGDC yn rheoli'r gwaith o gymhwyso Safon Gwasanaeth Canlyniadau ac Adroddiadau Prydeinig Cymreig 10008 (BS10008): Pwysau Tystiolaethol a Derbynioldeb Cyfreithiol Gwybodaeth Electronig. Mae'r safon ar hyn o bryd yn cwmpasu ein storffeydd data cenedlaethol, sef Gwasanaeth Cofnodion Gofal Cymru (WCRS) a Gwasanaeth Adrodd ar Ganlyniadau Cymru (WRRS). Cyflawnwyd y safon i ddechrau ym mis Tachwedd 2019, gydag archwiliadau gwylidwriaeth allanol blynyddol yn 2020, 2021. Cawsom ein hailachredu yn 2022 yn dilyn cylch tair blynedd.

Daeth yr adroddiad diweddaraf i'r casgliad bod amcanion yr archwiliad wedi'u cyflawni. Mae'r safon wedi'i diweddarau'n ddiweddar, felly gwnaethom adolygu achrediad IGDC yn erbyn y safon a ddiweddarwyd. Cynhaliwyd archwiliad gwylidwriaeth safonol ym mis Ionawr 2024, gydag achrediad IGDC yn pasio heb unrhyw anghydfurfaeth na chyfleodd i wella.

SEIBERDDIOGELWCH

Mae bygythiadau seiber yn erbyn y sector iechyd yn cynyddu'n gyflym, yn enwedig ymosodiadau meddalwedd wystlo wedi'u targedu, sy'n niweidiol ac yn aflonyddgar iawn. Er mwyn diogelu cyfrinachedd, argaeledd a chywirdeb gwasanaethau iechyd hanfodol, rydym yn parhau i fuddsoddi mewn atal, canfod ac ymateb i ddigwyddiadau seiber ar draws GIG Cymru. Eleni fe wnaethom fuddsoddi £0.834m mewn seiberddiogelwch.

Drwy gydol y flwyddyn, mae IGDC wedi moderneiddio seilwaith ac wedi gwella mesurau seiberddiogelwch, gan gynnwys defnyddio datrysiad diogelwch seiliedig ar DNS ar gyfer trafFfigur rhyngwyd allanol. Gwnaethom gynnydd sylweddol ar ein cynllun Seiberddiogelwch 3 blynedd, gan gynnwys caffael systemau Rheoli Gwybodaeth a Digwyddiadau Diogelwch (SIEM). Mae'r SIEM Cenedlaethol wedi'i gaffael gan IGDC ar gyfer GIG Cymru. Rydym wedi cynnwys pob rheolwr parth ac mae hyfforddiant ar y gweill gyda phob sefydliad.

MUDO'R GANOLFAN DDATA

Nod Prosiect Pontio Dau y Ganolfan Ddata yw symud ein seilwaith o'r ganolfan ddata bresennol cyn i'r contract ddod i ben yn 2024. Bydd y ganolfan ddata newydd yn cefnogi Cynllun Strategol Datgarboneiddio IGDC ac yn ein galluogi i fabwysiadu dull gweithredu cwmwl yn gyntaf. Gwnaethom ddatblygu achosion cynllunio mudo cwmwl ac achosion busnes, gan weithredu datrysiad Cloud PC yn llwyddiannus a dechrau sganiau asesu mudo cwmwl.

Ar ddechrau'r flwyddyn, roedd neuadd y ganolfan ddata newydd ar gael i ni a dechreuon ni ar y gwaith gosod. Er i ni wynebu heriau gyda rhwydweithio, bu i ni symud yr holl wasanaethau yn llwyddiannus i'r ganolfan ddata newydd erbyn diwedd y flwyddyn, gyda'r rhwydweithio i'w gwblhau yn gynnar yn y flwyddyn ariannol newydd.

PERFFORMIAD GWEITHREDOL

CYDYMFFURFIO Â LLYWODRAETHU GWYBODAETH CORFFORAETHOL


Yn ogystal â monitro a chefnogi rhanddeiliaid i wella cydymffurfiaeth â Llywodraethu Gwybodaeth, rydym yn rhoi sicrwydd ein bod yn parhau i fodloni ein rhwymedigaethau statudol o dan deddfwriaeth hawliau gwybodaeth. Mae uchafbwyntiau ein cydymffurfiaeth â llywodraethu gwybodaeth corfforaethol wedi'u nodi isod.



Archwiliad Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU - Fel rhan o raglen dreigl o archwiliadau, rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2023, bu Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn archwilio ymagwedd IGDC at Lywodraethu Gwybodaeth. Canolbwyntiodd yr archwiliad ar ein cydymffurfiaeth â deddfwriaeth diogelu data, yn enwedig Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR y DU). Daeth adroddiad terfynol PCGC i'r casgliad bod gan IGDC sicrwydd "sylweddol" yn unol â chwmpas yr archwiliad.

Cyflwyniad Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth IGDC - mae IGDC yn gyfrifol am gynnal a datblygu'r pecyn cymorth Llywodraethu Gwybodaeth, y mae'n rhaid i randdeiliaid ei gwblhau'n flynyddol. Yn ogystal, rhaid i ni gyflwyno ein pecyn cymorth Llywodraethu Gwybodaeth ein hunain i ddangos ein cydymffurfiaeth ein hunain â safonau a deddfwriaeth Llywodraethu Gwybodaeth cenedlaethol. Gwnaethom gyflwyno Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth 2022/23 ym mis Mehefin 2023 a chyflwyno ein sgôr i'r Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol ym mis Awst 2023. Crëwyd cynllun gweithredu a rhannwyd blaenoriaethau allweddol â'r Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol mewn cyfarfodydd dilynol. Cyflwynwyd Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth 2023/24 gennym ym mis Mawrth 2024, a chyflwynwyd y sgôr i'r Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol ym mis Mai 2024.

Ceisiadau Llywodraethu Gwybodaeth am Wybodaeth - Mae gan y cyhoedd yr hawl i ofyn am wybodaeth gan awdurdodau cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth amdanynt eu hunain (Ceisiadau am Fynediad at Bwnc) neu wybodaeth a gedwir gan awdurdodau cyhoeddus (ceisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol). Mae'n ofynnol i IGDC ymateb i unrhyw geisiadau yn unol ag amserlenni statudol.



FFfigurur 2 - Ceisiadau Llywodraethu Gwybodaeth am Wybodaeth

Rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024, bu inni dderbyn 62 o geisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Ymatebwyd i dri o'r rhain y tu allan i'r amserlenni statudol.

Derbyniwyd 20 Cais am Fynediad at Bwnc, ac roedd un ymateb y tu allan i'r amserlenni statudol.

Cawsom hefyd ddau gais Hawliau Unigol arall, un cais am Reoliad Gwybodaeth Amgylcheddol a thri chais a wnaed gan yr heddlu ac asiantaethau eraill o dan Atodlen 2 y Ddeddf Diogelu Data. Ymatebwyd i bob un o'r ceisiadau hyn o fewn yr amserlenni statudol.

Toriadau Llywodraethu Gwybodaeth - Cofnodwyd tri digwyddiad llywodraethu gwybodaeth yn ystod y flwyddyn. Nid ystyriwyd bod unrhyw un o'r digwyddiadau hyn yn adroddadwy i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

GWASANAETHAU CLEIENTIAID

Mae Gwasanaethau Cleientiaid yn darparu gwasanaethau cyfrifiadura i 16,628 o ddefnyddwyr, ar draws Iechyd a Gofal Digidol Cymru, practisau meddygon teulu a sefydliadau eraill GIG Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

Sefydliad	Nifer y Defnyddwyr Gweithredol*
Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC)	1,268
Practisau Meddygon Teulu (GIG Cymru)	12,216
Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)	590
Academi Ddelweddu Genedlaethol (NIA)	10
Gweithrediaeth GIG Cymru	285
Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC)	1,995
Hosbisau Anstatudol	106
Canolfannau Iechyd Carcharau	158
Cyfanswm	16,628

*Defnyddwyr Gweithredol yn seiliedig ar Drwyddedau Microsoft 365 - a gofnodwyd ar 14 Mawrth 2024.

Drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf, mae ein ffocws ar arloesi a gwella gwasanaethau wedi arwain at gyflawniadau sylweddol.

Fe wnaethom gyflwyno datrysiadau blaengar yn llwyddiannus, gan gynnwys Teams Voice, Canolfan Gyswilt Cwmwl, a Phorth Gwe Ddiogel. Cryfhaodd y datrysiadau hyn ein seilwaith cyfathrebu a gwella ein mesurau seiberddiogelwch, gan sicrhau amgylchedd cadarn a diogel i'n cleientiaid. Yn ogystal, bu inni hwyluso caffael contract Caledwedd Defnyddwyr Terfynol newydd, gan ddarparu adnoddau cyfrifiadurol dibynadwy ac effeithlon ar gyfer ein partneriaid.

Mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid, gwnaethom gefnogi sefydlu Gweithrediaeth GIG Cymru a Llais, gan osod y sylfaen ar gyfer eu hintegreiddio yn ein rhwydwaith. Yn ogystal, gwnaethom weithredu Gwasanaeth Argraffu a Reolir gan Feddygon Teulu newydd a symud i Microsoft Windows 11, gan nodi cam allweddol tuag at foderneiddio ein tirwedd dechnolegol.

Gan groesawu datrysiadau cyfrifiadura cwmwl, buom yn goruchwylio'r defnydd o Microsoft SharePoint Online a chychwyn datblygiad Microsoft Windows Cloud Computing. Nod y mentrau hyn yw diogelu ein seilwaith at y dyfodol a datgloi posibiliadau newydd ar gyfer arloesi digidol. Dangosir ein hymrwymiad i welliant parhaus trwy ein gweithgareddau adnewyddu TG parhaus, gan gynnwys uwchraddio 4,000 o gyfrifiaduron meddygon teulu i sicrhau bod ein systemau yn parhau i fod wedi'u hoptimeiddio a'u diweddarau i ddiwallu anghenion sy'n datblygu.

Mae gwella profiadau defnyddwyr wedi bod yn flaenoriaeth, fel y dangoswyd gan foderneiddio profiad Ystafell Gyfarfod IGDC a gweithredu gwelliannau i reoli asedau.

Wrth edrych ymlaen, rydym wedi amlinellu nodau ar gyfer y dyfodol i wella ein gwasanaethau ymhellach:


- *Symud Cam 2 Gweithredol GIG Cymru, gan atgyfnerthu ein hymrwymiad i hwyluso pontio di-dor a pharhad gweithredol.*
- *Gweithredu Microsoft Windows Cloud Computing a defnyddio datrysiad monitro Profiad Defnyddwyr Terfynol i wella perfformiad a boddhad defnyddwyr.*
- *Prosiectau mudo, megis mudo Systemau Clinigol Meddygon Teulu a Chyfraniadau Ffeil Rhwydwaith ar y safle i ddatrysiadau cwmwl.*

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod gan ein partneriaid fynediad at y technolegau a'r gwasanaethau cymorth gorau sydd eu hangen i gyflawni canlyniadau gofal iechyd eithriadol.



PERFFORMIAD CYMORTH BWRDD GWAITH

Cymorth Bwrdd Gwaith yw'r gwasanaeth bwrdd gwaith a reolir yr ydym yn ei gynnig i'n sefydliadau ategol. Mae ein metrigau perfformiad, neu Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs), yn cael eu gosod gan Gytundebau Lefel Gwasanaeth gyda phob sefydliad. Mae'r siart a ganlyn yn dangos cyfanswm y galwadau a drafodwyd gennym, wedi'u grwpio yn ôl digwyddiadau a cheisiadau am wasanaeth, a chanran y datrysiadau a gyrhaeddodd ein nodau cytûn.



FFfigurur 3 - Perfformiad Cymorth Bwrdd Gwaith 2023/24


Y DDESG WASANAETH

Mae ein Desg Gwasanaeth TG, a Arweinir gan Gwsmeriaid, achrededig y Sefydliad Desg Gwasanaethau (SDI), yn darparu cymorth uniongyrchol ar gyfer dros 16,000 o staff mewn practisau meddygon teulu, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, Iechyd a Gofal Digidol Cymru, a sefydliadau cenedlaethol eraill. Mae'r tîm hefyd yn gweithredu fel pwynt uwchgyfeirio ar gyfer desgiau gwasanaeth lleol holl sefydliadau GIG Cymru, gan helpu i ddatrys materion a cheisiadau gan fyrddau iechyd, ymddiriedolaethau ac eraill.

Ym mis Rhagfyr 2023, ar ôl archwiliad llwyddiannus, cadwodd Desg Wasanaeth IGDC ei hachrediad 3-seren gan y Sefydliad Desg Gwasanaethau, gan ei chydabod fel Desg Wasanaeth a arweinir gan gwsmeriaid.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, deliodd y Ddesg Gwasanaeth â dros 219,130 o docynnau cymorth ar draws GIG Cymru. Ar gyfartaledd, llwyddodd y Ddesg Gwasanaeth i ateb 96.7% o alwadau, gyda chyfradd galwadau gadawedig ar gyfartaledd o 3.3%.

Mae ein Desg Wasanaeth yn casglu adborth ar ansawdd y gwasanaeth ac mae wedi cynnal cyfradd boddhad cwsmeriaid o 95% ac uwch ar sail yr ymatebion a dderbyniwyd.



Ffigur 4 - Digwyddiadau a Cheisiadau Gwasanaeth a Dderbyniwyd

CENHADAETH 2: DARPARU CYNHYRCHION A GWASANAETHAU DIGIDOL O ANSAWDD UCHEL

Mae'r genhadaeth hon yn cwmpasu meysydd clinigol a lleoliadau gofal mawr, yn ogystal â'r systemau arbenigol cenedlaethol allweddol yr ydym yn eu hadeiladu neu'n eu prynu ar ran GIG Cymru. Mae llawer o gyfleoedd i:

'gynllunio llwybrau mwy cyfannol ac effeithlon sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn yn hytrach na bod llawer o wahanol dimau yn gweld cleifion sy'n canolbwyntio ar un agwedd ar eu hanghenion iechyd yn unig'

Fframwaith Clinigol Cenedlaethol

Mae Digidol yn cefnogi'r rhaglenni allweddol a sefydlwyd i gyflawni'r weledigaeth hon.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Fframwaith Clinigol Cenedlaethol:
System Iechyd a Gofal sy'n Dysgu. llyw.cymru



CYFLAWNI'R RHAGLEN

GENHADAETH

2

FFRAMWAITH IMIWNEIDDIO CENEDLAETHOL (NIF)

Cyhoeddwyd [Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol Cymru](#) (NIF) gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2022. Mae'r fframwaith yn amlygu rôl bwysig technoleg ddigidol wrth ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd uchel. Rydym wedi cael ein comisiynu i adolygu'r holl systemau brechu ac archwilio sut i wneud i'r systemau hyn weithio'n well gyda'i gilydd. Arweiniodd heriau yn y trydydd chwarter at amserlenni diwygiedig ar gyfer darganfod y Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol (NIF), ond mae gweithgarwch yn parhau, a derbyniwyd adroddiadau interim.

SYSTEM IMIWNEIDDIO CYMRU (WIS)

Mae System Imiwneiddio Cymru wrth wraidd rhaglen frechu COVID-19 yng Nghymru. Mae hefyd yn cefnogi gweinyddu brechiadau fflw tymhorol ochr yn ochr â brechiadau COVID-19, neu mewn clinigau fflw galw heibio. Mae cofnodion meddygon teulu cleifion yn cael eu diweddarau'n awtomatig pan fydd gwybodaeth yn cael ei hychwanegu at System Imiwneiddio Cymru. Defnyddir y system ar draws pob bwrdd iechyd, gyda bron i 14,000 o ddefnyddwyr mewn lleoliadau brechu, 8,187 mewn practisau meddygon teulu a 352 mewn fferyllfeydd.

Ers ei lansio ym mis Rhagfyr 2020, mae System Imiwneiddio Cymru (WIS) wedi'i gwella'n barhaus, gan ychwanegu nodweddion fel negeseuon trefnu a negeseuon atgoffa, ac integreiddio â'r Gwasanaeth Archebu Brechlyn.

Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, llwyddwyd i wahanu System Imiwneiddio Cymru oddi wrth y System Integredig Plant a Phobl Ifanc (CYPrIS). Mae gweithredu'r System Imiwneiddio Cymru fel system annibynnol wedi gwella sefydlogrwydd system, rhwyddineb cynnal a chadw a bydd yn galluogi moderneiddio pellach i ddiwallu anghenion defnyddwyr.

Ym mis Awst 2023, defnyddiwyd System Imiwneiddio Cymru ar gyfer ymgyrch Atgyfnerthu yr Hydref. Roedd gwelliannau mewn awtomeiddio profion a gweithredu System Imiwneiddio Cymru fel system annibynnol yn cefnogi ansawdd data gwell yn dilyn adnewyddu carfannau.

Mae awtomeiddio profion wedi lleihau'r amser a gymerir i wneud newidiadau i System Imiwneiddio Cymru. Ym mis Chwefror 2024 bu inni wneud newidiadau ar gyfer ymgyrch Atgyfnerthu y Gwanwyn mewn llai na 4 wythnos, bron i ddau fis yn gyflymach o gymharu ag ymgyrchoedd y gwanwyn blaenorol.

Er gwaethaf heriau yn Chwarter 4, megis cyfyngiadau adnoddau, heriau recriwtio ac oedi wrth sicrhau cyllid, cyflawnwyd cerrig milltir sylweddol megis cofnodi'r 10 miliynfed brechiad COVID ar System Imiwneiddio Cymru. Mae ffyrdd newydd o weithio ac awtomeiddio wedi cefnogi gwelliannau parhaus ac wedi ein galluogi i ymateb i anghenion Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol Cymru. Mae cyflawniadau'n cynnwys gwneud newidiadau i'r Rhaglen Imiwneiddio rhag Feirws Papiloma Dynol (HPV) o fewn y System Integredig Plant a Phobl Ifanc (CYPriS) a symud ein cod CYPriS i Git, gan wella arferion datblygu. Mae 3,821 o ddefnyddwyr mewn byrddau iechyd a 360 o ddefnyddwyr mewn practis cyffredinol.



SYSTEM WYBODAETH GOFAL CYMUNEDOL CYMRU

[Mae System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru](#) (WCCIS) yn darparu offer digidol i nyrsys cymunedol, timau iechyd meddwl, gweithwyr cymdeithasol a therapyddion gydweithio'n well. Mae'n cefnogi gofal cymunedol, yn helpu i leihau arosiadau diangen yn yr ysbyty ac yn gwella'r broses o gadw cofnodion er mwyn osgoi dyblygu. Mae WCCIS hefyd yn sicrhau mynediad priodol at ddata sensitif ac yn cefnogi asesiadau integredig rhwng staff iechyd a gofal cymdeithasol, gan wella gwaith tîm amlddisgyblaethol. Ers 2016, mae 19 o sefydliadau, gan gynnwys 15 awdurdod lleol a phedwar bwrdd iechyd, wedi rhoi'r system ar waith.

Drwy gydol y flwyddyn, mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran datblygu gwasanaethau gofal iechyd digidol o fewn y rhaglen strategol Gofal Sylfaenol, gyda'r nod o ddarparu mynediad di-dor i wasanaethau yn agos i'r cartref.

Wedi'i rheoli gan IGDC, mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar adeiladu, caffael a rheoli systemau ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Mae hyn yn cynnwys meddygon teulu, fferyllwyr cymunedol, deintyddion, a staff iechyd cymunedol, iechyd meddwl a gofal cymdeithasol.

Mae cyflawniadau allweddol yn cynnwys rhyddhau galluoedd symudol ar gyfer y system WCCIS a diweddariadau lluosog i lwyfan y Cyfarwyddwr Gofal yn y chwarter cyntaf. Dechreuodd ymgysylltiad gweinidogol drafodaethau ar yr Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Cam 2, ochr yn ochr â dechrau ar waith darganfod ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl a phroffesiynau perthynol i iechyd.

DIGITAL MATERNITY CYMRU

Mae Rhaglen Mamolaeth Ddigidol Cymru yn anelu at ddarparu datrysiad mamolaeth ddigidol ledled Cymru sy'n cefnogi clinigwyr ac yn grymuso menywod a phobl sy'n geni i gymryd rhan mewn gofal diogel o ansawdd uchel sy'n cefnogi canlyniadau a phrofiadau gwell.

Mae Rhaglen Mamolaeth Ddigidol Cymru wedi gwneud cynnydd drwy sefydlu trefniadau llywodraethu, recriwtio staff a dechrau ymgysylltu cyn-gaffael. Yn yr ail chwarter, cymeradwyodd Rhaglen Mamolaeth Ddigidol Cymru ei strategaeth, ei gweledigaeth, a'i model gweithredu targed. Fodd bynnag, erbyn y trydydd chwarter, roedd y rhaglen yn wynebu heriau cymeradwyo ac ansicrwydd ariannu, a arweiniodd at gyfyngiadau adnoddau ac oedi. Cynhyrchodd y rhaglen Achos Busnes Amlinellol drafft yn y pedwerydd chwarter ac mae bellach yn aros am adborth gan Lywodraeth Cymru ar y dull ariannu wrth symud ymlaen.

RHAGLEN GOFAL LLYGAID DIGIDOL GENEDLAETHOL

Nod y Rhaglen Gofal Llygaid Digidol Genedlaethol yw rhoi mynediad i offthalmolegwyr ysbytai ac optometryddion cymunedol i wybodaeth glinigol a rennir. Mae hyn yn helpu i fonitro iechyd llygaid a darparu gofal a rennir mewn ysbytai a lleoliadau cymunedol fel optegwyr y stryd fawr, fel rhan o un llwybr cysylltiedig.

Mae'r Rhaglen Gofal Llygaid Digidol Genedlaethol yn cefnogi'r themâu buddsoddi canlynol gan Lywodraeth Cymru;

- Trawsnewid gwasanaethau digidol ar gyfer cleifion a'r cyhoedd
- Trawsnewid gwasanaethau digidol ar gyfer gweithwyr proffesiynol
- Buddsoddi mewn data a gwybodaeth ddeallus

Eleni, trosglwyddwyd y Rhaglen Gofal Llygaid Digidol Genedlaethol i IGDC o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Ar gais Llywodraeth Cymru, gwnaethom gynnal 'saib ac adolygiad' o'r rhaglen a dechrau gweithgareddau i gefnogi'r mudo y bydd angen iddo fod o dan gontract cyflenwr newydd. Rydym wedi bod yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i ddod o hyd i'r dull caffael gorau a chyda phob bwrdd iechyd i benderfynu beth y gellir ei gyflawni o dan y contract presennol, sy'n dod i ben ym mis Ionawr 2025.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi rhoi'r system Cofnod Cleifion Electronig ar waith ar gyfer sawl is-arbenigedd ar wahanol safleoedd. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg wedi rhoi'r system ar gyfer glawcoma ar waith, i gyd o fewn amlen ariannu lai.



RHAGLEN Y CHWE NOD



CHWE NOD AR GYFER GOFAL BRYN A GOFAL MEWN ARGYFWNG Y GOFAL IAWN, YN Y LLE IAWN, Y TRO CYNTAF

I gyflawni'r gorau posibl o ran profiad cleifion a staff, canlyniadau clinigol a gwerth



Chwe nod ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng: llawlyfr polisi- Llywodraeth Cymru




1. Cydgysylltu, cynllunio a chymorth ar gyfer poblogaethau sydd â risg uwch o fod angen gofal brys neu ofal mewn argyfwng



2. Cyfeirio pobl ag anghenion gofal brys i'r lle iawn y tro cyntaf



3. Dewisiadau eraill sy'n ddiogel yn glinigol yn lle mynd i'r ysbyty



4. Ymateb cyflym os oes argyfwng corfforol neu argyfwng iechyd meddwl



5. Darparu'r gofal a'r ymarfer rhyddhau gorau posibl i'r claf ar ôl iddo gael ei dderbyn i'r ysbyty




6. Dull 'gartref yn gyntaf' a lleihau'r risg o orfod mynd yn ôl i'r ysbyty

Cafodd y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng eu cyd-gynllunio gan arweinyddion clinigol a phroffesiynol. Maent yn cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn [Rhaglen Lywodraethu 2021-2026](#), i ddarparu gofal iechyd effeithiol, cynaliadwy o ansawdd uchel mor agos at y cartref â phosibl, a gwella mynediad ac integreiddio gwasanaethau. Yn 2023/24, gwnaed cynnydd sylweddol o ran rheoli data gofal iechyd ac integreiddio gwasanaethau ledled Cymru.

Mae'r Chwe Nod ar gyfer y Rhaglen Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, er mwyn deall 'sut olwg sydd ar yr hyn sy'n dda' i gleifion sy'n cael gofal mewn Adran Achosion Brys. Mae angen Set Ddata Gofal Brys Cymru (WECDs) i gytuno ar safonau gofal, creu dull unffurf o fesur gweithgarwch a datblygu model gofal y cytunwyd arno'n genedlaethol ar gyfer adrannau achosion brys. Bydd hyn yn galluogi gwelliannau mewn canlyniadau clinigol, yn ogystal â phrofiad cleifion a staff.

Mae Set Ddata Gofal Brys Cymru yn cefnogi cyflawni Nod 4 o'r Chwe Nod. Cyflwynwyd y set ddata ddrafft a'r cynnig datblygu yng Ngrŵp Datblygu Gwybodaeth Cymru ar 7 Mawrth 2024 a disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi yn chwarter cyntaf 2024/25. Yn y dyfodol, bydd y set ddata yn cael ei mabwysiadu gan y gwasanaeth ambiwlans yn ei wasanaethau 999 ac 111, gan arwain at integreiddio gwasanaethau'n well a mewnwelediadau mwy ystyrlon.



Mae'r Cofnod Gofal Cleifion (ePCR) a'r System ar gyfer Anfon Ambiwlansys gyda Chymorth Cyfrifiadurol (CAD) yn cefnogi Nodau 2 a 3 trwy greu set ddata gadarn i'w rhannu â byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau, gan gysylltu â setiau data eraill i wella dealltwriaeth o'r gwasanaeth a llwybrau cleifion. Mae gwaith ar y gweill gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) a Phrifysgol Warwick i sefydlu'r set ddata sylfaenol a fydd yn cael ei rhannu â byrddau iechyd. Bydd y data hwn yn aros yn yr Adnodd Data Cenedlaethol (NDR).

Mae gwasanaeth Gofal Brys ar yr Un Diwrnod (SDEC), sy'n cefnogi Nod 3, yn dal i fod yn ei gamau datblygu cynnar ar draws pob bwrdd iechyd. Mae gwasanaeth SDEC yn rhan o ddull cam un Set Ddata Gofal Brys Cymru. Rydym wedi gweithio gydag arweinwyr Nodau 3 a 4 i ddatblygu mesurau amlinellol, ac mae'r rhain yn cael eu casglu ar hyn o bryd ar draws gwasanaethau SDEC ledled Cymru. Rydym yn parhau i weithio ar wella ansawdd data i sicrhau ei fod yn ystyrlon ac yn ddefnyddiadwy.

Mae'r Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys (UPCC), 111 a'r Gwasanaethau y Tu Allan i Oriau (OOH) wedi bod yn gweithio gyda'r tîm Safonau Data i ddiweddarau'r [Hysbysiad Newid Safonau Data](#) (DSCN) presennol o 2019, gan gefnogi Nod 2. Bwriedir cyhoeddi DSCN teleffoni, gan gynnwys gwaith UPCC, yn ystod chwarter cyntaf 2024/25.

Rydym wedi bod yn gweithio gyda chyfarwyddwr Nod 6 i ddatblygu set ddata gyfanredol i fesur gweithgarwch Rhyddhau i Adfer ac Asesu (D2RA) ar draws byrddau iechyd.

Rydym wedi cynhyrchu dau ddangosfwrdd Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng newydd yn lle'r hen Ddangosfwrdd Gofal Heb ei Drefnu.

- Dangosfwrdd gweithrediadau gyda metrigau a galwadau amser real neu amser real bron ar draws Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng.
- Dangosfwrdd rheoli gyda metrigau sy'n ymwneud â pherfformiad gwasanaeth.

Aeth y dangosfyrddau, a reolir ac a gynhelir gan Wasanaethau Gwybodaeth IGDC, yn fyw ym mis Medi 2023 ac maent yn cael eu defnyddio ar draws GIG Cymru a Llywodraeth Cymru. Maent yn hygyrch heb fod angen Gliniadur GIG Cymru na mewngofnodi, gan alluogi cynnydd sylweddol o ran mynediad data i Lywodraeth Cymru.

SYSTEM WYBODAETH GOFAL DWYS CYMRU (WICIS)

Mae IGDC wedi bod yn cefnogi datblygu a phrofi [System Wybodaeth Gofal Dwys Cymru](#) (WICIS).



System Wybodaeth Gofal Dwys Cymru
Welsh Intensive Care Information System

IGDC • DHCW

Bydd WICIS yn casglu gwybodaeth amser real o ddyfeisiau monitro, pypiau ac offer anadlol a ddefnyddir ar gyfer gofal cleifion. Bydd y system yn rhoi mynediad hawdd at ddata a mewnwediadau hanfodol, gan roi trosolwg cyflym a chlr i staff rheng flaen o statws cleifion a dyfeisiau ar draws y ward. Mae'r datrysiad digidol newydd yn bwriadu disodli'r holl siartiau papur ac arsylwadau llawysgrifen o arwyddion hanfodol. Gyda dros 10,000 o gleifion yn cael eu derbyn i ofal critigol yng Nghymru bob blwyddyn, bydd y system ddigidol hon yn helpu i leihau'r baich ar staff rheng flaen. Bydd yn cynnwys rheoli meddyginiaethau a bydd yn cael ei hintegreiddio i systemau digidol GIG Cymru, gan sicrhau bod gwybodaeth ar gael pryd a ble mae ei hangen.

Aeth cylchau profi ar gyfer WICIS yn eu blaenau fel y cynlluniwyd yn Ysbyty Grange, gan ddangos parodrwydd i fynd yn fyw. Fodd bynnag, daeth heriau i'r amlwg yn y trydydd chwarter yn dilyn profion derbyn defnyddwyr (UAT) a phroffion dilysu, a oedd yn gofyn am ailgynllunio gyda'r byrddau iechyd a Gweithrediaeth GIG Cymru. O ganlyniad, mae'r lansiad byw cyntaf o'r cylchau hyn wedi'i ohirio.

SYSTEM ADRANNAU ACHOSION BRYD CYMRU (WEDS)

Yn gynharach yn y flwyddyn, cwblhawyd adolygiad strategol o brosiect System Adrannau Achosion Bryd Cymru (WEDS) ac fe'i cyflwynwyd i'r Bwrdd prosiect cenedlaethol. Yn dilyn yr adolygiad hwn, penderfynwyd peidio ag ymestyn y broses gyflwyno y tu hwnt i'r safle pilot. O ganlyniad, mae trafodaethau masnachol wedi'u cynnal gyda'r cyflenwr a disgwylir i'r prosiect ddirwyn i ben.



DIAGNOSTEG

GENHADAETH

2

Mae gwasanaethau diagnostig yng Nghymru yn wynebu heriau oherwydd galw cynyddol, newidiadau mewn gofal clinigol, diffyg safoni a phrinder arbenigedd. Nod GIG Cymru yw gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau drwy ad-drefnu gwasanaethau a darparu diagnosis yn nes at y claf. Mae technoleg ddigidol yn cael ei defnyddio i wella darpariaeth gwasanaeth, diogelwch cleifion, cyfathrebu, cyfraddau gwallau, costau a defnydd data.

Rydym yn gweithio i integreiddio datrysiadau gwybodeg labordy a radioleg newydd, ehangu ymarferoldeb ceisiadau electronig, a gwella argaeledd cenedlaethol canlyniadau diagnostig ac adroddiadau. Mae hyn yn golygu gwell mynediad at ganlyniadau profion, gan wella gofal cleifion a diogelwch clinigol. Mae gwell rhannu gwybodaeth ar draws ffiniau a gwell storio a dosbarthu delweddau hefyd yn nodau allweddol.

Mae delweddu diagnostig modern yn allweddol i ddiagnosis a thriniaeth yng ngofal modern cleifion. Mae gwasanaethau radioleg yn cael eu darparu mewn ystod eang o leoliadau gofal iechyd ar draws pob bwrdd iechyd ac iechyd yng Nghymru. Yn y dyfodol, bydd canolfannau diagnostig rhanbarthol yn ehangu'r ystod o wasanaethau a ddarperir y tu allan i amgylcheddau ysbyty arferol.

Nod y rhaglen Caffael System Gwybodeg Radioleg (RISP) yw caffael a gweithredu system newydd sy'n integreiddio archifo lluniau a chyfathrebu, rheoli dosau cleifion a swyddogaethau rheoli gwybodaeth radioleg. Bydd y system integredig yn cael ei chyflwyno ledled Cymru erbyn 2026.

Mae Rhaglen System Rheoli Gwybodaeth Labordy (LIMS2.0) yn cefnogi darparu gwasanaeth patholeg modern, cynaliadwy a diogel fel rhan o [Ddatganiad o Fwriad Patholeg](#).

Trosglwyddwyd y ddwy raglen i IGDC o Gydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru ym mis Ionawr 2023.

Yn y chwarter cyntaf, cymeradwywyd yr achos busnes llawn ar gyfer y prosiect RISP, gan ganiatáu i'r contract gael ei ddyfarnu. Parhaodd y cynnydd gyda gweithredu'r Prif Gytundeb Gwasanaeth (MSA) ym mis Mehefin a chymeradwyo Gorchmynion Defnyddio Lleol gan fyrddau iechyd lluosog. Fodd bynnag, cafwyd anawsterau oherwydd newidiadau yng nghynllun gweithredu'r cyflenwr ac mae trafodaethau'n parhau.

Daethpwyd i gytundeb gyda'r cyflenwr i derfynu'r contract ar gyfer y system wybodaeth labordy newydd. O ganlyniad, estynnwyd y tymor ar gyfer y system wybodaeth labordy etifeddol i fis Mehefin 2030. Dechreuwyd uwchraddio'r fersiwn meddalwedd diweddaraf yn yr ail chwarter a gwnaed cynnydd sylweddol yn LIMS2.0 erbyn y trydydd chwarter gyda'r rhaglen yn trosglwyddo i'r cam lansio. Mae'r prosiect yn parhau i symud ymlaen yn gyflym er gwaethaf amserlenni tynn ac mae bellach yn y cyfnod sefydlu ac adeiladu, tra bod profion integreiddio system wedi dechrau ar ryngwynebau cam un.

Mae'r ddwy raglen wedi wynebu cyfyngiadau o ran adnoddau a phryderon ynghylch amserlenni adeiladu uchelgeisiol a hyder cyflenwi cyflenwyr. Fodd bynnag, yn gyffredinol, gwnaed cynnydd sylweddol.



Moddion Digidol Digital Medicines

IGDC • DHCW

MODDION DIGIDOL

Mae cynllun '[Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach 2019](#)' yn amlinellu'r canlynol: 'Mae trawsnewid sydd ei angen i wneud y gorau o'r cynnydd mewn iechyd ar gyfer dinasyddion Cymru yn deillio o ryngweithio â'r proffesiwn fferyllol.' Mae'r cynllun hwn hefyd yn canolbwyntio ar ddarparu mwy o werth a chanfod arbedion cost.

Mae [Moddion Digidol](#) yn cyfuno prosiectau a fydd yn cyflawni buddion dull rhagnodi cwbl ddigidol ym mhob lleoliad gofal yng Nghymru. Gan ymateb i [adolygiad annibynnol](#), ym mis Medi 2021, nododd y Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol uchelgais ar gyfer cynllun moddion digidol cynhwysfawr i Gymru a gofynnodd i lechyd a Gofal Digidol Cymru sefydlu'r rhaglen. Mae gan y rhaglen bedwar maes gwaith rhyng-gysylltiedig:

- Gwasanaeth Presgripsiynau Electronig Gofal Sylfaenol (EPS)
- Rhagnodi a Gweinyddu Meddyginiaethau Gofal Eilaidd yn Electronig (ePMA)
- Cofnod Meddyginiaethau a Rennir (SMR)
- Mynediad i Gleifion (Ap GIG Cymru)

Ym mis Tachwedd, aeth Prawf Cysyniad (SPoC) y rhaglen EPS yn fyw. Mae EPS yn disodli ffurflenni presgripsiwn papur gyda system ddigidol sy'n caniatáu i feddygon teulu anfon presgripsiwn yn electronig yn uniongyrchol i fferyllfa o ddewis y claf. [Ymwelodd y Gweinidog dros lechyd a Gofal Cymdeithasol, Eluned Morgan, â'r safleoedd prawf i nodi'r achlysur.](#) Cwblhaodd y Prosiect Mynediad Cleifion y datblygiad meddalwedd ar gyfer y nodwedd "hysbysiad i nodi bod presgripsiwn yn barod" ar Ap GIG Cymru. Mae'r nodwedd hon yn rhoi gwybod i gleifion pan fydd eu presgripsiwn gan feddyg teulu yn barod i'w gasglu o'u fferyllfa gymunedol. Hefyd, dechreuodd datblygiad nodwedd sy'n caniatáu i gleifion enwebu fferyllfa gymunedol o fewn Ap GIG Cymru i dderbyn eu presgripsiwn gan Feddyg Teulu.

Ers lansio'r Rhaglen Gwasanaeth Presgripsiynau Electronig Gofal Sylfaenol (EPS), mae 1,457 o bresgripsiynau a 3,196 o eitemau presgripsiwn wedi'u hanfon hyd yn hyn. Mae dwy system fferyllfa ychwanegol wedi'u cymeradwyo i ddefnyddio EPS ac mae'r gwasanaeth wedi'i gyflwyno i bractis meddyg teulu arall. Er bod dibyniaethau ar ddemograffeg cleifion wedi effeithio ar y Cofnod Meddyginiaethau a Rennir (SMR), mae profion gyda dau gyflenwr ar y fframwaith ePMA yn parhau. Rhoddodd y Prosiect Mynediad Cleifion flaenoriaeth i gleifion mudol yr effeithiwyd arnynt gan broblemau gyda [Fy Iechyd Ar-lein](#).

Yn gyffredinol, mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran datblygu mentrau rheoli presgripsiynau a meddyginiaeth electronig. Mae'r ymdrechion hyn yn dangos ymrwymiad parhaus i oresgyn heriau a sicrhau gweithrediad llwyddiannus er budd cleifion a darparwyr gofal iechyd ledled Cymru.

CYFLAWNIAD GWEITHREDOL

GENHADAETH

2


ARGAELEDD GWASANAETHAU

Mae gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn dibynnu ar y dechnoleg a'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu. Rydym yn gweithio'n rhagweithiol i sicrhau'r dibynadwyedd a'r argaeledd mwyaf posibl.

Rydym yn falch o nodi bod ein gwasanaethau gweithredol wedi perfformio'n dda dros y flwyddyn ddiwethaf, gan sicrhau argaeledd cyfartalog o 99.984%. Yn ystod y cyfnod hwn, cafwyd cyfanswm o 44 o ddigwyddiadau mawr.

Mae digwyddiadau mawr yn effeithio ar nifer fawr o ddefnyddwyr ac yn cynnwys materion fel oedi wrth brosesu canlyniadau profion, amser segur ar gyfer gwasanaeth neu amhariad rhannol ar wasanaeth. Roedd rhai o'r digwyddiadau hyn oherwydd problemau gyda chyflenwyr trydydd parti neu broblemau seilwaith yn adeiladau'r bwrdd iechyd. O'r digwyddiadau TG mawr hyn roedd 98% wedi'u datrys o fewn targed yr amseroedd datrys.

Ffigur 5 - Cymhariaeth Flynyddol o Argaeledd Gwasanaeth IGDC



GOFAL SYLFAENOL

Mae systemau cyfrifiadurol wrth wraidd gofal sylfaenol ac yn rheoli miliynau o gofnodion cleifion bob blwyddyn. Rydym yn darparu gofal sylfaenol gydag ystod gynyddol o offer digidol i helpu meddygon teulu i reoli cofnodion, trefnu tasgau dyddiol a gofalu am gleifion.

Ymhellach i sefydlu'r Gyfarwyddiaeth Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl ddiwedd y llynedd, rydym wedi datblygu ein [Strategaeth Gofal Sylfaenol](#). Wedi'i chyhoeddi yn chwarter dau, nod y strategaeth yw rhoi llwyfan i IGDC y gallwn ei ddefnyddio i ddarparu cynnyrch a gwasanaethau digidol gyda gwell gwerth a buddion.

Ymgwymerwyd â phroses gystadleuaeth fach y Contract Fframwaith Systemau Meddygon Teulu eleni, a dyma'r broses a ddefnyddir i bob meddygfa i ddewis eu system glinigol nesaf. Ar ôl i'r broses hon ddod i ben, cadarnhaodd un o gyflenwyr systemau meddygon teulu ei fod yn tynnu'n ôl o Gymru. Mae hyn wedi gofyn am gynllunio i symud 198 o bractisau meddygon teulu i system glinigol arall, gan amlygu heriau o ran dyrannu adnoddau.

DEWIS FFERYLLFA

Mae [Dewis Fferyllfa](#) yn helpu fferyllfeydd cymunedol i ddarparu gwasanaethau i gleifion a'r cyhoedd, gan ryddhau apwyntiadau meddygon teulu ar gyfer pobl ag anghenion mwy cymhleth. Mae'n cefnogi fferyllwyr wrth wneud penderfyniadau clinigol ac yn gwella diogelwch cleifion trwy gynnig:

- cyngor a chymorth hygyrch ar adeg ac mewn lle sy'n gyfleus i gymunedau lleol.
- templedi digidol sy'n helpu i arwain fferyllwyr trwy ymgynghoriad â chleifion.

O'r rhai a holwyd, dywedodd 77% ohonynt (344,371) y byddent wedi gwneud apwyntiad gyda'u meddyg teulu pe na bai Dewis Fferyllfa ar gael. Eleni, gwnaethom hefyd gyflwyno gwasanaeth Heintiau'r Llwybr Wrinol (UTI) ledled Cymru i gynorthwyo fferyllwyr i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn nes at eu cartrefi.

SYSTEM GWEINYDDU CLEIFION CYMRU

Mae System Gweinyddu Cleifion Cymru (WPAS) yn cadw manylion adnabod cleifion, apwyntiadau cleifion allanol, llythyrau gweinyddol, nodiadau a data atgyfeiriad am driniaeth (RTT) cleifion. Rydym yn gweithio tuag at un olwg ar y data hwn, gan hyrwyddo cysylltiadau di-dor â **Phorth Clinigol Cymru** a safoni data cyfeirio a ffyrdd o weithio. Defnyddir WPAS mewn chwe bwrdd iechyd yng Nghymru a Chanolfan Ganser Felindre.

Dechreuodd y flwyddyn gyda lansiad llwyddiannus enghraifft gyfunol o **System Gweinyddu Cleifion Cymru ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**, gan wneud gwybodaeth a rhyngweithiadau cleifion ar gael yn hawdd ar draws y bwrdd iechyd cyfan. Mae hyn yn arbed amser, yn cynyddu diogelwch cleifion ac yn gwella profiad cleifion.

Mae gwaith yn parhau i fynd i'r afael â goblygiadau'r newid yn y ffin rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar WPAS a systemau cysylltiedig.


Yn ogystal, rhoddwyd swyddogaethau ar waith i alluogi timau amlddisgyblaethol i gydweithio'n effeithiol.



Defnyddwyr Cofrestredig



Trafodiadau (fesul Miliwn)



SYSTEM RHEOLI GWYBODAETH LABORDY CYMRU (WLIMS)

System TG glinigol yw [WLIMS](#) a ddefnyddir gan staff patholeg ledled Cymru i storio, cofnodi a chyfnewid gwybodaeth fel canlyniadau profion gwaed. Mae'r system hefyd yn cysylltu â'r peiriannau sy'n perfformio testunau ac yn dadansoddi'r samplau. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rheolodd y system 40 miliwn o brofion. Mae WLIMS yn cysylltu â [Phorth Clinigol Cymru](#), gan ganiatáu i weithwyr iechyd proffesiynol weld yr holl brofion blaenorol a gynhaliwyd ar gyfer claf a gofyn am rai newydd, ni waeth ble y maent yng Nghymru.

Eleni, aeth ochr trallwysiad gwaed y gwasanaeth yn fyw ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, sy'n golygu bod data trallwyso gwaed bellach ar gael ledled Cymru ar gyfer staff labordy a chlinigol, gan alluogi dull mwy cydgysylltiedig.

SYSTEM RHEOLI STOC FFERYLLIAETH YSBYTAI CYMRU (WHPSMS)

System fferylliaeth ysbysddol yw WHPSMS a ddefnyddir yn genedlaethol mewn 28 o safleoedd ar draws saith bwrdd iechyd ac un ymddiriedolaeth yng Nghymru.

Wedi'i rhoi ar waith yn 2022, mae'n gwella cywirdeb gweinyddu cyfrifiadurol a rheoli stoc meddyginiaethau, gan ddisodli meddalwedd 30 oed. Mae'n cynnig gwell perfformiad, dibynadwyedd a rheolaeth effeithlon ar feddyginiaethau. Mae'r eglurder data gwell yn sicrhau cydymffurfiaeth â llywodraethu cenedlaethol, sy'n golygu gofal mwy diogel a mwy cyson i gleifion. Yn 2023/24 cyflwynwyd y Gyfnewidfa Patholeg Genedlaethol gennym. Mae'r system hon yn galluogi defnyddwyr fel nyrsys i olrhain statws presgripsiynau heb ffonio'r fferyllfa am ddiweddariadau. Mae hyn yn arbed amser ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i gleifion.

CENHADAETH 3: EHANGU'R COFNOD GOFAL A DIGIDOL A'R DEFNYDD O DDULLIAU DIGIDOL I WELLA IECHYD A GOFAL

Mae'r genhadaeth hon yn ymwneud â gwella ac ehangu cynnwys, argaeledd ac ymarferoldeb y Cofnod Iechyd a Gofal Digidol ar gyfer clinigwyr a chleifion. Mae hefyd yn ymwneud â chefnogi gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth a chysylltedd gan ddefnyddio e-lyfrgell GIG Cymru a Microsoft 365.

Mae defnyddio gwybodaeth, systemau a thechnolegau o ansawdd uchel gyda'i gilydd yn cefnogi gofal cleifion. Fodd bynnag, mae data cleifion yn aml wedi'u gwasgaru ar draws fformatau papur a digidol, sy'n ei gwneud hi'n anodd i weithwyr gofal iechyd proffesiynol gael mynediad ato a'i ddefnyddio. Gall hyn arwain at golli gwybodaeth, penderfyniadau anghywir, a niwed i gleifion.

Mae GIG Cymru am wneud gwybodaeth ddigidol yn fwy hygyrch a ddefnyddir yn helaeth, er mwyn gwella iechyd a gofal. [Cymru Iachach](#) yw cynllun hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n cynnwys uchelgais i ddarparu llwyfan digidol ar-lein i ddinasyddion gyfrannu at a rhannu gwybodaeth am eu hiechyd a'u gofal, rheoli apwyntiadau a chyfathrebu â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Bydd hyn yn grymuso pobl i chwarae rhan fwy gweithredol wrth reoli eu hiechyd a'u lles eu hunain'.



CYFLAWNI'R RHAGLEN

CANOLFAN RAGORIAETH MICROSOFT 365 GIG CYMRU



Canolfan Ragoriaeth
Microsoft 365 GIG Cymru
NHS Wales Microsoft 365
Centre of Excellence

IGDC • DHCW

Mae Canolfan Ragoriaeth Microsoft 365 GIG Cymru yn datblygu cynhyrchion digidol, apiau ac awtomeiddio i ddatrys heriau clinigol a gweithredol ar draws pob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth. Mae'r

Ganolfan Ragoriaeth yn helpu staff GIG Cymru i wneud y gorau o offer fel Teams a SharePoint, ac yn cefnogi rhaglenni mwy newydd fel Microsoft Power Platform, sy'n cynnwys Power Apps, Power BI a Power Automate. Mae'r Ganolfan yn cefnogi timau i ddatblygu apiau cod isel, dangosfyrddau data, a phrosesau awtomataidd i ryddhau amser gwerthfawr, gwella effeithlonrwydd, a gwella'r ffordd y mae staff yn gweithio.

Mae'r rhaglen wedi mabwysiadu dull dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr ac yn blaenoriaethu'r buddion mwyaf posibl i ddefnyddwyr. Mae'n rhannu ei hallbynnau â'r sector iechyd a gofal, y sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru, a dinasyddion Cymru. Mae'r Ganolfan Ragoriaeth wedi dathlu ei blwyddyn gyntaf o weithredu'n fyw a gweithio gyda thimau digidol ym mhob sefydliad i gefnogi un o'r tenantiaethau Microsoft 365 mwyaf yn y DU, gan ysgogi gwelliannau i wasanaethau ac arbedion cost. Mae mentrau i wella a symleiddio gweithrediadau gan gynnwys lansio gwasanaeth Teleffoni Timau, dod â'r Rhwydwaith Teleffoni Iechyd Cymru i ben ac adnewyddu'r Seilwaith Allweddi Cyhoeddus (PKI) wedi'u cwblhau neu ar y gweill. Mae mudo diogelwch e-bost i Microsoft 365 ar y gweill i arbed costau, trwy osgoi costau trwydded trydydd parti ychwanegol a lleihau'r

baich gweinyddol. Cwblhawyd yr ail-achrediad blynyddol i'r Safon E-bost Diogel yn chwarter tri ac mae'n tanlinellu'r ymrwymiad i gynnal a gwella diogelwch. Mae'r Ganolfan Ragoriaeth yn cefnogi'r defnydd o Power Platform ar draws GIG Cymru i yrru arloesi. Mae hyn yn cynnwys lansio'r ap Moderneiddio Cyngor ar Symud Staff (mewn partneriaeth â PCGC) a datblygu datrysiadau ar gyfer timau fel y Rhwydwaith Trauma Cenedlaethol.


Mae'r Ganolfan Ragoriaeth wedi arwain treial o Copilot ar gyfer Microsoft 365, gan gynnwys 300 o bobl yn cymryd rhan yn y treial ar draws holl sefydliadau GIG Cymru. Mae gan fabwysiadu offer a alluogir gan Ddeallusrwydd Artiffisial y potensial i gynyddu cynhyrchiant personol ac mae GIG Cymru ar flaen y gad o ran archwilio'r cyfleoedd hyn tra'n blaenoriaethu diogelwch gwybodaeth. Mae grŵp cyfoedion rhwydwaith yr hyrwyddwyr digidol a'r gymuned 'cyfnewid digidol' yn darparu cyfleoedd i ymgysylltu â staff ar draws GIG Cymru a'u cefnogi i wella eu defnydd o gynhyrchion Microsoft 365. Bydd y Ganolfan Ragoriaeth yn dechrau menter o'r enw Llwybrau 365 ym mis Mai 2024 i ddatblygu llwybrau dysgu wedi'u targedu, gan ddechrau gydag adran Therapi Iaith a Lleferydd Plant ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Yn gyffredinol, mae'r sefydliad wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran defnyddio technoleg i wella'r modd y darperir gwasanaethau, symleiddio prosesau, a gwella gofal cleifion ledled Cymru. Mae ymdrechion parhaus yn hanfodol i fynd i'r afael â heriau a sicrhau llwyddiant parhaus wrth gyflawni nodau sefydliadol.



Astudiaeth achos: Canolfan Ragoriaeth GIG Cymru

AP GIG CYMRU



Gwasanaethau Digidol ar gyfer Cleifion a'r Cyhoedd
Digital Services for Patients and the Public

IGDC • DHCW

Mae IGDC yn creu llwyfan craidd o wasanaethau digidol i gleifion yng Nghymru drwy'r rhaglen [Gwasanaethau Digidol](#)

[ar gyfer Cleifion a'r Cyhoedd](#). Bydd y Rhaglen yn rhoi offer digidol wrth wraidd gofal cleifion. Mae'n cynnwys Ap GIG Cymru sy'n caniatáu i gleifion a'r cyhoedd reoli eu hiechyd a'u lles eu hunain, gwneud dewisiadau gwybodus am eu triniaeth eu hunain a dod o hyd i'r gwasanaeth mwyaf priodol ar gyfer eu hanghenion.

Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn o ran datblygu a defnyddio Ap GIG Cymru, gan amlygu ymrwymiad i wella mynediad gofal iechyd i gleifion ledled Cymru.

Cafodd yr Ap lansiad meddal trwy Brofion Beta Cyhoeddus, gan nodi carreg filltir arwyddocaol. Roedd datblygiadau allweddol yn cynnwys cwblhau swyddogaeth chwilio am feddygon teulu, ychwanegu'r opsiwn i ddewis fferyllfa, a phrofi integreiddio â chyflenwyr. Cafwyd offer meddalwedd i gefnogi darpariaeth dechnegol, a throsglwyddwyd tanysgrifiadau Azure i drefniadau cytundebol newydd i sicrhau cefnogaeth a darpariaeth barhaus yr ap yn ystod y cyfnod pontio.

Cafodd pob un o'r 373 o bractisau meddygon teulu eu cynnwys yn llwyddiannus drwy gynllun lleoli cyflym cynhwysfawr ar gyfer y ddau gyflenwr systemau

meddygon teulu. Cymeradwyodd Bwrdd y Rhaglen yr achos busnes dros gyllid cynaliadwy, gan nodi cam hollbwysig tuag at sicrhau cymorth parhaus gan Lywodraeth Cymru. Cymeradwywyd cerrig milltir allweddol ar gyfer 2024/25, gan gynnwys cwblhau Contract Caffael Fframwaith Partner Cyflenwi Cynnyrch Agile, gan ddangos ymrwymiad i reoli prosiect yn effeithlon. Cwblhawyd gweithgareddau darganfod ar gyfer nodweddion gofal wedi'i gynllunio, gan baratoi'r ffordd ar gyfer integreiddio swyddogaethau hanfodol fel "Gweld Symptomau" a "Dilyniant a Gychwynnir gan Gleifion". Erys heriau, yn enwedig o ran ymarferoldeb mewngofnodi dwyieithog a chytundebau cymorth gweithredol gyda chyflenwyr systemau meddygon teulu.

Yn gyffredinol, mae Ap GIG Cymru wedi gwneud cynnydd sylweddol, gydag ymdrechion parhaus i ehangu ymarferoldeb, cynyddu mabwysiadu a sicrhau cynaliadwyedd ar gyfer y dyfodol. Serch hynny, mae'r ymrwymiad i ddarparu datrysiad gofal iechyd digidol cynhwysfawr i Gymru yn parhau'n gryf, gydag ymdrechion parhaus i fynd i'r afael â materion allweddol a sicrhau bod yr Ap yn cael ei gyflwyno'n llwyddiannus.



CYFLAWNIAD GWEITHREDOLDI CONE ET? QUE NESSIS, VIDEMNE MNOSULE

GENHADAETH

3

PORTH CLINIGOL CYMRU



Porth Clinigol Cymru
Welsh Clinical Portal

IGDC • DHCW

Trwy fewngofnodi unwaith yn unig, mae Porth Clinigol Cymru (WCP) yn rhannu, yn darparu ac yn arddangos gwybodaeth am glaf o nifer o ffynonellau, ar draws ffiniau byrddau iechyd. Mae'n darparu mynediad i filiynau o ganlyniadau profion a dogfennau clinigol ledled Cymru.

Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud i wella rhaglenni gofal canser trwy Borth Clinigol Cymru a gwella ansawdd a chyflymder gwybodaeth ar gyfer cyflwyno ceisiadau radioleg a chardioleg. Yn chwarter 3, roedd yr holl nodweddion gofal lliniarol ar gael ar gyfer profion derbyn defnyddwyr. Estynnwyd ceisiadau am brofion electronig radioleg (ETR) i'r rhan fwyaf o fyrddau iechyd ac i ofal sylfaenol. Roedd adborth ar geisiadau cardioleg gan y tri bwrdd iechyd peilot yn gadarnhaol. Mae ffocws ETR bellach wedi symud i ddatblygu Rheolwr Rhestr Gwaith Clinigol Cymru (WCWM) i gefnogi ETR o un pen i'r llall ar gyfer yr arbenigeddau hynny heb system derbyn archebion. Mae'r dyluniad ar gyfer dyluniad ETR endosgopi wedi dechrau ac mae prototeip wedi'i gymeradwyo gan y Rhaglen Endosgopi Genedlaethol (NEP). Mae digideiddio nodiadau nyrsio wedi arwain at storio gwybodaeth yn ddiogel ac wedi sicrhau ei bod ar gael i'w haildefnyddio

Roedd IGDC hefyd yn cefnogi integreiddio'r gwasanaeth 111 arfaethedig â Phorth Clinigol Cymru (WCP) ar gyfer cofnodion meddygon teulu.




Porth Clinigol Cymru



Nifer o Ddefnyddwr Gyfartaledd



Ceisiadau am Radioleg



COFNOD GOFAL NYRSIO CYMRU

Aeth [Cofnod Gofal Nyrsio Cymru](#) (WNCR) yn fyw ym mis Ebrill 2021, ac mae bellach yn fyw ym mhob bwrdd iechyd ledled Cymru ac Ymddiriedolaeth Felindre sy'n cwmpasu 85% o wardiau cleifion mewnol oedolion. Trwy gydweithio â gweithwyr clinigol proffesiynol, mae WNCR bellach yn cynnwys naw asesiad risg, nodiadau nyrsio ac asesiadau cleifion mewnol oedolion wedi'u digideiddio. Bydd yn ymestyn i wardiau pediatrig dros y flwyddyn nesaf.


Mae'r WNCR yn cyfrannu at ofal nyrsio effeithlon, cywir, sy'n canolbwyntio ar gleifion ac:

- Mae'n disodli ffurflenni papur ag asesiadau digidol a gwblhawyd gan nyrsys wrth ochr gwely'r claf, gan ddefnyddio dyfeisiau digidol fel llechi, gan wella cywirdeb ac effeithlonrwydd.
- Mae ganddo ffurfiau safonol ac iaith nyrsio, gan leihau dyblygu a rhoi mwy o amser i nyrsys ofalu am gleifion.
- Mae'n bodloni anghenion archwilio ac adrodd.
- Mae'n cipio data yn ganolog y gellir ei gyrchu yn unrhyw le waeth beth fo ffiniau byrddau iechyd.

Yn ystod chwarter tri, ad-drefnwyd WNCR yn un achos, gan alluogi'r gwasanaeth i gael ei gefnogi 24 awr 7 diwrnod yr wythnos.



E-LYFRGELL IECHYD

e-Lyfrgell GIG Cymru
NHS Wales e-Library

IGDC • DHCW

Mae'r e-Lyfrgell Iechyd

yn cefnogi darpariaeth gofal iechyd effeithiol drwy ddarparu gwybodaeth ar-lein berthnasol ac amserol sy'n

seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi GIG Cymru. Mae ar gael i holl 92,000+ o weithwyr GIG Cymru, deiliaid contract, gan gynnwys fferyllwyr cymunedol, deintyddion a gweithwyr hosbis, myfyrwyr ar leoliad ac adrannau Llywodraeth Cymru. Mae 14,441 o bobl yn defnyddio'r e-lyfrgell, cynnydd o 981 o gyfrifon ers y flwyddyn flaenorol.

Yn chwarter dau, ymunodd cynrychiolydd Gofal Cymdeithasol Cymru newydd â Bwrdd Gwasanaethau e-Lyfrgell, gan ddatblygu'r bartneriaeth hon gyda defnyddwyr gofal cymdeithasol newydd yn dilyn cyflwyno'r gwasanaeth i ddefnyddwyr gofal cymdeithasol ym mis Ionawr 2023. Ar 15 Ionawr 2024, flwyddyn ers ei lansio, roedd 227 o weithwyr cymdeithasol cofrestredig a rheolwyr gofal cymdeithasol yn defnyddio'r gwasanaeth.

Mae gweithgareddau caffael ac estyniadau contract ar gyfer y Gwasanaeth E-Lyfrgell wedi cyfrannu at ei ehangu a'i effeithiolrwydd yn ystod y flwyddyn.

DYLUNIO SY'N CANOLBWYNTIO AR Y DEFNYDDIWR

Sefydlwyd y Gweithgor ar gyfer Dylunio sy'n Canolbwyntio ar y Defnyddiwr (UCD) ym mis Tachwedd 2023 ac mae bellach yn cynnwys mwy na 30 o aelodau o bob maes o IGDC. Mae'r grŵp wedi datblygu map ffordd ar gyfer ymgorffori arfer gorau UCD ar draws yr holl gynhyrchion a gwasanaethau. Mae gwaith yn mynd rhagddo i greu proffiliau rôl UCD ar gyfer pob proffesiwn y gellir eu defnyddio ar draws pob maes gofal iechyd.

The screenshot shows a user interface for 'Presentation of information' with a sidebar menu containing: Presentation of information, Functionality, PDFs, Questions and responses, eForms, and Terminology. The main content area is titled 'Presentation of information' and includes a 'Glossary' and 'TABLE OF CONTENT' at the bottom.

NHS number

The NHS number must be:

- Separated into number groups of 3, 3, 4
- There must be a space after the third and sixth numbers

Good Example: 123 456 7890

Bad Example: 1234567890

Buttons: 'Use space' (twice)

123 456 7890

Non NHS Wales

When a form requires a user to search for any location or site that is outside Wales, or where it might be inside Wales but is a non NHS site.

please use the field label of "Non NHS Wales" rather than "Non-NHS Wales". No hyphen is used.

GPs are technically not employed by the NHS, but for the purposes of our forms they are included as NHS Wales.

When this field is used, include this hover text on the field label: "NHS Wales includes both primary and secondary care", i.e. you would not use this field if you were searching for a GP based in Wales.

Note, hover text is only available currently on desktop applications and not mobile.

CENHADAETH 4: OGI GWELL GWERTH A CHANLYNIADAU DRWY ARLOESI

Mae ymchwil ac arloesi yn yr ystyr digidol a data yn cynnwys cyflwyno syniadau a phrosesau newydd i ddatrys problemau a gwella gwasanaethau ar draws GIG Cymru. Mae cael mewnwelediadau o'r symiau enfawr o ddata a gesglir gan y GIG yn hanfodol ar gyfer adfer ar ôl pandemig COVID-19 a mynd i'r afael â'i heriau.

Mae'r Portffolio Gwerth o Ddata yn canolbwyntio ar brosesu, dadansoddi a chymhwyso'r data hwn i ddatrys problemau iechyd gwirioneddol a chael gwerth.



RESEARCH AND INNOVATION

Mae'r [Portffolio Ymchwil ac Arloesi](#) yn cefnogi ac yn gwella adnoddau a rhaglenni Ymchwil ac Arloesi sefydledig a newydd. Ei nod yw datblygu strategaeth ddigidol uchelgeisiol, eang a chlinigol gyfoethog ar gyfer ymchwil ac arloesi, trwy gydweithio â thimau IGDC a phartneriaid allanol. Datblygwyd y pedwar amcan strategol a amlinellwyd yn Strategaeth Ymchwil ac Arloesi IGDC 2022/23, trwy ymgysylltu â rhanddeiliaid ac adolygu strategaeth. [Mae ein hadroddiad blynyddol cyntaf, sy'n amlygu ein cynnydd, bellach ar gael.](#)

Drwy gydol y flwyddyn, gwnaed cynnydd sylweddol mewn mentrau ymchwil ac arloesi, gan ddangos ein hymrwymiad i hyrwyddo arferion gofal iechyd a meithrin partneriaethau yng Nghymru a thu hwnt. Roedd ymdrechion yn canolbwyntio ar gynyddu ymwybyddiaeth a chadw at brosesau cywir, gan ehangu ymwybyddiaeth ymchwil ac arloesi trwy ymgysylltu â rhanddeiliaid fel Comisiwn Bevan, Blood Cancer UK, Prifysgol Caerdydd, a Chronfa Data Mawr yr NDR.

Rydym hefyd wedi gweithio i wella partneriaethau ac adnoddau drwy ganolbwyntio ar asedau, adnoddau, diwylliant, partneriaeth, gwerth ac effaith. Adolygwyd cynlluniau ar gyfer marchnata ymchwil ac arloesi i bartneriaid allanol, a datblygwyd modiwlau hyfforddi arloesol ar y cyd â rhanddeiliaid. Mae'r mentrau hyn yn cynnwys archwilio gwasanaeth recriwtio treialon clinigol masnachol ac ehangu setiau data ar gyfer treialon clinigol i gynyddu eu gwerth a'u heffaith.

Mae heriau megis gallu cyfyngedig ac oedi mewn adolygiadau cyfreithiol yn amlygu'r angen am fwy o adnoddau a phrosesau llywodraethu symlach. Mae cerrig milltir arwyddocaol yn cynnwys cymeradwyo cynigion ar gyfer y gwasanaeth Canfod-Recriwtio-Dilyniant a datblygu cytundebau gyda SAIL a Llywodraeth Cymru.

Gan edrych i'r dyfodol, mae penodi Pennaeth Ymchwil ac Arloesi newydd yn addo hybu mentrau ymchwil ac arloesi ymhellach, gan sicrhau effaith a chynnydd parhaus mewn arloesi gofal iechyd.



GWERTH O DDATA

Mae'r portffolio Gwerth o Ddata yn canolbwyntio ar y cylch bywyd data cyfan, o gaffael a churadu data i'w ddadansoddi i ddarparu gwybodaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau gwybodus. [Mae'r Strategaeth Gwybodaeth a Dadansoddeg](#) yn nodi uchelgeisiau'r Gwasanaeth Gwybodaeth a Dadansoddeg Cenedlaethol. Drwy rannu data'n ddiogel o fewn gofynion llywodraethu gwybodaeth cyfredol, ein nod yw sicrhau bod y cyfoeth o ddata sydd gennym ar gael i gyflawni'r genhadaeth hon.

Porth Gwybodaeth Iechyd a Gofal Cymru (WHCIP) yw'r lle canolog i gael mynediad at gynhyrchion data cyhoeddedig megis y Porth Gwybodaeth Gofal Sylfaenol a Dangosfyrddau Gwerth mewn Iechyd.

Drwy gydol y flwyddyn, ymgwymerodd [Tîm Gwasanaethau Gwybodaeth](#) IGDC â nifer o fentrau i wella prosesau darparu gofal iechyd a gwneud penderfyniadau.

Datblygodd y tîm amrywiol ddangosfyrddau a delweddau, gan gynnwys y Dangosfwrdd Fasgwlaidd, i wella gofal brys a meincnodi. Gwnaed diweddariadau i'r Porth Gwybodaeth Gofal Sylfaenol a defnyddiwyd modiwlau Audit+ i gefnogi prosiectau gwella ansawdd. Roedd cymryd rhan mewn cynadleddau a seremonïau gwobrwyo yn hybu gwaith y tîm ac yn amlygu'r gwerth sy'n deillio o ddadansoddeg data.

Roedd gweithrediad llwyddiannus yr Offeryn Cynnydd Ymarfer Meddygol Cyffredinol yn y Porth Gwybodaeth Gofal Sylfaenol o fudd i bob ardal bwrdd iechyd. Cyhoeddodd y tîm Gwybodaeth Iechyd nifer o ddangosfyrddau, gan gynnwys y Llwybr lle'r Amheuir Canser a'r [APC Blynyddol](#), gan gyfrannu at wneud penderfyniadau gwybodus. Arweiniodd ymdrechion ar y cyd â'r timau Gofal Iechyd ar Sail Gwerth ac Ymchwil ac Arloesi at ennill cais i archwilio ystadegau myeloma ymhellach a'u heffaith, gan ddangos ein hymrwymiad i hyrwyddo gofal iechyd trwy ddadansoddi data.

Cynhaliodd tîm y warws Data adnewyddiad chwarterol cyntaf y Gronfa Ddata Genedlaethol ar Iechyd Plant Cymunedol a dechreuodd ailstrwythuro tudalen we Porth Gwybodaeth Iechyd a Gofal Cymru i wella hygyrchedd. Dechreuwyd paratoi ar gyfer diweddariad brechiadau atgyfnerthu'r Gwanwyn ochr yn ochr ag ymdrechion parhaus i gefnogi rhaglenni a mentrau amrywiol. Ymhlith y cyflawniadau roedd lansio dangosfyrddau newydd fel y Dangosfwrdd Asgwrn Cefn a chymeradwyo a chyhoeddi'r Strategaeth Gwybodaeth a Dadansoddeg, gan ddarparu map ffordd ar gyfer ymdrechion dadansoddi data'r sefydliad.


Yn gyffredinol, mae ein gweithgareddau trwy gydol y flwyddyn yn dangos ymdrech ar y cyd i drosoli dadansoddeg data ac arloesedd i ysgogi gwelliannau mewn prosesau darparu gofal iechyd a gwneud penderfyniadau.

CENHADAETH 5: BOD YN BARTNER STRATEGOL DIBYNADWY AC YN SEFYDLIAD CYNHWYSOL AC UCHELGEISOL O ANSAWDD UCHEL

Eleni yw ein trydedd flwyddyn fel Awdurdod Iechyd Arbennig. Rydym wedi pennu gweledigaeth a rhaglen waith uchelgeisiol i ni'n hunain ac mae Cenhadaeth 5 yn disgrifio'r galluogwyr sy'n sail i bopeth a wnawn.

DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Er nad oedd IGDC yn ffurfiol o dan [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\)](#) yn ystod 2023/24, bu inni ddilyn ei hegwyddorion, yn benodol yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'r Pum Ffordd o Weithio cysylltiedig.



Dyma rai o'r camau a gymerwyd gennym yn erbyn pob un o amcanion y Ddeddf:



Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang. Gwnaethom greu strategaeth gynaliadwyedd yn seiliedig ar ofynion System Rheoli Amgylcheddol ISO 14001 a chynllun cyflenwi ar gyfer datgarboneiddio Mae ein prosesau caffael yn dilyn egwyddorion yr economi sylfaenol.



Cymru Lewyrchus. Bu inni ganolbwyntio ar gynaliadwyedd ariannol, effeithlonrwydd, rheoli buddion a'n cynllun datgarboneiddio. Cryfhawyd ein perthynas â phrifysgolion a Sefydliad Gwybodaeth Ddigidol Cymru (WIDI) i gefnogi ein hymrwymiad i uwchsgilio ein gweithwyr a darparu cyfleoedd trwy brentisiaethau, interniaethau, lleoliadau a rhaglenni academaidd.



Cymru Gydnerth. Mae ein rhaglen [Gwasanaethau Digidol ar gyfer Cleifion a'r Cyhoedd](#) yn annog gwell cyfathrebu rhwng dinasyddion a darparwyr gofal iechyd. Rydym hefyd yn profi gwydnwch ein sefydliad trwy fentrau ansawdd megis achredu safonau ansawdd.



Cymru Iachach. Mae ein 14 portffolio cyflawni yn dangos sut y gall ein gwasanaethau gefnogi'r amcan hwn drwy ddarparu'r data cywir am yr amser cywir i glinigwyr ni waeth ble mae cleifion yn cael eu trin.



Cymru sy'n Fwy Cyfartal. Rydym yn blaenoriaethu cynllunio talent ac olyniaeth, gan alinio â fframweithiau sgiliau safonol fel y Fframwaith Proffesiwn Digidol, Data a Thechnoleg (DDAT), a datblygu ein cynllun cydraddoldeb strategol.



Cymru o Gymunedau Cydlynus. Mae ein strategaeth rhanddeiliaid a'n tîm ymgysylltu canolog yn canolbwyntio ar ddatblygu a chynnal ein perthnasoedd strategol gyda chleifion, defnyddwyr a chymunedau rhanddeiliaid ehangach.



Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu. Mae ein [Cynllun Cydraddoldeb Strategol](#) yn cynnwys ymrwymiad i fod yn sefydliad dwyieithog gyda ffocws ar hyfforddiant iaith Gymraeg.

POBL A DIWYLLIANT

Ein gweledigaeth yw bod yn lle gwyh i weithio lle mae ein pobl yn ymgysylltu'n llawn, yn perfformio'n dda ac yn ymgorffori ein gwerthoedd a'n hymddygiad. Mae ein Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol (POD) ar gyfer 2022-25, yn cefnogi ein huchelgeisiau strategol, ein gweledigaeth a'n ffocws, gan sicrhau bod ein gwerthoedd sydd newydd eu datblygu wedi'u hymgorffori ym mhob rhan o'r sefydliad.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, a ddatblygwyd mewn partneriaeth ac a gymeradwywyd gan y Bwrdd yn 2023, yn amlygu ein hymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran datblygu arweinyddiaeth a thalent, cynllunio olyniaeth, recriwtio, cydraddoldeb, amrywiaeth, a chynllunio gweithlu strategol. Rydym yn parhau i ddangos ein hymrwymiad i'r Cynllun Iaith Gymraeg drwy annog staff i ddysgu a defnyddio'r iaith.



ARWEINYDDIAETH A RHEOLI TALENT, GAN YMGORFFORI CYNLLUNIO OLYNIAETH

Fel sefydliad sy'n dysgu, rydym yn darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu ar bob lefel o'r sefydliad. Cafodd o leiaf traean o'n swyddi gwag eu llenwi trwy symudiadau gyrfa mewnol, sy'n dangos ein hymrwymiad i gefnogi ein staff i ddatblygu a chynyddu eu gyrfa yn IGDC. Yn ogystal â hyfforddiant a datblygiad mewnol, darperir cyfleoedd drwy Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) ac yn allanol, gan gynnwys drwy aelodaeth broffesiynol, prifysgolion a'n partneriaeth â Sefydliad Gwybodaeth Ddigidol Cymru (WIDI).

Rydym yn cefnogi arweinyddiaeth a rheoli talent ar bob lefel ar draws y sefydliad. Mae enghreifftiau o arweinyddiaeth, rheoli talent a chynllunio olyniaeth yn cynnwys y canlynol:

- Gweithio'n agos gyda Deloitte a Gartner i ddarparu cyfleoedd datblygu ar gyfer ein haelodau Bwrdd a'n tîm gweithredol, a gefnogir gan drefniadau hyfforddi a chyfeillio.
- Penodwyd dau ddarparwr arbenigol allanol i gefnogi ein Rhaglen Datblygu Uwch Arweinwyr, rheoli talent a chynllunio ar gyfer olyniaeth.
- Mynychodd mwy nag 80 o bobl lansiad y Garfan Talent (Talent Cohort) ym mis Mehefin 2023, a gafodd gefnogaeth dda gan y tîm Gweithredol ac uwch arweinwyr ar draws y sefydliad.
- Mynychodd mwy na 150 o bobl lansiad y Rhaglen Talent Newydd ym mis Mawrth 2024, a anelwyd at gydweithwyr ar ddechrau eu gyrfa.
- Nodwyd rolau critigol ac unigol pwynt methiant ar draws y sefydliad i gefnogi cynllunio olyniaeth.
- Mae ymgysylltu â grwpiau cymunedol lleol, ysgolion (cyfrwng Cymraeg a Saesneg), colegau a phrifysgolion wedi arddangos gyrfaedd ym myd digidol a chyfleoedd i ddatblygu gyrfa yn IGDC.
- Rydym yn parhau i benodi prentisiaid a graddedigion newydd sy'n ymuno â ni fel gweithwyr cyflogedig uniongyrchol, drwy gynlluniau derbyn neu fel graddedigion GIG Cymru a gefnogir gan leoliadau AaGIC.

SEFYDLIAD GWYCH I WEITHIO IDDO

Rydym yn gweithio'n agos gydag Undebau Llafur a phartneriaid allanol i leoli ein hunain fel cyflogwr o ddewis. Rydym wedi gwneud y canlynol:

- Cyflawni safonau ISO rhyngwladol a chanlyniad uchel ei sgôr o Archwiliadau mewnol ac allanol.
- Rhoi ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) ar waith ym mis Ebrill 2023 sy'n cynnwys pum ymrwymiad allweddol sy'n cyd-fynd â Chynlluniau Gweithredu Cenedlaethol, gan gynnwys y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol a Chynllun Gweithredu LHDTTC+ Cymru. Mae'r cyflawniadau allweddol yn cynnwys:
 - Penodi Arweinydd Cydraddoldeb, Amrywiaeth, Cynhwysiant a Lles.
 - Sefydlu Rhwydwaith Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant gyda 32 o weithwyr, sy'n cyfrannu at ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau, gan ddylanwadu ar benderfyniadau a wneir yn y sefydliad.
 - Datblygu arfer cadarn o gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA) cynhwysfawr ar gyfer polisiau, fframweithiau, strategaethau, prosiectau a chynlluniau perthnasol.
 - Cyhoeddi'r Adroddiadau Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau.
 - Ennill ardystiad ar gyfer safon Amrywiaeth a Chynhwysiant ISO 30415 sy'n adlewyrchu cam allweddol tuag at sicrhau ein hymrwymiad i amrywiaeth a chynhwysiant.

Ceir rhagor o fanylion am ein hymrwymiad i gydraddoldeb, gwrth-lygredd ac atal masnachu pobl yn yr [adroddiad Atebolrwydd](#).

LLUNIO'R GWEITHLU – CYNLLUNIO AC ADNODDU GWEITHLU STRATEGOL

Mae'r cyflawniadau allweddol yn cynnwys:

- Lansio cynllunio gweithlu strategol blynyddol i fynd i'r afael â bylchau sgiliau a gwneud y gorau o adnoddau
- Sefydlu'r Grŵp Adnoddau Strategol i archwilio a monitro gofynion adnoddau ac opsiynau i liniaru risgiau.
- Datblygu Strategaeth Adnoddau newydd mewn partneriaeth â'r Grŵp Adnoddau Strategol.
- Datblygu Dangosfwrdd Orlhain Adnoddau.
- Mwy o gydweithio â rhwydweithiau cymunedol digidol ehangach a grwpiau fel y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (CDPS), Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC), Ffederasiwn Gweithwyr Gwybodeg Proffesiynol (FEDIP) a Chymdeithas Cyfrifiaduron Prydain (BCS).
- Datblygu piblinell recriwtio gyda sefydliadau academiaidd, gan feithrin partneriaethau ag ysgolion, colegau a phrifysgolion ledled Cymru.

LLESIANT AC YMGYSYLLTU

- Llwyddodd IGDC i gadw'r [Safon Iechyd Corfforaethol Aur](#) a chyflawnodd ardystiad ar gyfer Safon Gwerthfawrogi Pobl BS76000.
- Bu Rhwydwaith Iechyd a Lles IGDC a'r tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol yn gweithio'n agos mewn partneriaeth ag Undebau Llafur i ddatblygu a chyfeirio pobl at gymorth ariannol a llesiant.
- Cynhaliodd rheolwyr a chydweithwyr wiriadau lles sydd wedi cael adborth cadarnhaol trwy arolygon staff.

Absenoldeb Salwch

Cyfradd absenoldeb gyffredinol ar gyfartaledd am y flwyddyn yw 3.46%.

Arfarniadau

Cyfradd cwblhau gwerthusiad ar gyfartaledd am y flwyddyn yw 88%.

Hyfforddiant Statudol a Gorfodol

Cyfradd cwblhau hyfforddiant statudol a gorfodol ar gyfartaledd am y flwyddyn yw 91.8%.

Recriwtio Iaith Gymraeg

Roedd 2.61% o swyddi newydd a swyddi gwag a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn yn nodi bod sgiliau Cymraeg yn hanfodol gyda 97.39% yn nodi bod sgiliau Cymraeg yn ddymunol.

Cyllid

Ein prif amcan yw cynaliadwyedd ariannol. Rydym am awtomeiddio mwy o brosesau, archwilio amgylcheddau Cwmwl ac arwain ar ganllawiau cyfrifyddu cwmwl, rheoli buddion a dadansoddeg ariannol.

CYLLID

Ein prif amcan yw cynaliadwyedd ariannol. Rydym am awtomeiddio mwy o brosesau, archwilio amgylcheddau Cwmwl ac arwain ar ganllawiau cyfrifyddu cwmwl, rheoli buddion a dadansoddeg ariannol.

CYFLAWNI

Mae IGDC yn adrodd ar gyflawniad yr holl ddangosyddion ariannol allweddol ar gyfer y cyfnod



Wedi'i gyflawni


Dangosydd	Canlyniad	Crynodeb
Adennill Costau Refeniw (Sicrhau nad yw gwariant y sefydliad yn fwy na chyfanswm yr incwm)		Gwarged gweithredol bach o £0.307m (0.2% o'r cyllid a dderbyniwyd)
Aros o fewn y Terfyn Adnoddau Cyfalaf (Sicrhau nad yw Gwariant Cyfalaf net yn fwy na'r Terfyn Adnoddau Cyfalaf)		Cofnododd IGDC £17.809m o wariant am gyfnod yn erbyn terfyn cyfalaf o £17.828m sy'n cyflwyno tanwariant o £0.019m. Derbyniodd y sefydliad hefyd gyllid prydles IFRS16 i gefnogi gwariant a gofnodwyd o £2.599m.
Polisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus (Talu o leiaf yr holl gredydwyd nad ydynt yn rhan o'r GIG o fewn 30 diwrnod o dderbyn anfoneb ddilys)		Targed PSPP wedi'i gyflawni Cyflawnwyd 97% yn erbyn targed o 95%
Banc Digon o falansau banc		Balans ar 31/03/24, £2.093m

Mae'r canlyniadau hyn yn adlewyrchu sefyllfa'r sefydliad ar ôl yr archwiliad.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom gyflawni ein rhwymedigaethau statudol a nodi £0.7m o arbedion a ddychwelwyd i Lywodraeth Cymru i gefnogi pwysau ariannol ehangach y GIG.


I gefnogi gweithgareddau sefydliadol, gwariodd IGDC £186.0m (Refeniw a Chyfalaf) yn y 5 prif faes a ganlyn:

Ffigur 6 - Meysydd Gwariant Sefydliadol 2023/24 £m



Buddsoddwyd cyfanswm o £20.4m o gyfalaf a ategwyd gan £165.6m o wariant refeniw yn ystod y flwyddyn.

Ffigur 7 - 2023/24 Sut i ni Wario ein Cyllud £m



ARBEDION AC EFFEITHLONRWYDD

Er mwyn cyflawni ein nodau a chefnogi'r heriau ariannol ehangach ar draws GIG Cymru, cychwynnodd IGDC nifer o fesurau arbed ac osgoi costau. Mae'r mentrau hyn yn ein helpu i reoli pwysau ariannol rheolaidd ac nad ydynt yn rheolaidd.

Mae'r themâu allweddol yn cynnwys:

Rheolaidd

- Rhaglenni Gwella Costau Cyfarwyddiaethau
- Ad-drefnu Ystadau
- Gostyngiadau Teithio
- Cynnal a chadw a chymorth TG
- Arbedion Caffael

Nad ydynt yn Rheolaidd

- Rheoli Swyddi Gwag
- Cyfrifeg ac Enillion nad ydynt yn Rheolaidd

Nodwyd targed o £4.9m i fynd i'r afael â'r pwysau canlynol:

Rheolaidd

- Bwlch Cyllido CTCI

Nad ydynt yn Rheolaidd

- Gweithgaredd Mudo'r Ganolfan Ddata
- Cryfhau Seiberddiogelwch a Diogelwch Gwybodaeth
- Cynllun Buddsoddi â Blaenoriaeth Ddigidol (Cyflymu a Chyflawni)
- Paratoi Cwmwl
- Cefnogi Ymarfer Gwella Ariannol GIG Cymru gyfan

Fel rhan o'n cynllun arbedion, cyflawnodd IGDC £1.8m o arbedion i liniaru'r pwysau ariannol arfaethedig a'r pwysau ariannol newydd hyn.

Gwnaethom gyflawni ein rhwymedigaethau statudol a chymryd rhan yn yr her ariannol, gan ddychwelyd £0.7m o arbedion i Lywodraeth Cymru. Arweiniodd ein cynllun hefyd at arbedion rheolaidd o £2.1m i wrthbwysu pwysau cost sefydliadol sylfaenol.

Yn ogystal â bodloni ein targedau ariannol statudol, cyflawnodd yr adran gyllid y canlynol:

Arweinyddiaeth Genedlaethol – Cyfrifyddu Technegol ar gyfer Gwariant Digidol

Cyflwynodd IGDC ganllawiau a chynhaliodd nifer o “sioeau teithiol” ar gyfer sefydliadau'r GIG ac uwch gynrychiolwyr digidol. Nod y sesiynau hyn oedd helpu timau cyllid a digidol i ddeall sut i roi cyfrif am asedau digidol a gwariant cwmwl yn unol â Llawlyfr Cyfrifon GIG Cymru. Mae'r canllawiau'n cefnogi defnyddwyr i wneud dyfarniadau cyson ar sut y cyfrifir am asedau digidol ac a yw gwariant ar brosiectau digidol yn creu ased neu a ddylai gael ei gostio.

Arweinyddiaeth Genedlaethol – Gwireddu Buddion

Bu'r tîm cyllid yn gweithio gyda rhanddeiliaid ledled Cymru i gytuno ar fframwaith buddion a phecyn cymorth wedi'u hadnewyddu, yn ogystal â set ddata safonol. Rydym yn datblygu system Adrodd ar Fuddion Cymru Gyfan i gasglu ac adrodd ar fuddion rhaglenni digidol. Bydd dangosfyrddau buddion ar gael ar gyfer Cymru gyfan, pob sefydliad GIG ac ar gyfer pob rhaglen. Cam 1, a ddatblygodd storfa fuddion ganolog a dangosfwrdd adrodd. Bydd Cam 2 a 3, sy'n canolbwyntio ar dreialu a phoblogi'r storfa, yn cael eu cwblhau yn 2024/25.

Ariannu Cytundebau Lefel Gwasanaeth

Fel rhan o adolygiad Cytundeb Lefel Gwasanaeth CTCI 2024/25, cynhaliodd IGDC sesiynau gydag uwch dimau o bob sefydliad i ddarparu mwy o dryloywder ar gostau gwasanaeth, pwysau a chamau lliniaru. Roedd y sesiynau hyn hefyd yn canolbwyntio ar newidiadau a thwf gwasanaethau, gan ddarparu dealltwriaeth gadarn o ofynion ariannu ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Rheoli Gwariant Cwmwl (FinOps)

Wrth i'n presenoldeb cwmwl dyfu, mae'n hanfodol bod llywodraethu da a rheoli costau yn rhan annatod o brosesau'r sefydliad. Sefydlodd y tîm cyllid swyddogaeth achrededig i sicrhau bod prosesau'n cael eu dilyn a bod gwariant yn gost-ffeithiol. Eleni, cyhoeddodd y tîm weithdrefnau gweithredu safonol, creu dangosfyrddau monitro costau a threulio, a chynnal dosbarthiadau meistr ar gyfer gweithwyr cyllid proffesiynol ledled Cymru i rannu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth.

Cynaliadwyedd Ariannol

Arweiniodd ein cynllun arbedion at fudd-dal rheolaidd o £2.2m i wrthbwyso pwysau cost sylfaenol a phwysau cost sy'n dod i'r amlwg. Cynhaliodd y tîm cyllid asesiad manwl o gostau gwasanaeth i ddarparu sail cost wrth i fodel gweithredu targed y dyfodol gael ei sefydlu. Mae ymchwil pellach ar y gweill ar hyn o bryd

CYNALIADWYEDD

Yn IGDC rydym yn gwybod bod yn rhaid i ni ddiogelu'r amgylchedd a'i adnoddau naturiol. Dyna pam mae gennym Strategaeth Cynaliadwyedd yn ei lle sy'n cynnwys gofynion safon System Rheoli Amgylcheddol ISO14001:2015. Mae gennym hefyd Gynllun Gweithredu Datgarboneiddio (DAP) sy'n cefnogi ein strategaeth ac yn ein helpu i ddefnyddio dull trefnus o leihau allyriadau carbon.

Datganiad Amgylcheddol

Cwblhawyd ein cynllun gweithredu datgarboneiddio ar gyfer 2023/24 yn llwyddiannus. Mae ein tueddiad blynyddol o ran yr amgylchedd yn gadarnhaol, gydag allyriadau gweithredol yn dangos gostyngiad o 43% (166tCO₂e) ar gyfer Chwarterau 1 - 3 2023/24, o gymharu â'n blwyddyn waelodlin yn 2019-20. Bydd ein hól troed blwyddyn lawn ar gyfer 2023-24 ar gael erbyn diwedd Chwarter 1 2024-25. Rydym yn parhau i fonitro allyriadau mewn meysydd lluosog i sicrhau ein bod yn mynd ati i leihau lefelau CO₂.

Mae Cynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru yn dangos sut y gall GIG Cymru gyfrannu at adferiad yn yr hinsawdd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r ddeddf yn mynd i'r afael â heriau hirdymor megis tlodi, annhegwch iechyd, a newid yn yr hinsawdd.

Fel sefydliad digidol, mae gennym gyfle unigryw i helpu i leihau allyriadau carbon yn y GIG mwy drwy ddatblygu a gwella atebion digidol. Mae'r rhain yn cynnwys offer i alluogi trosglwyddo a storio gwybodaeth yn ddigidol, yn ogystal â gwasanaethau ymgynghori o bell.

Ein Hól Troed Carbon


Mae allyriadau carbon yn fesur allweddol o'n heffaith amgylcheddol. Mae ein hól troed carbon yn cael ei gyfrifo fel cyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr (GHG) a gynhyrchir gan ein gweithgareddau a'n gwasanaethau, wedi'i fynegi fel carbon deuocsid cyfatebol.

Yn 2019/20, mesurodd IGDC (fel ei sefydliad rhagflaenol) allyriadau am y tro cyntaf. Cyfeiriwn at eleni fel ein gwaelodlin. Roedd y rhan fwyaf o'n hól troed carbon y flwyddyn honno i'w briodoli i nwy (18%) a thrydan (80%). Cyfanswm ein hallyriadau gweithredol yn ystod 2019/20 oedd 2757 MtCO₂e (tunelli metrig o garbon deuocsid cyfatebol).

Yn ein blwyddyn adrodd bresennol (2023/24), mae ffigurau ar gyfer Chwarter 1 - 3 yn dangos bod allyriadau gweithredol wedi parhau i ostwng, yn bennaf oherwydd ein gwaith ad-drefnu ystadau, o ganlyniad i weithio hybrid. Caniataodd hyn i IGDC wagio eiddo ym Mhont-y-pŵl ac rydym yn rhagweld gostyngiadau pellach yn 2024/25.

Mae'r tabl isod yn dangos data o chwarterau 1 – 3 o gymharu â'n blwyddyn waelodlin, sydd hyd yn hyn yn dangos gostyngiad o 43% mewn allyriadau gweithredol.

Ffigur 8 - Cymharu Allyriadau Gweithredol (MTCO₂e)
CHWARTERAU 1-3 2023-24 yn erbyn 2019/20: Blwyddyn Waelodlin



[Cynullun Gweithredu Datgarboneiddio IGDC](#)

TASGLU AR DDATGELIAD ARIANNOL CYSYLLTIEDIG Â'R HINSAWDD (TCFD)

Rydym yn dilyn y canllawiau ar wneud cais am ddatgeliad sydd wedi'u halinio â TCFD, sydd wedi'u teilwra ar gyfer sector cyhoeddus y DU. Rydym yn gweld newid yn yr hinsawdd fel risg fawr, felly rydym yn cydymffurfio â chanllawiau a datgeliadau'r TCFD a nodir yng nghanam 1 ynghylch:

- Egwyddorion cyffredinol (gan gynnwys cwmpasu)
- Argymhelliad llywodraethu a datgeliadau a argymhellir (a) a (b); a
- Datgeliad a argymhellir ar gyfer Metrigau a Thargedau (b) – lle mae data ar gael.

Mae IGDC yn bwriadu dilyn camau nesaf TCFD yn unol ag amserlen y llywodraeth ganolog.

YMGYSYLLTU Â RHANDDEILIAID

Mae IGDC yn gweithredu o fewn ecosystem gymhleth o randdeiliaid, ac mae meithrin perthnasoedd agored ac adeiladol â rhanddeiliaid fel ein bod yn cael ein hystyried yn bartner strategol y gellir ymddiried ynddo yn allweddol i'n llwyddiant.

Rydym yn gweithio gyda'n defnyddwyr – cleifion a'r cyhoedd, clinigwyr, staff gweinyddol a rheoli, a chyrrff cyhoeddus eraill i ddarparu'r datrysiadau digidol sydd eu hangen arnynt.


Rydym yn alinio ein blaenoriaethau â pholisïau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Rydym yn gweithio gyda'n cydweithwyr digidol mewn byrddau iechyd, ymddiriedolaethau, awdurdodau iechyd arbennig, awdurdodau lleol, a phartneriaid a chyflenwyr eraill i foderneiddio ein seilwaith digidol a'n cynigion o ran gwasanaethau, cynllunio ar y cyd a chynyddu lefel ein haeddfedrwydd digidol.

Rydym yn gweithio gyda'r byd academiaidd i ddatblygu partneriaethau arloesol o ran technoleg ac adeiladu gweithlu digidol y dyfodol.

Mae pobl wrth wraidd trawsnewid. Trwy weithio'n agos gyda'n partneriaid cenedlaethol a lleol o'r cychwyn cyntaf, gallwn ddeall i ba gyfeiriad y mae gofal iechyd yn mynd yn y dyfodol a helpu i alluogi trawsnewid trwy ddatrysiadau data a thechnoleg.

Gwnaethom fireinio ein Cynllun Gweithredu Ymgysylltu gan ganolbwyntio ar bedwar piler allweddol i sicrhau ein bod yn ymgysylltu ac yn cydgynhyrchu'r systemau iechyd a gofal digidol cenedlaethol ar gyfer pobl Cymru.

Mae ein rhanddeiliaid a'n partneriaid yn allweddol i gyflawni ein gweledigaeth a byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â'n grwpiau cleifion, byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau a phartneriaid cyflawni eraill. Bydd sefydlu Rhwydwaith Cyflawni Newid Digidol yn gweld cynnydd mewn cydweithio i gyflymu'r broses o fabwysiadu datrysiadau digidol yn effeithiol.



Ein Cyflawniadau

Effaith

PILER 1: Meithrin diwylliant o ymgysylltu effeithiol, gan wella gallu a chapasiti IGDC

- Sefydlu Rhwydwaith Proffesiynol IGDC ar gyfer Ymgysylltu a Chyfathrebu, gyda 80+ o aelodau a chyfarfodydd bob yn ail fis.
- Creu pecyn cymorth ymgysylltu a safle mewnwyd i gefnogi staff i ymgysylltu'n effeithiol.
- Cynnal gweithdai a chynllunio gyda rhaglenni IGDC i wreiddio dull ymgysylltu wedi'i dargedu, sy'n gyson ac ag adnoddau.
- Cytuno ar dreial o'r system Rheoli Perthynas â Rhanddeiliaid (SRM) gyda chwe thîm IGDC sy'n gweithio allanol i helpu i reoli ein hymgysylltiad a chreu gwell profiad i rhanddeiliaid.
- Datblygu tîm canolog bach i gefnogi ein hymgysylltiad strategol a chreu diwylliant o ymgysylltu cyson a phroffesiynol ar draws IGDC.

- Cefnogi dull cydgysylltiedig o ymgysylltu â rhanddeiliaid ar draws rhaglenni ac adrannau.
- Creu profiad ymgysylltu cyson ar gyfer ein rhanddeiliaid.
- Galluogi a chefnogi ein staff i ymgysylltu'n effeithiol.
- Rhannu arfer gorau a dysgu.

PILER 2: Datblygu partneriaethau, fforymau a rhwydweithiau strategol ac effeithiol i alluogi cydweithio llwyddiannus

- Adolygu ac ailffocysu ein hymgysylltiad strategol â phartneriaid GIG Cymru i gefnogi aliniad, cynllunio ar y cyd a nodi cyfleoedd a heriau a mynd i'r afael â hwy.
- Sefydlu Fforwm Arweinwyr Digidol Cymru Gyfan sy'n cyfarfod bob chwarter gyda chynrychiolaeth o holl bartneriaid GIG Cymru.
- Cytundeb partneriaeth wedi'i sefydlu gyda'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol a Gofal Cymdeithasol Cymru, gyda rhaglenni gwaith ar y cyd y cytunwyd arnynt a chyfarfodydd rheolaidd.
- Ymgysylltu strategol â chyflenwyr allweddol i sicrhau eu bod yn deall ac yn cefnogi anghenion Cymru.
- Mapio byrddau llywodraethu ar gyfer yr holl raglenni, prosiectau a gwasanaethau ar y gweill i sicrhau cynrychiolaeth briodol.
- Sefydlu cyfarfodydd rheolaidd gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru a chefnogi Gweithrediaeth y GIG i wreiddio mewn rolau a deall cyfleoedd ar gyfer digidol i gefnogi trawsnewid.
- Parhau i ddatblygu partneriaethau cryf â'r trydydd sector a grwpiau cynrychioli cleifion i hyrwyddo, cefnogi a gwerthuso'r gwaith o ddylunio a datblygu gwasanaethau gan gynnwys Ap GIG Cymru.

- Cefnogi gwaith partneriaeth mwy effeithiol gyda phartneriaid GIG Cymru, gydag ymdrechion yn parhau i wella ymhellach.
- Codi ymwybyddiaeth o gynlluniau ac uchelgeisiau IGDC a nodi cyfleoedd i gydweithio drwy gynlluniau ar y cyd â chyrff a sefydliadau cenedlaethol eraill.
- Cefnogi Llywodraeth Cymru i nodi a mynd i'r afael ag anghenion ar lefel genedlaethol, cysoni cynlluniau a nodi cyfleoedd.

Ein Cyflawniadau

Effaith

PILER 3: Cael ein cydnabod fel arweinydd system yn natblygiad technoleg, cynhyrchion data a gwasanaethau o ansawdd uchel ar gyfer y GIG

- Sefydlu cyfres lwyddiannus Data Mawr a Dadansoddeg, gyda dros 130 o bobl yn bresennol yn y digwyddiad diwethaf yn cynrychioli holl fyrddau iechyd Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Bwrdd Gweithredol y GIG, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru.
- Gosod IGDC yn ganolog i rannu dysgu am ddadansoddeg uwch ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.
- Cyflwyno digwyddiad pedair gwlad llwyddiannus ym mis Medi 2023 i ddod â IGDC, Llywodraeth Cymru ac arweinwyr digidol priodol o bob rhan o'r DU ynghyd i rannu mewnwelediad, arfer gorau, a dysgu.
- Gwaith sylweddol yn mynd rhagddo ar yr agenda cynhwysiant digidol; cyflawni Achrediad Siarter Cynhwysiant Digidol; cynnal Swyddogion Gweithredol IGDC a sesiynau Bwrdd gyda Cwmpas; a sefydlu Gweithgor Cynhwysiant Digidol IGDC.
- Darparu sesiynau hyfforddi i 120 allan o 880 o Hyrwyddwyr Digidol posibl, gan weithio gyda Chymunedau Digidol Cymru, i raeadru gan ddefnyddio Ap GIG Cymru a sgiliau digidol da. Mae dros 60 o staff IGDC wedi cael hyfforddiant hyd yma.

- Dysgu ac arweinyddiaeth ar y cyd ar ddadansoddeg uwch mewn iechyd a gofal.
- Negeseuon cyson wedi'u datblygu i wella dealltwriaeth rhanddeiliaid o'r NDR.
- Codi ymwybyddiaeth o waith IGDC yng Nghymru, y DU a thu hwnt a chyfleoedd ar gyfer dysgu a chydweithio.
- Tynnu sylw at bwysigrwydd cynhwysiant digidol ac ymrwymiad a rôl arweiniol IGDC a gweithio gydag eraill i leihau allgau digidol.

PILER 4: Gweithredu fel sefydliad ystwyth ac ymatebol, gan wrando ar randdeiliaid ac ymateb iddynt

- Cynnal nifer o weithdai gyda phartneriaid GIG Cymru i nodi themâu allweddol, a chefnogi ffyrdd gwell o weithio mewn partneriaeth,
- Cefnogi cynnal arolwg Cymru gyfan i asesu defnyddioldeb systemau digidol gyda defnyddwyr clinigol.
- Sgôp adolygiad blynyddol o randdeiliaid i gynnwys cyfweiliadau ac arolygon ar draws yr holl grwpiau rhanddeiliaid.
- Ymgymryd â mapio mecanweithiau adborth cyfredol gyda gwahanol grwpiau rhanddeiliaid i wella rhannu gwybodaeth a chyflwyno dull mwy cydgysylltiedig.
- Creu arolwg cynhwysiant digidol i gleifion a'r cyhoedd gan weithio gyda phartneriaid allweddol gan gynnwys y trydydd sector, grwpiau cynrychioli cleifion a Cwmpas.
- Defnyddio adborth yn yr Ap i wella Ap GIG Cymru yn barhaus
- Wedi cofrestru dros 5000 o gleifion ar gyfer Paneli Ymchwil Defnyddwyr i ddarganfod a datblygu nodweddion newydd
- Sefydlu Gweithgor Mynediad drwy Ddirprwy i ddatblygu a gwerthuso nodwedd newydd gyda chynrychiolwyr amrywiol ac arbenigwyr pwnc

- Cynyddu ein dealltwriaeth o randdeiliaid GIG Cymru, eu barn am y bartneriaeth ag IGDC a sut i wella cydweithio.
- Cydgrynhai data a gwybodaeth ar ymgysylltu i lywio camau gweithredu a gwneud penderfyniadau
- Cyflwyno dulliau rhoi adborth rheolaidd ar gyfer darparu a phartneriaid eraill
- Sicrhau bod llais gan gleifion a'r cyhoedd
- Sicrhau y gweithredir ar adborth


CYFATHREBU

Fel sefydliad cenedlaethol sy'n rhan o'r GIG, mae'n hanfodol bwysig bod IGDC yn darparu cyfathrebiadau cryf a rhagweithiol i godi proffil ei waith ac adeiladu ei rôl fel partner strategol y gellir ymddiried ynddo sydd ag enw da fel arweinydd system ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal digidol.

Ym mis Medi 2023, yn dilyn ymgysylltu eang ar draws IGDC a chyda'n partneriaid, cymeradwywyd [strategaeth gyfathrebu](#) newydd gan Fwrdd AIA IGDC.

Mae'r strategaeth yn nodi dull rhagweithiol o gyfathrebu gyda phum nod strategol sydd wedi'u cynllunio i gefnogi ein staff, meithrin ein perthynas â rhanddeiliaid a sefydlu enw da IGDC fel partner strategol dibynadwy. Mae'r strategaeth yn cael ei hategu gan gynllun gweithredu blynyddol, gyda'r rhan fwyaf o gamau gweithredu'r flwyddyn gyntaf eisoes wedi'u cyflawni.

O ran codi ein proffil, rydym yn adeiladu hunaniaeth brand IGDC drwy lansio a chyflwyno brandio newydd ar draws y sefydliad. Rydym hefyd wedi bod yn datblygu astudiaethau achos o waith lle'r ydym yn cyflawni ar gyfer partneriaid. Bu cymorth cyfathrebu parhaus i'r cyfarwyddiaethau er mwyn deall eu gwaith yn well a datblygu hanesion am gyflawniadau tîm. Mae'r dull cyfarwyddiaeth hwn hefyd wedi arwain at roi cyngor a chymorth cyfathrebu i dimau i'w cefnogi yn eu gwaith. Rydym wedi parhau i ddarparu digwyddiadau llwyddiannus, gan gynnwys dau ymweliad Gweinidogol, digwyddiad yn y Senedd a phresenoldeb parhaus mewn digwyddiadau mawr yn y diwydiant fel Rewired a HETT, yn ogystal â sicrhau presenoldeb mewn digwyddiadau newydd.



Mae'r tîm cyfathrebu hefyd wedi parhau i adeiladu ar ein cyfathrebu mewnol i gefnogi staff, gan weithio gyda Phobl a Datblygu Sefydliadol i rannu gwybodaeth allweddol i staff, ac adeiladu ar ein rhaglen digwyddiadau mewnol. Mae ein digwyddiadau mewnol yn derbyn lefelau uchel o bresenoldeb yn rheolaidd ac maent yn helpu i feithrin perthnasoedd a rhannu gwybodaeth ar draws y sefydliad. Gwnaethom hefyd greu ymgyrch 'Diolch yr Ŵyl' newydd a hynod lwyddiannus adeg y Nadolig i roi cyfle i staff ddathlu gwaith eu cydweithwyr, ac rydym wedi cynnal digwyddiadau rheolaidd lle gall staff ddod at ei gilydd, gan gynnwys y sesiwn frifffio staff hybrid gyntaf ym mis Rhagfyr.

O ran ein cyfathrebu â rhanddeiliaid, mae sesiynau cynllunio ar y cyd bellach yn cael eu cynnal rhwng y timau cyfathrebu ac ymgysylltu i rannu gwybodaeth am randdeiliaid a'u hanghenion. Rydym wedi cynnal cyfres o weithdai ar y cyd gyda'r tîm ymgysylltu i gefnogi rhaglenni IGDC gyda dull cydgysylltiedig o gyfathrebu ac ymgysylltu, yn seiliedig ar ddeall anghenion rhanddeiliaid. Mae gweithdai gyda mwy o dimau wedi'u cynllunio. Mae Rhwydwaith Ymgysylltu a Chyfathrebu IGDC bellach wedi'i sefydlu ac yn cyfarfod yn rheolaidd. Mae siaradwyr gwadd o sefydliadau partner yn mynychu'r rhwydwaith i rannu arfer da a gwybodaeth.

Rydym hefyd wedi uwchsgilio'r tîm cyfathrebu mewn cyfathrebu digidol a gallwn bellach gynhyrchu cynnwys digidol yn fewnol. Rydym yn gwneud gwelliannau i SharePoint a'r wefan yn dilyn adolygiad o'r sianeli hyn a chynnydd mewn sgiliau arbenigol o fewn y tîm.

Darparwyd hyfforddiant a gwybodaeth i staff IGDC yn ogystal ag arweinwyr cyfathrebu GIG Cymru ar arfer gorau ar gyfer cyfathrebu digidol.

Mae rhai dangosyddion allweddol o lwyddiant yn ein gwaith cyfathrebu yn cynnwys y canlynol:

- Lefelau presenoldeb uchaf erioed mewn sesiynau brifffio staff
- Rhestr aros ar gyfer rhai o'n digwyddiadau mewnol, gan gynnwys TENTtalks
- Lefelau ymgysylltu cyson uchel ar draws ein sianeli digidol a chymdeithasol – sy'n uwch na'r rhai yr ydym yn meincnodi yn eu herbyn
- Mae timau ar draws IGDC yn cysylltu â'r timau cyfathrebu ac ymgysylltu i'w cefnogi i ddatblygu eu gwaith cyfathrebu ac ymgysylltu
- Ymgysylltiad uchel gan staff mewn meysydd allweddol fel arolygon barn

O ran y camau nesaf, byddwn yn canolbwyntio ymdrechion ar gwblhau'r camau gweithredu sydd heb eu cyflawni o fewn cynllun eleni a datblygu'r cynllun gweithredu ar gyfer ail flwyddyn y strategaeth.

ANSAWDD A DIOGELWCH

Mae ansawdd a diogelwch wrth wraidd popeth yr ydym yn ei wneud. Mae [Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol \(Ansawdd ac Ymgysylltu\) \(Cymru\) 2020](#), a ddaeth i rym ar Ebrill 1, 2023 yn cryfhau llais dinasyddion, yn cyflwyno dyletswydd gonestrwydd ac yn cryfhau'r ddyletswydd ansawdd bresennol ar gyrff y GIG. Rydym yn mynd i'r afael â'r gofynion drwy gynhyrchu adroddiad blynyddol a datblygu hyfforddiant a phrosesau i gefnogi'r Ddyletswydd Ansawdd. Rydym hefyd yn canolbwyntio ar reoliadau newydd ynghylch dyfeisiau meddygol.

Mae gan IGDC fframwaith ansawdd a gefnogir gan y System Rheoli Ansawdd electronig (eQMS), iPassport, a'r System Rheoli Integredig (IMS). Mae'r grŵp Ansawdd a Rheoleiddio yn monitro'r materion hyn, gyda chymorth y Grŵp Sicrwydd Systemau Rheoli Integredig a'r Grŵp Rhybuddion Dyfeisiau Meddygol. Mae sawl grŵp sy'n rheoli prosesau allweddol ac yn darparu sicrwydd ansawdd, megis Grŵp Sicrwydd Gwybodeg Cymru a'r Bwrdd Gwasanaethau Gweithredol. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd ar y Cynllun Ansawdd a Rheoleiddio a'i ganlyniadau. Mae'r fframwaith sicrwydd hwn yn cynyddu tryloywder a chraffu ar ansawdd a chymorth rheoleiddiol. Mae IGDC yn cynnal nifer o [ardystiadau ISO](#).

Mae rhagor o wybodaeth am ein hymagwedd at y [Ddyletswydd Ansawdd](#), sy'n rhan o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, ar gael ar ein gwefan, gan gynnwys ein Hadroddiad Blynyddol a'n hadroddiadau 'Parhaol'.

CLINICAL INCIDENTS

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn defnyddio'r diffiniadau canlynol i gategoreiddio digwyddiadau fel digwyddiadau clinigol:

Digwyddiad clinigol: *"Digwyddiad annisgwyl neu anfwriadol sy'n gysylltiedig â chynhyrchion a gwasanaethau IGDC a allai fod wedi neu a oedd wedi arwain at niwed i un neu fwy o gleifion sy'n derbyn gofal GIG / gofal cymdeithasol wedi'i ariannu"*.

Digwyddiad clinigol difrifol: *"Digwyddiad clinigol sy'n atal neu'n bygwth atal gallu sefydliad rhag parhau i ddarparu gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol, er enghraifft, tarfu sylweddol ar wasanaethau oherwydd methiant system Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg, colled neu ddifrod gwirioneddol neu bosibl i eiddo, enw da neu'r amgylchedd"*.

Rydym hefyd yn defnyddio'r diffiniad o ddigwyddiad difrifol, y cyfeirir ato bellach fel Digwyddiad Adroddadwy Cenedlaethol, a ddarperir gan y [Polisi Cenedlaethol ar Adrodd am Ddigwyddiadau yn ymwneud â Diogelwch Cleifion \(Mehefin 2021\)](#): *"Digwyddiad sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a achosodd neu a gyfrannodd at farwolaeth annisgwyl neu farwolaeth y gellid bod wedi ei hosgoi, neu niwed difrifol, i un neu fwy o gleifion, staff neu aelodau'r cyhoedd, yn ystod gofal iechyd a ariennir gan y GIG"* Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cofnodwyd pum digwyddiad clinigol. Uwchgyfeiriwyd dau o'r digwyddiadau hyn at Lywodraeth Cymru fel hysbysiadau rhybudd cynnar oherwydd asesiadau cychwynnol yn nodi'r posibilrwydd o niwed i gleifion. Nid oes unrhyw niwed claf wedi'i nodi mewn perthynas ag unrhyw un o'r digwyddiadau, ac nid oedd unrhyw ofynion i sbarduno'r Ddyletswydd Gonestrwydd.

FFRAMWAITH GWYBODEG GLINIGOL

Mae ein Gweithwyr Gwybodeg Glinigol Proffesiynol yn weithwyr iechyd proffesiynol cofrestredig sy'n chwarae rhan bwysig wrth sicrhau diogelwch, sicrwydd a datblygiad systemau cenedlaethol. Maent yn defnyddio eu harbenigedd clinigol fel defnyddwyr terfynol ac yn ymgysylltu â rhwydweithiau clinigol cenedlaethol. Rydym wedi datblygu ein [Strategaeth Gwybodeg Glinigol a Newid Busnes 2023-2026](#). Mae'r strategaeth yn cynnwys fframwaith i arwain sut y gall mewnbwn clinigol a'r tîm Newid Busnes siapio datblygiad a defnydd ein cynnyrch. Bydd cynnwys y safbwyntiau hyn yn cryfhau ac yn cynnal safonau uchel o ansawdd clinigol yn ein Model Gweithredu Cynnyrch a'n Swyddfa Rheoli Portffolio.

LLYWODRAETHU, PERFFORMIAD A SICRIFYDD

Mae'r galluogwr hwn yn sicrhau ein bod yn rhoi sicrwydd i'n Bwrdd trwy fframweithiau rheoli risg, parhad busnes, perfformiad a chynllunio.

DULL CYNLLUNIO

Mae'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn wynebu heriau sylweddol ac mae digidol yn hollbwysig i yrru'r trawsnewid sydd ei angen i fynd i'r afael â'r heriau hyn yn ei flaen. Mae'r dirwedd ddigidol yn esblygu'n gyflym ac yn cyflwyno ei heriau ei hun: bygythiadau seiber cynyddol, tarfu ar y gadwyn gyflenwi, argaeledd amrywiol a fforddiadwyedd adnoddau digidol, a mynd i'r afael â thechnoleg sydd wedi dyddio.

Dyna pam mae ein cynllun yn rhoi ffocws cryf ar sut y gall digidol a data helpu i reoli'r pwysau sylweddol ar wasanaethau gofal iechyd a gwella canlyniadau i gleifion. Rydym wedi ymrwmo i weithio yn yr awyr agored ac mae ein Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) yn nodi ein cynlluniau, ein risgiau a'n heriau yn glir. Mae'r tryloywder hwn yn cefnogi ein hymrwymiad i fod yn bartner strategol dibynadwy.


Yn 2023/24, gwnaethom fireinio ein cenadaethau a'n portffolios i gyd-fynd yn agosach â Blaenoriaethau Gweinidogol a Fframwaith y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Bu inni ddatblygu portffolios newydd a diwygiedig i amlygu ein hymrwymiad i bensaerniaeth a safonau agored, yn ogystal â buddsoddiad mewn seilwaith a / neu weithgarwch cynyddol mewn gofal sylfaenol a chymunedol. Drwy gydol cyfnod CTCI 2023-26, gwnaethom reoli ein pwysau a'n risgiau allweddol yn effeithiol a nodi gwaith sydd i ddod.

Mae ein cynllun busnes blynyddol yn gynllun uchelgeisiol, cynhwysfawr sy'n cwmpasu ein portffolio o fentrau newid ar gyfer y flwyddyn. Er mwyn galluogi IGDC i ymateb i flaenoriaethau newidiol a cheisiadau newydd am waith ychwanegol yn ystod y flwyddyn, rydym yn rhoi proses rheoli newid gadarn ar waith i sicrhau bod y cynllun a'r hyn y gallwn ei gyflawni yn cael ei reoli'n agos. Er bod hyn yn golygu y gallai rhai mentrau gael eu harafu neu eu gohirio, mae'n galluogi canolbwyntio adnoddau ar y mentrau â'r flaenoriaeth uchaf sy'n dod â'r budd mwyaf i GIG Cymru.

Llwyddwyd i gyflawni 87% o'n cerrig milltir CTCI drwy reoli cyllid, cyfyngiadau ar adnoddau a chymhlethdodau eraill o fewn y system yn ofalus.

YMAGWEDD AT BERFFORMIAD

Ffigur 9 - Amlinelliad o Lif Gwybodaeth Fframwaith Rheoli Perfformiad




Mae model gweithredu cryf yn hanfodol ar gyfer cyflawni ein gweledigaeth a'n hamcanion strategol. Ategir hyn gan Fframwaith Rheoli Perfformiad effeithiol a llinellau cyfrifoldeb ac atebolrwydd clir ar lefel tîm ac ar lefel unigol.

Mae model gweithredu IGDC wedi'i gyflwyno yn ein Rheolau Sefydlog a'n Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog.

Mae'r Fframwaith Rheoli Perfformiad yn amlinellu sut y rheolir perfformiad trwy hierarchaeth o gyfarwyddiaethau, adrannau a grwpiau, a oruchwylir gan Fwrdd Rheoli IGDC, a'i sicrhau gan Fwrdd IGDC.

Ffigur 10 - Ffocws y fframwaith perfformiad



Mae perfformiad yn canolbwyntio ar dri phrif faes:

Cynlluniau - sy'n mynegi gofynion a chanlyniadau disgwyliedig

Adnoddau - i gyflawni'r cynlluniau a sicrhau'r canlyniadau

Canlyniadau - cynlluniau a gyflawnwyd, a sut maen nhw'n berthnasol i ddatblygiad yr unigolyn, y tîm, yr adran neu'r sefydliad

RHEOLI RISG

Mae IGDC yn deall yr angen i groesawu risgiau i gyflawni ein hamcanion strategol a darparu gwerth i randdeiliaid. Mae pob risg yn cael eu hystyried yn ofalus gan ddefnyddio dull trefnus i sicrhau bod rheolaeth yn cael ei chynnal. Mae ein Bwrdd yn sicrhau bod ein hamlygiad i risgiau yn parhau o fewn terfynau derbyniol, gydag adolygiadau rheolaidd ar gyfer addasiadau wrth i amgylchiadau ddatblygu.

Mae unrhyw wyriadau oddi wrth ein goddefiant risg yn mynd trwy broses lywodraethu i sicrhau tryloywder a rheolaeth effeithiol. Mae'n bosibl y bydd rhai risgiau'n cael eu derbyn y tu hwnt i'n terfynau arferol os bernir eu bod yn annhebygol, yn cynnig gwobrau posibl sylweddol, yn cael eu hystyried yn rhy gostus i'w lliniaru o'u cymharu ag effeithiau posibl, â ffenestr amlygiad gyfyngedig, neu'n ei gwneud yn ofynnol i bartïon allanol eu lliniaru.

Llai o Reolaethau, gwneud penderfyniadau yn fwy datganoledig

Awyddus	Caiff Risg â sgôr o 25 ei hadrodd i'r Gweithredwr arweiniol	Dim
Agored	Caiff risg â sgôr o 20 neu uwch ei hadrodd i'r Gweithredwr arweiniol	Datblygu Gwasanaethau
Cymedrol	Caiff risg â sgôr o 15 neu uwch ei hadrodd i'r Gweithredwr arweiniol	Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol
Pwyllog	Caiff risg â sgôr o 12 neu uwch ei hadrodd i'r Gweithredwr arweiniol	Ariannol, Enw Da, Diogelwch a Lles, Darparu Gwasanaethau, Gwybodaeth - Mynediad a Rhannu
Amharod	Caiff risg â sgôr o 9 neu uwch ei hadrodd i'r Gweithredwr arweiniol	Cydymffurdiaeth, Gwybodaeth - Storio a chynnal, Diogelwch Dinasyddion

Mwy o Reolaethau, gwneud penderfyniadau yn fwy canolog

Yn ein [CTCI 2023/26](#), nodwyd ein prif feysydd risg fel a ganlyn:

SEIBER - Mae amddiffyn rhag ymosodiadau seiber yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod ein datrysiadau digidol ar gael ac yn ddiogel. Eleni gwnaethom gaffael y system Rheoli Gwybodaeth a Digwyddiadau Diogelwch (SIEM) ar gyfer GIG Cymru a buddsoddi mewn meysydd eraill i amddiffyn GIG Cymru rhag bygythiadau seiberddiogelwch.

CYFLENWYR - Rydym yn dibynnu ar gapasiti cyflenwyr i gefnogi ein systemau allweddol. Mae angen inni fod yn hyderus nad yw amserlenni cyflawni mewn perygl, a bod cyflenwyr yn parhau i ganolbwyntio ar fap ffordd a gofynion GIG Cymru.

CHWYDDIANT DIGIDOL - Gallai costau uwch gan gyflenwyr gwasanaethau digidol effeithio ar ein gallu i gydbwysu cyllid.

ARIANNU CYNALIADWY - Mae risgiau ariannu allweddol gan gynnwys y gofyniad am gyllid ychwanegol ym mlwyddyn 1 a chyllid cynaliadwy ar gyfer y blynyddoedd i ddod i gefnogi modelau gwasanaeth a thwf sy'n esblygu. Gallai'r rhain effeithio ar gyflenwi systemau newydd a pharhad ein gwasanaethau gweithredol. Yn ogystal, mae ansicrwydd ynghylch incwm o gytundebau lefel gwasanaeth yn y dyfodol gyda sefydliadau eraill y GIG yn ychwanegu elfen o gymhlethdod, gan gynnwys trosglwyddo rhaglenni mawr o fuddsoddiadau blaenoriaeth digidol Llywodraeth Cymru i fusnes fel arfer. Eleni, gwnaethom gwblhau asesiad cychwynnol o gostau gwasanaeth a chynnyrch a'r cyllid cysylltiedig. Rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar gyflwr model cyllido'r dyfodol.

ADNODDAU - Mae risg os na chaiff swyddi gwag eu llenwi'n amserol. Mae rhai sgiliau digidol yn brin ac mae swyddi'n anodd eu llenwi. Rydym wedi sefydlu Grŵp Adnoddau

Strategol sy'n galluogi monitro gofynion adnoddau ar lefel sefydliadol i leihau risgiau adnoddau.

MATERION ETIFEDDIAETH - Mae seilwaith etifeddiaeth o hyd y mae angen ei uwchraddio ar draws yr ystâd. Mae unrhyw ffocws oddi wrth hyn yn golygu y gallai systemau newydd eistedd ar seilwaith is-optimaidd a allai oedi'r broses gyflwyno a chael effaith ar enw da oherwydd ansefydlogrwydd. Eleni, bu inni fudo i ganolfan ddata newydd, recriwtio 5 o 6 aelod o staff i dîm Cwmwl a datblygu achos economaidd Cloud. Gwnaethom hefyd roi datrysiad Cloud PC ar waith, cychwyn ar sganiau asesu mudo cwmwl a pharhau i leihau seilwaith etifeddol.

CYD-DDIBYNIAETHAU CYMHLETH - Mae integreiddio systemau digidol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn hynod gymhleth. Gall hyn arwain at oedi annisgwyl a all fod yn anodd ei liniaru, er enghraifft, pan fydd trydydd parti'n darparu systemau. Eleni gwnaethom gyhoeddi ein map ffordd API a chyflwyno 6 API blaenoriaeth.

PRYDERON

Er nad yw Awdurdod Iechyd Arbennig IGDC wedi'i gynnwys yn y Rheoliadau Gweithio i Wella (PTR), rydym yn dilyn yr ymateb a argymhellir a'r canllawiau a nodir o dan Reoliadau PTR. Rydym yn cymryd ein cyfrifoldebau a'n hatebolrwydd o ddifrif a'n nod yw sicrhau bod ein hymatebion i bryderon a godwyd yn gydlynol, yn bwyllog ac yn amserol. Mae gennym fetrigau a systemau monitro cadarn ar waith. Mae hyn yn ein galluogi i rybuddio ein bwrdd yn brydlon am faterion sy'n dod i'r amlwg a rhoi sicrwydd. Rydym hefyd yn cynnal grŵp dysgu pwrpasol i sicrhau bod mesurau rhagweithiol ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw wyriadau oddi wrth ein safonau disgwyliedig.

CASGLIAD AC EDRYCH I'R DYFODOL

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn chwarae rhan unigryw, gan ddarparu'r systemau digidol a data cenedlaethol sy'n sail i wasanaethau iechyd a gofal yng Nghymru. Fel y corff cenedlaethol arbenigol a rhan o deulu GIG Cymru, rydym wedi ymrwymo i gyflawni ein rôl fel partner strategol yr ymddiriedir ynddo, gan gyflawni rhai o'r prosiectau digidol a data gofal iechyd mwyaf yn y DU.

Wrth i ni ddod i mewn i'n pedwaredd flwyddyn fel Awdurdod Iechyd Arbennig, rydym yn gyson yn chwilio am ffyrdd o ddysgu, arloesi a gwella, wrth barhau i ddarparu ein gwasanaethau craidd. Mae hwn yn gyfnod heriol i GIG Cymru – i gleifion a staff, ond mae yna hefyd gyfleoedd niferus ar gyfer digidol a data i helpu gyda'r heriau hyn. Mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi nodi ei ddisgwyliadau digidol yn y fframwaith cynllunio – 'mae datblygiadau digidol yn hanfodol i drawsnewid effeithlonrwydd, mynediad a gofal'.

Bydd trawsnewid digidol yn darparu gofal cleifion gwell a mwy diogel, tra'n cefnogi'r system i reoli pwysau parhaus, a helpu i gyflawni gwaith ataliol hanfodol yn y tymor hwy. Rhaid i'n cynlluniau wneud y gorau o'r cyfleoedd hyn drwy gynyddu ein huchelgeisiau a rhoi ffocws cryf ar sut y gall ein systemau a'n gwasanaethau wella gofal a chanlyniadau i gleifion.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cyflawni cerrig milltir sylweddol gan gynnwys cyflwyno Ap GIG Cymru, lansio'r Gwasanaeth Presgripsiynau Electronig, datblygiadau mawr yn y platfform Adnoddau Data Cenedlaethol a chynnydd mewn meysydd allweddol megis canser, diabetes a cheisiadau am broffion electronig. Mae IGDC hefyd wedi cymryd y cyfrifoldeb o reoli rhaglenni diagnostig digidol cenedlaethol. Rydym yn falch o'r cynnydd cynnar yr ydym yn ei wneud yn ein hymagwedd at ddylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr, gan weithio ar y cyd â phartneriaid i ddatblygu gwasanaethau i ddiwallu anghenion y defnyddwyr orau, a chael Achrediad Siarter Cynhwysiant Digidol gan Gymunedau Digidol Cymru, a oedd yn cydnabod ein hymagwedd fel 'rhagor!'.

Gyda phartneriaeth, arloesedd ac ansawdd wrth wraidd popeth yr ydym yn ei wneud, rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar ein pum cenhadaeth strategol i sicrhau cysondeb ag amcanion cenedlaethol a gwerth mewn gofal iechyd.

Gwneud digidol yn rym er gwell ym maes iechyd a gofal
Making digital a force for good in health and care



YR ADRODDIAD ATEBOLRWYDD A'R CYFRIFON

IGDC • DHCW



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd a Gofal
Digidol Cymru
Digital Health
and Care Wales

ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Mae'r Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol yn rhoi trosolwg o'r trefniadau a'r strwythurau llywodraethu sydd ar waith ar draws Awdurdod Iechyd Arbennig Iechyd Digidol a Gofal Cymru yn ystod 2023/24. Mae'n cynnwys:

Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Mae'n nodi'r trefniadau a'r strwythurau llywodraethu ac yn dwyn ynghyd sut mae'r sefydliad yn rheoli llywodraethu, risg a rheolaeth.

Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Yn darparu manylion y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol, sydd ag awdurdod neu gyfrifoldeb am gyfarwyddo a rheoli prif weithgareddau'r Awdurdod Iechyd Arbennig yn ystod y flwyddyn. Darperir peth o'r wybodaeth a fyddai'n cael ei dangos yma fel arfer mewn rhannau eraill o'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon Blynyddol a thynnir sylw at hyn lle bo'n berthnasol.

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Atebol a Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr

Mae'r Swyddog Atebol, y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr Cyllid yn cadarnhau eu cyfrifoldebau wrth baratoi'r datganiadau ariannol a bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon, yn eu cyfanrwydd, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Y DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

CWMPAS Y CYFRIFOLDEBAU

Mae Bwrdd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn atebol am y canlynol:

- gosod y cyfeiriad strategol
- y fframwaith llywodraethu
- naws a diwylliant sefydliadol
- llywio'r derbynioldeb risg a goruchwylio risgiau strategol
- datblygu perthnasoedd cryf gyda rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol
- creu a chyflawni Strategaeth Hirdymor y sefydliad yn llwyddiannus.

Mae'r Bwrdd yn atebol am Lywodraethu, Rheoli Risg a Rheolaeth Fewnol. Fel Prif Weithredwr y Bwrdd, mae gennyf gyfrifoldeb dros gynnal strwythurau a phrosesau llywodraethu priodol ynghyd â system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni polisiau, nodau ac amcanion y sefydliad, wrth ddiogelu'r arian cyhoeddus ac asedau'r sefydliad yr wyf yn gyfrifol amdanynt yn bersonol. Cyflawnir y rhain yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuwyd gan Swyddog Atebol GIG Cymru.

Mae'r adroddiad blynyddol yn amlinellu'r gwahanol ffyrdd y mae'r sefydliad wedi gweithio'n fewnol a chyda phartneriaid yn ystod 2023/24. Mae'n egluro'r trefniadau ar gyfer sicrhau bod safonau llywodraethu'n cael eu cynnal, bod risgiau'n cael eu nodi a'u lliniaru, a bod sicrwydd wedi'i geisio a'i ddarparu. Lle bo angen, darperir gwybodaeth ychwanegol yn y Datganiad Llywodraethu, ond y bwriad oedd lleihau dyblygu lle bo modd. Felly mae angen adolygu adrannau eraill yn yr Adroddiad Blynyddol ochr yn ochr â'r Datganiad Llywodraethu hwn.

Mae'r Datganiad Llywodraethu hwn yn egluro cyfansoddiad a threfniadaeth strwythurau llywodraethu IGDC a sut maen nhw'n cefnogi cyflawni ein hamcanion. Mae cefndir IGDC, ei swyddogaethau a'i gynlluniau wedi'u hamlinellu yn yr [Adroddiad Perfformiad](#).

Mae'r Bwrdd ar frig ein system llywodraethu a sicrwydd mewnol. Mae'n gosod amcanion strategol, yn monitro cynnydd, yn cytuno ar gamau gweithredu i gyflawni'r amcanion hyn ac yn sicrhau bod rheolaethau priodol ar waith ac yn gweithio'n iawn. Mae'r Bwrdd hefyd yn cael sicrwydd gan ei Bwyllgorau, asesiadau yn erbyn safonau proffesiynol a fframweithiau rheoleiddio.

BOD YN AGORED AC YN DRYLOYW

Yn unol â Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960 ac yn ogystal â bod IGDC wedi ymrwmo i sicrhau ein bod mor agored a thryloyw, rydym yn:

- Ffrydio byw a recordio ein cyfarfodydd Bwrdd Cyhoeddus a'u postio i'n gwefan o fewn 3 diwrnod gwaith i'r cyfarfod gael ei gynnal
- Cofnodi ein cyfarfodydd Pwyllgor a'u postio i'n gwefan o fewn 3 diwrnod gwaith i gynnal y cyfarfod
- Rhoi gwybod i randdeiliaid am ein bwriad i gynnal cyfarfodydd Bwrdd 10 diwrnod cyn cyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau
- Rhannu papurau ag aelodau 7 diwrnod o flaen llaw, a chyhoeddi papurau cyhoeddus ar ein gwefan yma 7 diwrnod cyn cyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau
- Darparu adroddiad uchafbwyntiau o holl gyfarfodydd y Pwyllgor a'r Grŵp Cynghori, gan gwmpasu unrhyw eitemau agenda a drafodwyd yn gyhoeddus ac yn breifat i'r Bwrdd a chyhoeddi'r rhain ar ein gwefan

Mae'r Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth yn bwyllgor preifat o'r Bwrdd. Yn ogystal mae'r grŵp cynghori unigol, y Fforwm Partneriaeth Lleol yn breifat ar hyn o bryd, ond er mwyn ymrwmo i fod yn agored ac yn dryloyw, rhennir adroddiad uchafbwyntiau o'r ddau gyfarfod ym mhob cyfarfod Bwrdd Cyhoeddus.

Mae'r cyfnod adrodd ar gyfer y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar flwyddyn ariannol 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024.

Yn ystod 2023/24, cefnogodd IGDC [Sesiwn y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar Ganser Gynaecolegol](#). Mynychodd cynrychiolwyr IGDC yr ymchwiliad ar 29 Mehefin 2023, a edrychodd ar sut mae data canser yn cael ei gasglu, ei storio a'i rannu'n ddiogel ac yn effeithlon, offer a systemau digidol a all wella gofal a thriniaeth canser a'r wybodaeth a gedwir am sgrinio, diagnosis a thriniaeth canser a sut mae'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i lywio cynllunio a datblygu gwasanaethau.

EIN FFRAMWAITH LLYWODRAETHU A'N SYSTEM SICRWYDD

Bwriad [rheolau sefydlog](#) IGDC yw trosi'r gofynion statudol a amlinellir yng Ngorchymyn IGDC (Sefydliad a Chyfansoddiad) 2020 i arferion gweithredu o ddydd i ddydd. Ynghyd â mabwysiadu cyfres o benderfyniadau wedi'u neilltuo i'r Bwrdd, cynllun o ddirprwyaethau i swyddogion ac eraill; a chyfarwyddiadau ariannol sefydlog, maen nhw'n darparu'r fframwaith rheolaethol ar gyfer cynnal busnes yn IGDC ac yn diffinio ei 'ffyrdd o weithio'. Mae'r dogfennau hyn, ynghyd â'r ystod o bolisiau corfforaethol, gan gynnwys y Polisi Safonau Ymddygiad a osodwyd gan y Bwrdd, yn ffurfio'r Fframwaith Llywodraethu.

Adolygodd a chymeradwyodd y Bwrdd reolau sefydlog IGDC ym mis Mawrth 2024. Yn ogystal, cafodd y Bwrdd ddiweddariad ar gydymffurfiaeth IGDC â rheolau sefydlog yn ystod 2023-24 ym mis Mawrth 2024. Ni fu unrhyw amrywiadau i reolau sefydlog IGDC yn ystod 2023-24.

Yn unol â rheolau sefydlog a chynllun dirprwyo IGDC, cymeradwywyd y [polisiau](#) canlynol gan y Bwrdd a'i Bwyllgorau yn ystod 2023/24.

2023/24 Polisiau Cymeradwy

- POL-OSD-008 Egwyddorion a Safonau Rheoli Mynediad Breintiedig
- POL-OSD-002 Gwrth-Faleiswedd
- POL-OSD-001 Rheoli Mynediad
- POL-OSD-004 Polisi Defnydd Derbyniol
- POL-OSD-006 Diogelwch Gwybodaeth
- POL-WIA-002 Sicrwydd Gwybodeg Cymru
- Rheoli Gwasanaethau
- POL-CF-006 Rheoli Contractwyr
- POL-CF-012 Polisi Rheoli Asbestos
- POL-CF-17 Polisi Diogelwch Tân
- POL-CG-018 Polisi Amgylcheddol a Chynaliadwyedd
- POL-POD-024 Polisi Di-fwg a Di-fêp
- POL-WFOD-022 Polisi Iechyd Meddwl, Lles a Rheoli Straen
- POL-CG-011 Polisi Pecynnau Amheus a Bygythiadau Bom
- DHCW-POL-7 Polisi Defnyddio'r Gymraeg yn Fewnol
- TBCPOL-WFOD-025 Gweithdrefn a Chanllawiau Polisi Seibiant i Astudio
- POL-CG-010 Offer Sgrin Arddangos
- PO-CG-013 Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd
- POL-CF-014 Codi a Chario yn Ddiogel
- PO-CG-008 Adrodd ac Ymchwilio i Ddigwyddiadau
- POL-CG-19 Safonau Ymddygiad
- POL-WFOD-023 Polisi Absenoldeb Rhiant a Rennir

Ni ddefnyddiwyd y strwythur gorchymyn yn ystod 2023/24.

PARHAD BUSNES

Mae angen i'r GIG gynllunio ar gyfer ac ymateb i ystod eang o achosion brys a allai effeithio ar iechyd neu ofal cleifion. Serch hynny, nid yw IGDC wedi'i enwi'n ffurfiol yn Neddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, fel "Ymatebydd" wedi'i Gategoreiddio o dan y Ddeddf. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod pwysigrwydd rôl IGDC ynghylch cynllunio at argyfwng a pharhad busnes ar sail Cymru Gyfan. I'r perwyl hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys IGDC yn ffurfiol yn Fframwaith Cymru Gydnerth newydd ac wedi cyfarwyddo IGDC i weithredu fel Ymatebwr Categori 1 hyd nes y gellir cynnwys IGDC yn gyfreithiol yn y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl fel y mae'n berthnasol i Gymru.

Mae darn o Fframwaith Cymru Gydnerth yn darllen:

"Ymatebwyr Categori 1 a/neu Gategori 2 1.10

Fel y'i diffinnir gan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, gan gynnwys Iechyd Digidol a Gofal Cymru, sydd wedi'u cyfarwyddo gan Lywodraeth Cymru i gyflawni dyletswyddau ymatebwr Categori 1, er nad yw wedi'i nodi'n ffurfiol fel ymatebwr Categori 1 o dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004."

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyfarwyddo Gofal Iechyd Digidol Cymru yn flaenorol i barhau i ymgysylltu a chymryd rhan mewn cynlluniau brys ac wrth gefn ar gyfer Cymru. Fel y cyfryw, cafodd IGDC gyfarwyddyd ffurfiol (o dan bwerau Deddf GIG Cymru 2006) i barhau i gyflawni nifer o weithgareddau sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl, felly mae gan IGDC lawer ar waith eisoes i fodloni'r Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl a bydd yn gweithio gyda'i bartneriaid aml-asiantaeth i adeiladu ymhellach brosesau gwydnwch a chynlluniau ymateb sy'n bodloni'r Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl yn llawn. Mae IGDC bellach hefyd yn gweithio tuag at Safon Ryngwladol Parhad Busnes ISO 22301.

Mae IGDC wedi parhau â'i ymagwedd gydweithredol at barhad busnes a chynllunio at argyfwng trwy aelodaeth weithredol o grwpiau Cynllunio:


- Grŵp Cynghori Cynllunio at Argyfyngau Iechyd Cymru
- Grŵp Gwydnwch a Chynllunio System Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

Mae Arweinydd Cynllunio Argyfwng IGDC bellach yn cynrychioli'r Sefydliad, ar y pedwar Fforwm Lleol Cymru Gydnerth. Bydd hyn yn helpu i fodloni'r gofyniad i gydweithio, cynllunio, rhannu gwybodaeth ac arfer cynlluniau gwydnwch ar sail aml-asiantaeth.

RÔL Y BWRDD

Mae'r Bwrdd wedi'i gyfansoddi i gydymffurfio â Rheoliadau Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2020. Yn ogystal â'r cyfrifoldebau a'r atebolrwydd a nodir yn y telerau ac amodau penodi, mae Aelodau Annibynnol wedi gweithio gyda'r Cadeirydd i gytuno ar eu rolau Hyrwyddwr Bwrdd. Rhannwyd [Adroddiad Blynyddol Hyrwyddwyr Bwrdd](#) manwl yn ein Cyfarfod Bwrdd ym mis Ionawr 2024.

Mae'r [Bwrdd](#) yn cynnwys Aelodau Annibynnol a Chyfarwyddwyr Gweithredol.



Ffigur 11 - Strwythur Bwrdd IGDC

Yn ystod 2023/24, cynhaliwyd sesiynau datblygu a briffio'r Bwrdd a oedd yn cynnwys pwyslais ar yr elfennau llywodraethu canlynol:

- Adolygiad Annibynnol o Lywodraethu Rhaglen
- Caffael y System Gwybodeg Radioleg - Achos Busnes Llawn
- Rheoli Ymgysylltu â Rhanddeiliaid
- Strategaeth Gyfathrebu
- Strategaeth Gofal Sylfaenol
- Strategaeth Ddigidol Iechyd a Gofal Llywodraeth Cymru
- Strategaeth Hirdymor IGDC x 5
- Cynllun CTCI 2024-25
- Negeseuon gan Randeiliaid
- Rôl IGDC mewn Gofal
- Dyletswydd Ansawdd
- CTCI 2025-27 x 2
- Cyfrifon Drafft 2022-24
- Ymwybyddiaeth Seiber
- Gwasanaethau Digidol ar gyfer Cleifion a'r Cyhoedd
- Rhaglen Digidol Gofal Llygaid
- Sesiwn Ddysgu ar y cyd rhwng y Bwrdd Rhyngwladol ac UMASS Memorial Health
- Aseiad Strwythuredig 2023
- Cyd-destun Ariannol CTCI 2024/25

Parhaodd IGDC â'i bartneriaeth gyda Deloitte fel ein partner Datblygu Bwrdd yn ystod 2023-24, a chynhaliodd y Bwrdd y gweithdai canlynol gyda Deloitte yn ystod y cyfnod:

- Llywodraethu Da
- Matrics Sgiliau Bwrdd
- Gweithdy Strategaeth
- Casgliad Datblygiad Sefydliadol y Bwrdd


Rydym yn edrych ymlaen at symud y gwersi a'r cyfleoedd o'r gwaith hwn ymlaen yn 2024-25.

Amlinellir aelodaeth lawn y Bwrdd yn [Atodiad 1](#). Rhoddir isod grynodedb o strwythur y Bwrdd a Phwyllgorau. Mae hyn yn adlewyrchu'r strwythur arfaethedig yn rheolau sefydlog enghreifftiol IGDC.

Yn ystod 2023-24, comisiynodd IGDC, gyda chymorth Llywodraeth Cymru, adolygiad annibynnol o Drefniadau Llywodraethu Rhaglenni. Y prif argymhelliad o'r adroddiad oedd symleiddio trefniadau llywodraethu i gynnwys llinellau atebolrwydd, sicrhau mwy o eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau, gan ganiatáu i raglenni a gynhelir gan IGDC weithredu mewn modd agored a thryloyw.

Mae Cadeirydd IGDC a'r Prif Swyddog Gweithredol wedi cytuno i sefydlu is-bwyllgor o Fwrdd IGDC, y Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni, i roi sicrwydd a chraffu ar gyflawni rhaglenni mawr a gynhelir gan IGDC mewn modd agored a thryloyw; Cymeradwywyd hyn gan y [Bwrdd AIA ym mis Tachwedd 2023](#).

Ffigur 12 - Strwythur Bwrdd a Phwyllgorau



Mae'r Bwrdd yn darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad i'r sefydliad ac mae ganddo rôl allweddol wrth sicrhau bod gan y sefydliad drefniadau llywodraethu cadarn ar waith. Mae'r Bwrdd hefyd yn ceisio sicrhau bod gan y sefydliad ddiwylliant agored a safonau uchel wrth gyflawni ei waith.

Gyda'i gilydd, mae aelodau'r Bwrdd yn rhannu cyfrifoldeb corfforaethol am bob penderfyniad ac yn chwarae rhan allweddol wrth fonitro perfformiad y sefydliad. Roedd holl gyfarfodydd y Bwrdd yn ystod 2023/24 wedi'u cyfansoddi'n briodol gyda chworwm. Mae'r materion busnes a risg allweddol a ystyriwyd gan y Bwrdd yn ystod 2023/24 wedi'u hamlinellu yn y datganiad hwn a gellir cael rhagor o wybodaeth o bapurau'r cyfarfodydd sydd ar gael ar ein gwefan: igdc.gig.cymru

RÔL Y PWYLLGORAU

Mae gan y Bwrdd bedwar pwyllgor, y [Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd](#), y [Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth](#), y [Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol](#) a'r [Pwyllgor Cyflenwi Rhaglenni](#). Mae'r pwyllgorau hyn yn cael eu cadeirio gan Gadeirydd neu Aelodau Annibynnol y Bwrdd ac mae ganddynt rolau allweddol mewn perthynas â'r system llywodraethu a sicrwydd, gwneud penderfyniadau, craffu ac asesu risgiau cyfredol. Mae'r pwyllgorau'n darparu adroddiadau sicrwydd a materion allweddol i bob cyfarfod o'r Bwrdd er mwyn cyfrannu at asesiad y Bwrdd o sicrwydd a chraffu ar gyflawni amcanion.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am adolygu'r strwythur pwyllgorau yn gyson ac mae'n adolygu ei reolau sefydlog yn flynyddol. Bydd y Bwrdd yn ystyried a oes angen unrhyw newidiadau yn ystod 2024/25 yn unol â fframwaith llywodraethu'r Bwrdd a blaenoriaethau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Mae IGDC wedi ymrwymo i fod yn agored ac yn dryloyw o ran y ffordd y mae'n cynnal ei fusnes pwyllgor. Nod Bwrdd Iechyd a Gofal Digidol Cymru a'i bwyllgorau yw cyflawni cyn lleied â phosibl o'u busnes mewn sesiynau caeedig a sicrhau bod busnes yn cael ei ystyried yn gyhoeddus, lle bynnag y bo modd, a bod papurau sesiwn agored yn cael eu cyhoeddi ar [wefan](#) IGDC. Ymgymerir â gwybodaeth a dderbynnir mewn cyfarfodydd sesiwn gaeedig oherwydd natur gyfrinachol y busnes. Gall materion cyfrinachol o'r fath gynnwys materion masnachol sensitif, materion yn ymwneud â materion personol neu drafod cynlluniau yn eu camau ffurfiannol.

Yn ogystal, mae Adroddiadau Blynyddol y Pwyllgorau a'r Grŵp Cynghori yn rhoi trosolwg o'r gweithgarwch a wnaed yn ystod y flwyddyn ac maent i'w gweld yma:

- [Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd](#)
- [Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol](#)
- [Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth a Thelerau Gwasanaeth](#)
- [Fforwm Partneriaeth Lleol](#)

Nid oes Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni ar gyfer 2023-24 gan fod y Pwyllgor wedi'i sefydlu yn ystod rhan olaf y flwyddyn ariannol a chynhaliwyd dau gyfarfod yn unig, felly bydd adroddiad blynyddol cyntaf y Pwyllgor yn cael ei gynhyrchu yn 2024-25.

PWYLLGOR ARCHWILIO A SICRWYDD

Un o Bwyllgorau pwysig y Bwrdd mewn perthynas â'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yw'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd. Mae'r Pwyllgor yn adolygu cynllun a digonolrwydd trefniadau llywodraethu a sicrwydd IGDC a'i system rheolaeth fewnol yn barhaus. Yn ystod 2023/24, roedd y materion allweddol a ystyriwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn ymwneud â threfniadau llywodraethu cyffredinol y sefydliad yn cynnwys:

- Ailedrych ar ei gylch gorchwyl, a fydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd
- Cymeradwyo'r Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2023/24 ac adolygu'r Adroddiadau Archwilio Mewnol dilynol yn barhaus. Nodi meysydd risg allweddol ac olrhain ymatebion rheolwyr i wella systemau a pholisïau sefydliadol
- Sicrhau bod systemau a gweithdrefnau rheoli ariannol effeithiol ar waith
- Monitro'r systemau rheoli risg
- Monitro safonau ymddygiad, gan gynnwys datgan buddiannau, rhoddion, lletygarwch a nawdd
- Datblygu trefniadau i weithio gydag Archwilio Cymru, ac ystyried [Asesiad Strwythuredig 2023](#) a [Chynllun Archwilio 2023-24 Archwilio Cymru](#)
- Monitro cynnydd ar ddatblygu [Cynllun Iaith Gymraeg IGDC](#)
- Cymeradwyo ac adolygu [Fframwaith Sicrwydd Deddfwriaethol IGDC](#)
- Datblygu a chymeradwyo polisïau, strategaethau a fframwaith newydd i gefnogi llywodraethu da a rheolaeth briodol.

Y PWYLLGOR TÂL A THELERAU GWASANAETH

Mae'r Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth yn ystyried ac yn argymhell cyflogau, dyfarniadau cyflog a thelerau ac amodau cyflogaeth ar gyfer y Tîm Gweithredol ac uwch staff allweddol eraill. Yn ystod 2023/24, roedd y materion allweddol a ystyriwyd gan y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth yn cynnwys:

- Perfformiad Cyfarwyddwyr Gweithredol yn erbyn amcanion unigol
- Strwythur y Tîm Gweithredol
- Cadarnhau swyddi'r Tîm Gweithredol
- Adolygiad o ddata pobl sy'n gadael IGDC

PWYLLGOR LLYWODRAETHU A DIOGELWCH DIGIDOL

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Digidol a Diogelwch yn rhoi cyngor a sicrwydd i'r Bwrdd o ran ansawdd a chywirdeb, diogelwch a defnydd priodol o wybodaeth a data i gefnogi darparu iechyd a gofal a gwella gwasanaethau a darparu iechyd a gofal digidol o ansawdd uchel. Roedd y materion allweddol a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn 23/24 yn ymwneud â'i gylch gwaith yn cynnwys:

- Ailedrych ar ei gylch gorchwyl, a fydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd
- Trefniadau Seiberddiogelwch
- Adolygu digwyddiadau a dysgu sefydliadol
- Llywodraethu Gwybodaeth
- Sicrwydd Gwasanaethau Gwybodaeth
- Sicrwydd Gwybodeg
- Sicrwydd Ymchwil ac Arloesi

PWYLLGOR CYFLAWNI RHAGLENNI

Mae'r Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni yn cynghori ac yn sicrhau'r Bwrdd o ran sut y caiff rhaglenni eu darparu, yn enwedig bod ganddynt lywodraethu rheolaidd a phriodol, bod ganddynt brosesau rheoli ac adrodd cadarn, a'u bod yn dangos cynllunio, rheoli a chyflawni da.

Bydd y Pwyllgor hefyd yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd ar gyflawni rhaglenni fel portffolio, dyrannu adnoddau wedi'u blaenoriaethu, rhaglenni'n effeithio ar ddarpariaeth ehangach IGDC, a thrawsnewid gweithgarwch rhaglenni i wasanaethau byw sy'n gynaliadwy yn y tymor hwy.

Roedd y materion allweddol a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn 23/24 yn ymwneud â'i gylch gwaith yn cynnwys:

- Mireinio a chytuno ar gylch gorchwyl y Pwyllgor a fydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd
- Sicrwydd Rhaglenni
- Sicrwydd Portffolio
- Llywodraethu (gan gynnwys adolygu pa raglenni sydd o fewn cwmpas y Pwyllgor)

HUNANASESIAD EFFEITHIOLRWYDD

Cynhaliodd y Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd [hunanasesiad ar gyfer 2023/24](#) rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2024 a thrafodwyd y canfyddiadau yn y cyfarfod pwyllgor perthnasol a'u hadrodd i'r Bwrdd AIA. Nid oedd arolwg hunaneffeithiolrwydd y Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni ar gyfer 2023/24 gan fod y Pwyllgor wedi'i sefydlu yn ystod rhan olaf y flwyddyn ariannol a chynhaliwyd dau gyfarfod yn unig, felly bydd hunanasesiad cyntaf y Pwyllgor yn cael ei gynhyrchu yn 2024-25.

Seiliwyd holiadur y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ar Lawlyfr y Pwyllgor Archwilio ac fe'i dosbarthwyd i aelodau a mynychwyr y Pwyllgor.

Roedd holiaduron y Bwrdd AIA, y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol, y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth a'r Fforwm Partneriaeth Lleol wedi'u seilio ar gyfansoddiad, sefydlu a dyletswyddau, ac yna gwestiynau arweinyddiaeth a chefnogaeth Bwrdd, Pwyllgor, a Grŵp Cynghori'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd.

AELODAETH Y BWRDD A'I BWYLLGORAU

Mae [Atodiad 1](#) yn amlinellu aelodaeth a phresenoldeb y Bwrdd a'i Bwyllgorau ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024. Mae aelodau'n ymgymryd ag ystod o weithgareddau eraill ar ran y Bwrdd gan gynnwys Sesiwn Datblygu a Briffio'r Bwrdd, ac ystod o gyfarfodydd mewnol ac allanol.

Mae angen i'r Bwrdd gymeradwyo unrhyw newidiadau arfaethedig i strwythur ac aelodaeth pwyllgorau'r Bwrdd. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd a'r Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol, ynghyd â'r Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni, wedi ystyried eu cylch gorchwyl eu hun ac wedi argymhell newidiadau i'r Bwrdd. Bydd y Bwrdd yn sicrhau bod cylch gorchwyl pob pwyllgor yn cael ei adolygu'n flynyddol i sicrhau bod gwaith y pwyllgorau yn adlewyrchu'n glir unrhyw ofynion llywodraethu, newidiadau i drefniadau dirprwyo neu feysydd cyfrifoldeb. Mae holl pwyllgorau a grwpiau cynghori'r Bwrdd wedi datblygu adroddiadau blynyddol ar eu busnes a'u gweithgareddau a ddaeth i law ac a nodwyd ym mis Mawrth 2024. Mae'r swyddogion arweiniol wedi'u cynnwys yn [Atodiad 2](#) aac mae rhestr o gyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau yn 23/24 wedi'i chynnwys yn y tabl yn [Atodiad 3](#).

FFORWM PARTNERIAETH LLEOL

Mae [Fforwm Partneriaeth Lleol](#) IGDC yn darparu'r mecanwaith ffurfiol ar gyfer partneriaeth gymdeithasol o fewn IGDC yn ogystal â chyfrwng ar gyfer ymgysylltu, ymgynghori, negodi a chyfathrebu rhwng undebau llafur a rheolwyr IGDC. Yn ystod 2023/24, mae'r Fforwm Partneriaeth Lleol wedi cyfarfod bob chwarter ac wedi canolbwyntio ar faterion strategol ac ymarferol gan gynnwys diwylliant, gwerthoedd ac ymddygiadau, cydnabod staff, lessiant, ffyrdd newydd o weithio a diogelwch, datblygiad sefydliadol, polisiau cyflogaeth a chydaddoldeb ac amrywiaeth.

DIBEN Y SYSTEM RHEOLAETH FEWNOL

Cynlluniwyd system rheolaeth fewnol Bwrdd IGDC i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg. Mae hyn wedi'i fynegi yn natganiad parodrwydd i dderbyn risg IGDC. Dim ond sicrwydd rhesymol y gall ei roi ynghylch effeithiolrwydd, felly, yn hytrach na sicrwydd absoliwt.


Mae'r system rheolaeth fewnol wedi'i seilio ar broses barhaus a luniwyd i amlygu a blaenoriaethu risgiau i gyflawni'r polisiau, y nodau a'r amcanion. Mae hefyd yn gwerthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n cael eu gwireddu a'r effaith pe baent yn cael eu gwireddu, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi bod ar waith ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024, a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon.

Adolygwyd a chymeradwywyd **Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd** gan y Bwrdd ym mis Mai 2023. Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn nodi'r holl reolaethau allweddol a llinellau sicrwydd i'w hadrodd i'r Bwrdd. Mae cylch adrodd blynyddol ein Fframwaith Sicrwydd Bwrdd i'w weld isod.

Rydym yn defnyddio system a phroses Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd i fonitro, ceisio sicrwydd a sicrhau bod diffygion yn derbyn sylw trwy graffu gan y Bwrdd a'i Bwyllgorau. Goruchwylir ein system Cofrestr Risg Gorfforaethol trwy graffu a monitro gan y Bwrdd a'i Bwyllgorau.

Diffinnir rheolaethau allweddol fel y rheolaethau a'r systemau hynny sydd ar waith i helpu i sicrhau y cyflawnir amcan strategol y Bwrdd. Asesir effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol gan ein harchwilwyr mewnol ac allanol.

Ffigur 13 - Cylch Bywyd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd



Ffigur 14 - Fframwaith Rheoli'r Bwrdd

Llinell Gyntaf – Gweithredol

- Strwythurau sefydliadol – tystiolaeth o ddirprwyo cyfrifoldeb trwy drefniadau rheoli llinell
- Rheolaeth Rheoli
 - Cydymffurfio â'r broses arfarnu
 - Cydymffurfio â Pholisïau, Gweithdrefnau Strategaethau a'r Fframwaith
 - Adrodd am ddigwyddiadau ac adolygiadau thematig
 - Cydymffurfio â phrosesau a systemau Rheoli Risg
 - Adroddiadau Perfformiad ac Adroddiadau Cyllid
 - Adrodd am Raglenni
 - Adrodd am Berfformiad Rheoli Gwasanaethau

Gallai'r wybodaeth fod yn gadarn
ond nid yw'n annibynnol

Ail Linell – Goruchwylio a Chraffu**Ail Linell – Goruchwylio a Chraffu**

- Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd
- Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol
- Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth
- Bwrdd AIA IGDC

Canfyddiadau a/neu adroddiadau o arolygiadau, Adroddiadau Blynyddol, Adroddiad Perfformiad i Bwyllgorau

Mae'r wybodaeth ychydig yn llai
manwl ond mae'n annibynnol i ryw
raddau

Trydedd Linell – Annibynnol

- Archwilio Mewnol
- Archwilio Cymru (Asesiad Strwythuredig)
- Archwiliadau Allanol (e.e. Cyfrifon Blynyddol ac Adroddiad Blynyddol)
- Arolygiadau AGIC (Ni fydd hyn yn rheolaidd. Mae'n debygol y bydd ar y cyd â'n Partneriaeth GIG)
- Rheoleiddwyr
- Ymweliadau ac achrediadau allanol
- Adolygiadau Annibynnol

Gallai'r wybodaeth fod yn llai
manwl ond mae'r ffynhonnell
sicrwydd yn wirioneddol
annibynnol ar y sefydliad

Y GALLU I YMDRIN Â RISG

Y Prif Weithredwr/Swyddog Atebol sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am reoli risg ond arweinydd risg yr AIA yw Ysgrifennydd y Bwrdd. Mae hyn yn golygu arwain ar ddylunio, datblygu a gweithredu Strategaeth Rheoli Risgiau a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.

Mae datganiad parodrwydd i dderbyn risg IGDC, a amlinellir isod, yn disgrifio ymagwedd IGDC at reoli risg a'r risgiau y mae'n barod i'w derbyn neu eu goddef wrth geisio cyflawni ei nodau strategol:

- Mae'n rhaid i IGDC gymryd risgiau i gyflawni ei nodau strategol a sicrhau canlyniadau buddiol i randdeiliaid
- Cymerir risgiau mewn modd ystyriol a rheoledig
- Bydd amlygiad i risgiau yn cael ei gadw i lefel effaith a ystyrir yn dderbyniol gan y Bwrdd
- Gallai'r lefel dderbyniol amrywio o bryd i'w gilydd ac felly bydd yn cael ei hadolygu a'i diwygio unwaith y flwyddyn o leiaf
- Mae'n bosibl y bydd unrhyw risg y tu allan i'n derbynioldeb risg y cytunwyd arno yn cael ei derbyn a bydd yn destun proses lywodraethu i sicrhau gwelededd a rheolaeth

- Mae'n bosibl y derbynnir rhai risgiau penodol uwchlaw'r parodrwydd i dderbyn risg y cytunwyd arno oherwydd:
 - bernir bod y tebygolrwydd y byddant yn digwydd yn ddigon isel
 - gallent arwain at wireddu gwobr/budd sylweddol
 - ystyrir eu bod yn rhy gostus i'w rheoli o ystyried blaenoriaethau eraill
 - byddai'r gost o'u rheoli yn fwy na chost yr effaith pe byddent yn cael eu gwireddu
 - nid oes ond cyfnod byr o amlygiad iddynt
 - mae angen i barti allanol gymryd camau lliniaru

Mae parodrwydd IGDC i dderbyn risg yn ystyried ei allu i ddelio â risg, sef faint o risg y mae'n fodlon ei dderbyn wrth gyflawni ei amcanion o ystyried ei adnoddau ariannol ac adnoddau eraill, cyn i rwymedigaethau a dyletswyddau statudol gael eu torri.

Mae'r goddefiant risg yn rhoi arweiniad ynghylch uwchgyfeirio risgiau ar draws ei weithgareddau. Mae'r ffeithlun isod yn rhoi manylion y meysydd risg a nodwyd ac a gytunwyd gan Fwrdd IGDC, y parodrwydd cysylltiedig a'r lefelau goddefiant, ac yn gosod disgwyladau'r Bwrdd o ran nifer y rheolaethau allweddol wrth adolygu Risgiau Corfforaethol yn y categorïau hynny yn Adroddiad Sicrwydd y Bwrdd.

Bydd yr holl risgiau'n cyd-fynd yn glir ag amcanion y sefydliad gyda chysylltiad â Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Mae gan ein Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd bum prif risg, a drafodwyd y rhain yn fanwl gyda'r Bwrdd a'u cymeradwyo ym mis Mai 2023. Yn ogystal, ym mis Gorffennaf 2022, cymeradwyodd y Bwrdd parodrwydd IGDC i dderbyn risg ar gyfer pob prif risg. Ymgwymerwyd â gwaith gan y Bwrdd drwy gydol y flwyddyn i ddiffinio'r prif risgiau i'r amcanion strategol,

Ffigur 15 - Parth Effaith Risg ac archwaeth cysylltiedig

Awyddus	Caiff Risg â sgôr o 25 ei hadrodd i'r Bwrdd	Dim
Agored	Caiff risg â sgôr o 20 neu uwch ei hadrodd i'r Bwrdd	Datblygu Gwasanaethau
Cymedrol	Caiff risg â sgôr o 15 neu uwch ei hadrodd i'r Bwrdd	Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol
Pwyllog	Caiff risg â sgôr o 12 neu uwch ei hadrodd i'r Bwrdd	Gwybodaeth – Mynediad a Rhannu, Darparu Gwasanaethau, Diogelwch a Lles, Enw Da, Ariannol
Amharod	Caiff risg â sgôr o 9 neu uwch ei hadrodd i'r Bwrdd	Cydymffurdiath, Diogelwch Dinasyddion, Gwybodaeth – Storio a chynnal

Y PRIF RISGIAU PRESENNOL YN ERBYN EIN CENADAETHAU STRATEGOL

Cenhadaeth Strategol	Prif Risgiau
1. Darparu platfform ar gyfer galluogi trawsnewid digidol	OS na fyddwn yn darparu gwasanaethau platfform cadarn a diogel wedi'u hategu gan safonau cyffredin ac egwyddorion pensaernïaeth agored, yna NAD ydym yn gallu darparu gwasanaethau digidol o ansawdd uchel, arloesol a chydgyssylltiedig OHERWYDD methu â thrawsnewid gwasanaethau'n ddigidol yn gyflym.
2. Darparu cynhyrchion a gwasanaethau digidol o ansawdd uchel	OS na fyddwn yn darparu cynhyrchion a gwasanaethau diogel, hygyrch a gwydn o ansawdd uchel YNA bydd gallu partneriaid iechyd a gofal i ddarparu a moderneiddio gwasanaethau yn cael ei beryglu GAN ARWAIN AT ofal llai effeithiol, gofal llai cynaliadwy a allai achosi niwed, gofal na fyddai'n bodloni disgwyliadau cleifion na gweithwyr proffesiynol, a gofal y mae goblygiadau cost posibl iddo.
3. Ehangu'r cofnod iechyd a gofal digidol a'r defnydd o ddulliau digidol i wella iechyd a gofal	OS methwn â darparu cofnod iechyd a gofal digidol cynhwysfawr, ymgysylltu â defnyddwyr a llywio'r broses o fabwysiadu a defnyddio ein Gwasanaethau Digidol, NI fyddwn yn gwireddu gwerth o fuddsoddiad digidol a darparu gwasanaethau GAN ARWAIN AT lai o allu i ddefnyddio gwybodaeth i lywio gofal a grymuso dinasyddion, gan arwain at ganlyniadau gwaeth.
4. Ysgogi gwell gwerth a chanlyniadau drwy arloesi	OS na fyddwn yn canolbwyntio ar ddefnyddio data ac arloesedd i wella canlyniadau YNA efallai na fyddwn yn sicrhau'r gwerth gorau i ddinasyddion GAN ARWAIN AT wasanaethau iechyd a gofal llai cynaliadwy a llai o fudd neu oedi wrth roi budd i'r cyhoedd a chleifion.
5. Bod yn bartner strategol dibynadwy ac yn sefydliad cynhwysol, ac uchelgeisiol o ansawdd uchel	OS nad ydym yn bartner y gellir ymddiried ynddo ac yn sefydliad cynhwysol sy'n perfformio'n dda YNA ni fydd pobl eisïau gweithio gyda ni ac ar ein rhan GAN ARWAIN AT fethiant i gyflawni ein huchelgais strategol o ddarparu gwasanaethau digidol o'r radd flaenaf.

Yn ystod 2023/24 oherwydd yr argyfwng economaidd, mae proffil risg ariannol IGDC wedi gweld cynnydd sylweddol yn y risgiau a nodwyd sydd â'r potensial i effeithio ar ein gallu i gyflawni amcanion a'r hyn sydd i'w gyflawni yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a'r potensial i effeithio'n fawr ar ein gallu i gyflawni amcanion yn y cyfnod ariannol nesaf. Mae'r rhain yn amrywio o fuddsoddiad ar gyfer datblygiadau digidol i lefelau staffio.

Mae marchnad gweithle gystadleuol ynghyd ag opsiynau gweithio hybrid esblygol hefyd wedi peri risg i'r sefydliad dros y 12 mis diwethaf a bydd yn parhau i wneud hynny hyd y gellir rhagweld. Mae ein tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol wedi darparu mesurau lliniaru i hyn trwy gynyddu eu rhwydwaith o adnoddau ac addasu ein polisi gweithio hybrid i alluogi ymgysylltu ag adnoddau y tu allan i'n cymuned uniongyrchol. Mae angen gwaith pellach i sicrhau bod gennym wybodaeth a set sgiliau cyfoethog ac amrywiol ymhlith ein gweithlu ac i barhau i ddatblygu'r gronfa dalent sydd ar waith ar hyn o bryd.

Yn ystod 2023-24 bu mwy o risg a bygythiad o ymosodiad seiber. Fel sefydliad rydym yn cydnabod y bydd hon yn risg hirdymor a bydd bygythiadau sy'n dod i'r amlwg yn parhau i gynyddu o ran dwyster a deallusrwydd. Fel sefydliad, rydym wedi cynnal gwerthusiad helaeth o'n risgiau presennol, rheolaethau allweddol a sicrwydd i nodi Cynllun Gwella Gwasanaeth sylweddol sy'n cynnig sicrwydd a diogelwch i'n sefydliad a hefyd i Barth GIG Cymru ehangach.




FFRAMWAITH RHEOLI RISG


Mae'r Bwrdd yn ystyried bod rheoli risg yn weithredol ac yn integredig yn elfennau allweddol o bob agwedd ar ein swyddogaethau a'n cyfrifoldebau i gyflawni ein busnes yn llwyddiannus. Mae'r Bwrdd a'i Bwyllgorau yn nodi ac yn monitro risgiau yn y sefydliad.

Caiff risgiau eu huwchgyfeirio i'r Bwrdd fel y bo'n briodol. Ar lefel weithredol, mae'r Cyfarwyddwyr Gweithredol yn gyfrifol am adolygu Cofrestrau Risg eu Cyfarwyddiaethau yn rheolaidd ac am sicrhau bod rheolaethau a chynlluniau gweithredu effeithiol ar waith a monitro cynnydd.

Ffigur 16 - Siart Llif Adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol



Ffigur 17 - Fframwaith Rheoli Risg



Mae'r fframwaith yn cynnwys strategaeth ac offer gweithredol ac yn darparu'r cyd-destun ymarferol ar gyfer staff y sefydliad o ran rheoli risg o nodi a sgorio hyd at fonitro.

YMGORFFORI RHEOLAETH RISG EFFEITHIOL

Mae aelodau o dîm llywodraethu corfforaethol IGDC yn darparu hyfforddiant rheoli risg, cymorth a chynghor i'r sefydliad. Darperir hyfforddiant llawn hefyd ar ein System Rheoli Gwybodaeth Risg cyn caniatáu mynediad, er mwyn sicrhau dull cyson o ysgrifennu risgiau, cynlluniau gweithredu lliniaru a mapio dibyniaethau:

Cyflwyniad i Reoli Risg

Mae'r hyfforddiant hwn yn rhoi trosolwg o sut i nodi, sgorio, ysgrifennu, monitro ac uwchgyfeirio risg.

Rheoli Risg ar gyfer perchnogion a thrinwyr risg

Mae'r hyfforddiant hwn yn rhoi gwybodaeth fanwl am sut i ddefnyddio system rheoli risg y sefydliad ac yn ail-ddilysu'r broses asesu a rheoli risg gan ganolbwyntio ar elfennau rheoli a sicrwydd risg.

Risg a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd

Mae'r hyfforddiant hwn yn targedu ehangu'r wybodaeth am risg strategol a'r ymagwedd a amlinellir yn y Strategaeth Risg a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Mae'n canolbwyntio ar y gwahaniaeth rhwng Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

Mae perfformiad risg cyffredinol wedi bodloni disgwyliadau dros y 12 mis diwethaf gyda'n [polisi rheoli risg](#) yn cael ei wreiddio ar draws y sefydliad ac yn cyd-fynd â'n Fframwaith Sicrwydd Bwrdd.

Mae cynnydd parhaus wedi'i wneud o ran [sefydlu Strategaeth Rheoli Risg a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd](#) (y 'Strategaeth') yn ystod 2023/24.

Mae'r Strategaeth, y polisi, a'r polisiau a gweithdrefnau cyswllt wedi'u cyfathrebu ar draws y sefydliad a darparwyd hyfforddiant. Mae prosesau newydd wedi'u cyflwyno i'r holl staff ac mae gweithgareddau glanhau data wedi gwella ansawdd data o ran ein sefyllfa proffil risg yn fawr.

Mae gennym dudalen rheoli risg fewnol i helpu staff i reoli risg yn gadarnhaol, ac mae canllawiau cyflym ar gael ochr yn ochr â'r polisiau a'r gweithdrefnau i alluogi staff i fod yn fwy call wrth sgorio ac yn fwy rhagweithiol wrth reoli eu risgiau yn unol â pholisi. Mae staff wedi'u grymuso'n well i nodi risgiau mewn modd clir a chyson ac i uwchgyfeirio lle bo'n briodol o ran gwneud penderfyniadau a lliniaru. Mae cofrestrau risg a Dangosfwrdd Risg byw ar gael i staff drwy'r mecanwaith diogel hwn ar gyfer bod yn agored, yn dryloyw a chaniatáu dull cydweithredol o nodi a rheoli risg.

Mae'r holl risgiau wedi'u halinio'n llawn â'n cenadaethau strategol ac wedi'u mapio'n glir yn erbyn eu prif faes risg a'u dibyniaethau. Mae adolygiadau risg manwl wedi helpu i nodi risgiau nad ydynt yn eiddo i IGDC eu perchnogi na'u lliniaru ac mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo drwy'r strwythurau Llywodraethu ac adolygiadau risg Clinigol i nodi a rhannu'r risgiau hyn ar gyfer perchnogaeth ac atebolrwydd cywir. O ganlyniad uniongyrchol i hyn, mae proffil risg IGDC bellach yn dod yn fwy syml a chywir gan ganiatáu i'r ffocws ar risgiau critigol a nodi risgiau sy'n dod i'r amlwg i'r sefydliad.

Ar ôl sefydlu'r Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni ym mis Tachwedd 2023, ymgwymerwyd â gwaith ar aseiniad Pwyllgor, i drosglwyddo nifer o risgiau o'r Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol i'r Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni ar gyfer craffu a goruchwylio.

Er mwyn sicrhau bod ffocws priodol yn cael ei roi ar ein [risgiau ar lefel gorfforaethol](#) (Mawrth 2024), mae Pwyllgorau ein Bwrdd yn archwilio'n ddwfn i feysydd penodol o bryd i'w gilydd.

Yn ystod 2023/24, cynhaliwyd yr archwiliadau dwfn canlynol:

RISG	Pwyllgor Penodedig
Dyled Dechnegol	Y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol
Cynaliadwyedd Ariannol	Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd
Galw ar adnoddau integreiddio.	Llywodraethu a Diogelwch Digidol
Dewis Fferyllfa - IGDC yn cynnal bwlch ariannu	Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd
Seiberddiogelwch	Y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol
Swyddogaethau data	Y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol
Ymddiriedaeth dinasyddion a rhanddeiliaid wrth ddefnyddio Data Iechyd a Gofal	Y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol
Newid Gwasanaeth	Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni

Cynhaliwyd dadansoddiad o [risgiau corfforaethol gan gynnwys y symudiad mewn risgiau corfforaethol](#) ers sefydlu IGDC, o fis Hydref 2022 i fis Medi 2023, yn ystod y flwyddyn ac fe'i cyflwynwyd i'n Bwrdd ym mis Tachwedd 2023.

Y FFRAMWAITH RHEOLI

Nid yw'n ofynnol i sefydliadau GIG Cymru gydymffurfio â phob elfen o'r [cod llywodraethu corfforaethol ar gyfer adrannau llywodraeth ganolog](#).

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y datganiad llywodraethu hwn yn rhoi asesiad o sut rydym yn cydymffurfio â phrif egwyddorion y cod fel y maent yn berthnasol i IGDC fel sefydliad sector cyhoeddus y GIG. Mae IGDC yn dilyn ysbryd y cod yn effeithiol ac yn cynnal ei fusnes yn agored ac yn unol â'r cod. Mae'r Bwrdd yn cydnabod nad yw pob rhan o'r cod sy'n ymwneud ag adrodd wedi cael sylw yn y datganiad llywodraethu hwn, ond rhoddir sylw mwy manwl iddynt yn adroddiad blynyddol ehangach y sefydliad. Nid adroddwyd am unrhyw wyriadau oddi wrth y cod llywodraethu corfforaethol.

Mae fframwaith rheoli risg IGDC yn cydymffurfio'n sylweddol ag egwyddorion Rheoli Risg y Llyfr Oren o ystyried maint, strwythur ac anghenion y sefydliad.

Nid adroddwyd am unrhyw wyriadau oddi wrth y Llyfr Oren. Gellir cyrchu'r [Llyfr Oren](#).

ELFENNAU ERAILL Y FFRAMWAITH RHEOLI

ANSAWDD A DYLETSWYDD GONESTRWYDD

Daeth IGDC o dan y Ddeddf Dyletswydd Ansawdd a Dyletswydd Gonestrwydd ym mis Ebrill 2023, yn unol â Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020. Yn unol â'r Dyletswyddau, mae IGDC wedi cynhyrchu ei [Adroddiad Blynyddol ar y Ddyletswydd](#) Ansawdd cyntaf ac [Adroddiad Blynyddol ar y Ddyletswydd Gonestrwydd](#) ar gydymffurfio â'r dyletswyddau.

Hefyd, cynhaliodd y Bwrdd sesiwn frifio ar y Ddyletswydd Ansawdd yn ystod

2023/24 i drafod yr hyn y mae Ansawdd yn ei olygu i IGDC yn ogystal â chlywed cynnydd ar weithredu'r Ddyletswydd.

TREFNIADAU LLYWODRAETHU GWYBODAETH

Mae IGDC yn gyfrifol am Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth ([Ffigur 18](#)) newydd sy'n helpu i fonitro a gwella dealltwriaeth a chyfrifoldeb Llywodraethu Gwybodaeth yng Nghymru. Heb fframwaith, mae'r her o sicrhau bod gwybodaeth ar gael i wasanaethau sy'n darparu Iechyd a Gofal yn mynd yn llawer anoddach.

Mae'r fframwaith yn allweddol i [Strategaeth Llywodraethu Gwybodaeth 2023-2026 IGDC](#), a gymeradwywyd fel rhan o'r set o Strategaethau Clinigol yng nghyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol ym mis Tachwedd 2023. Mae'r Strategaeth Llywodraethu Gwybodaeth yn amlinellu gweledigaeth, datganiad cenhadaeth a nodau strategol y tîm, gan amlygu unrhyw heriau a chyfleoedd a sut mae'r tîm yn bwriadu cyflawni eu nodau allweddol a nodir yn y Strategaeth. Mae Strategaeth Llywodraethu Gwybodaeth IGDC yn amlinellu elfennau cydrannol y fframwaith IG. Mae diweddariadau ar y cydrannau hyn yn cynnwys y canlynol:

Fframwaith ar gyfer Rhannu – Mae IGDC yn darparu swyddogaeth gymorth ganolog fframwaith Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI). Mae fframwaith WASPI yn helpu sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd i rannu gwybodaeth yn effeithiol ac yn gyfreithlon. Cyflawnir hyn drwy ymrwymiad i egwyddorion a safonau cyffredin, a chaiff ei roi ar waith drwy dempled o gytundeb rhannu gwybodaeth a ddarperir gan y fframwaith. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae WASPI wedi symud ymlaen â'r gwaith o ddod yn God Ymddygiad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae hyn wedi cynnwys ymgyrch ymgynghori cyhoeddus, gyda chanlyniadau wedi'u cyhoeddi mewn

adroddiad ymgynghori ar y Cod Ymddygiad. Mae WASPI nawr i symud ymlaen trwy achredu'r Cod trwy brosesau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, gan adeiladu ar eu cyflawniadau eraill o'r flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys cyrraedd y rhestr fer ar gyfer "Tîm Preifatrwydd y Flwyddyn" a "Tîm Llywodraethu'r Flwyddyn" yn nigwyddiad gwobrau Fforymau Risg y Byd GRC, gwaith i ddigido templedi a phrosesau a bod Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn cyfeirio ato mewn digwyddiadau, cyhoeddiadau a chanllawiau (gan gynnwys [Cynhadledd Ymarferwyr Diogelu Data 2023](#), [gweminarau cyhoeddus](#) ac [erthygl ar ddiogelu](#)).

Fframwaith Sicrwydd - Mae Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Cymru yn arf hunanasesu sy'n galluogi sefydliadau i fesur lefel eu cydymffurfiaeth yn erbyn safonau a deddfwriaeth Llywodraethu Gwybodaeth cenedlaethol. Mae'r asesiad blynyddol yn helpu sefydliadau i nodi meysydd i'w gwella a all fod o gymorth i wella Llywodraethu Gwybodaeth sefydliadau a chynlluniau gweithredu. Mae holl Fyrddau Iechyd Cymru, Ymddiriedolaethau, Awdurdodau Iechyd Arbennig, Practisau Meddygol Cyffredinol a Fferyllfeydd Cymunedol yn cwblhau'r Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth. Mae'r platfform Caforb newydd ar gyfer y Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth yn disodli cymhwysiad presennol ac mae wedi'i ddatblygu gan dîm o ddatblygwyr meddalwedd yn IGDC, gan ddarparu gwell ymarferoldeb gan weithredu'r newidiadau a gynigir o ystod o adborth gan randdeiliaid. Mae datblygiadau platfform yn parhau i weithredu gofynion y Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth yn llawn ar gyfer yr holl randdeiliaid. Bydd y datblygiadau platfform pellach yn galluogi ehangu o'r sefydliadau hynny sy'n defnyddio'r platfform presennol ar hyn o bryd i set ehangach o randdeiliaid sydd angen darparu sicrwydd Llywodraethu Gwybodaeth wrth brosesu data personol wrth ddarparu gwasanaethau GIG Cymru.

Fframwaith ar gyfer Cyngor - Mae Gwasanaeth Cymorth y Swyddog Diogelu

Data ("y Gwasanaeth") yn darparu cyngor a chymorth penodol i Feddygon Teulu ar sail tanysgrifiad, drwy ddarparu swyddogaethau rôl Swyddog Diogelu Data statudol. Mae'r Gwasanaeth yn darparu ystod o swyddogaethau gan gynnwys desg wasanaeth Llywodraethu Gwybodaeth, sesiynau hyfforddi ac ymwybyddiaeth, archwilio cyflwyniadau y Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth blynyddol a darparu ystod o ganllawiau, templedi a dogfennaeth eraill i helpu Meddygon Teulu i fodloni a gwella eu cydymffurfiaeth â deddfwriaeth hawliau gwybodaeth. Mae 83% o bractisau meddygon teulu yng Nghymru yn tanysgrifio i'r gwasanaeth hwn, gyda mewnbwn ac adborth gan danysgrifwyr yn cefnogi datblygiad a ffocws y gwasanaeth. Trwy'r gwasanaeth, cefnogir tanysgrifwyr ar bob mater sy'n ymwneud â Llywodraethu Gwybodaeth a diogelu data, gan roi'r wybodaeth a'r hyder iddynt gadw gwybodaeth cleifion yn ddiogel yn eu practis.

Fframwaith Mynediad - Mae'r Teclyn Archwilio Integredig Deallus Cenedlaethol (NIIAS) yn arf monitro rhagweithiol, sy'n nodi mynediad amhriodol posibl at gofnodion clinigol ar gyfer llawer o systemau cenedlaethol. Mae systemau cenedlaethol fel Porth Clinigol Cymru, System Gweinyddu Cleifion Cymru a Gwasanaeth Demograffig Cymru yn cynnwys llawer iawn o ddefnyddwyr yn cyrchu gwybodaeth bob dydd. Er bod staff iechyd a gofal yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i beidio â chael gafael ar unrhyw wybodaeth nad yw'n berthnasol iddynt, mae NIIAS ar waith i nodi achosion o ddefnydd amhriodol posibl. Mae NIIAS yn eistedd y tu ôl i nifer o systemau cenedlaethol i dynnu sylw at achosion o fynediad amhriodol posibl i hysbysu Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru gydag adroddiadau hysbysu dyddiol am fynediad defnyddwyr.

Mae cyfrifoldebau Llywodraethu Gwybodaeth IGDC yn cael eu monitro gan y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol trwy'r Adroddiad Sicrwydd Llywodraethu Gwybodaeth sefydlog.

Ffigur 18 - Cydrannau Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth

GWELEDIGAETH

Arwain cydymffurfiaeth o ran Llywodraethu Gwybodaeth ar gyfer system iechyd a gofal yng Nghymru

CENHADAETH

Rydym yn arwain ar y gwaith o ddatblygu a chryfhau fframwaith Cydymffurfiaeth â Llywodraethu Gwybodaeth ar gyfer y system iechyd a gofal yng Nghymru. Mae hyn yn gosod y sylfeini ar gyfer trawsnewid digidol drwy roi hyder i IGDC, rhanddeiliaid a phobl Cymru fod data 'n cael ei ddefnyddio'n gyfreithlon ac yn ddiogel.

NODAU STRATEGOL

Rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod IGDC yn parhau i fodloni ei rwymedigaethau statudol o dan ddeddfwriaeth hawliau gwybodaeth a sicrhau bod ein swyddogaeth Llywodraethu Gwybodath yn cymhwyso'r datblygiadau polisi diweddaraf ac arferion da

Darparu'r cyngor, arweiniad, gwasanaethau a chynhyrchion ar faterion llywodraethu gwybodaeth sydd eu hangen ar sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yng Nghymru i sicrhau bod data iechyd a gofal yn cael ei brosesu'n gyfreithlon ac yn briodol

Cyfrannu at ddatblygu a gweithredu polisi sy'n meithrin ymddiriedaeth cleifion a'r cyhoedd trwy ganiatáu iddynt arfer eu hawliau gwybodaeth

Ymgorffori meysydd a galluogwyr y ddyletswydd ansawdd ar draws swyddogaeth Llywodraethu Gwybodaeth IGDC

ELFENNAU'R FFRAMWAITH LLYWODRAETHU GWYBODAETH

Atebolrwydd	Sicrwydd	Rhannu Gwybodaeth	Cyngor ac Arweiniad	Hyfforddiant	Safonau	Polisi a Llywodraethu	Cydymffurfiaeth Gorfforaethol IGDC
-------------	----------	-------------------	---------------------	--------------	---------	-----------------------	------------------------------------

CYNHYRCHION A GWASANAETHAU LLYWODRAETHU GWYBODAETH

NIAS	Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth	WASPI	Gwasanaeth Swyddog Diogelu Data Meddygon Teulu	E-ddysgu	BS10008	Penderfyniadau Polisi'r Llywodraeth
	Offeryn Porth Rhannu Gwybodaeth (ISG)		Cymorth Gofal Sylfaenol			Polisiâu Cenedlaethol
			Portffolios, Rhaglenni, Prosiectau			Byrddau a Grwpiau Cenedlaethol

SYLFEINI

Mae ein cydymffurfiaeth â Deddfwriaeth Hawliau Gwybodaeth ac arferion da yn hanfodol i'n nod o fod yn bartner strategol dibynadwy (cenhadaeth 5 CTCL 2023-26 IGDC)


CYFLWYNIAD PECYN CYMORTH LLYWODRAETHU GWYBODAETH CYMRU IGDC

Mae gan IGDC gyfrifoldebau deulol am Becyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Cymru, sef ei fod yn gyfrifol am ddatblygu a chynnal y Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth ac mae'n ofynnol iddo ei gwblhau a'i gyflwyno'n flynyddol. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth 2022/23 oedd 31 Mehefin 2023.

Hwn oedd y Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth cyntaf ar y platfform technegol newydd, ac felly defnyddiwyd hwn fel peilot ar gyfer Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd Arbennig Cymru.

Roedd sgôr Pecyn Cymorth 2022/23 fel a ganlyn:

Ffigur 19 - Sgorio Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth IGDC 2022/23




Mae sgôr IGDC yn dangos lefel uchel o gydymffurfiaeth. Dim ond fel canllaw i lefel cydymffurfiaeth Llywodraethu Gwybodaeth IGDC y dylid defnyddio'r sgôr. Nid oes disgwyl i sefydliadau sy'n cwblhau'r Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth gyflawni 100% ar draws pob adran gan fod bwriad i'r hunanasesiad gael ei ddefnyddio i nodi meysydd i'w gwella. Felly, lle nad yw IGDC wedi sgorio 100% mewn rhai adrannau, nid yw hyn yn nodi nad yw'r sefydliad yn bodloni'r gofynion cyfreithiol ar gyfer yr adrannau hyn, yn fwy felly, mae'n nodi meysydd y gellir eu gwella.

O fewn pob adran o'r Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth, mae sefydliadau'n ateb cwestiynau i fodloni'r "Disgwyliadau Lleiaf" sy'n ofynnol ar gyfer yr adran honno. Mae ateb yr holl "Disgwyliadau Isafswm" mewn un adran yn caniatáu i'r sefydliad ateb cwestiynau pellach i ddangos eu bod yn gweithio uwchlaw'r isafswm yn y maes pwnc hwnnw. Gelwir hyn yn set cwestiwn "Rhagorwyd ar y Disgwyliadau".

Sylwch, newidiodd y platfform technegol newydd y ffordd y cafodd y Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth ei fesur. Felly, mae'n anodd cymharu'r sgôr hwn â chyflwyniadau blaenorol. Fodd bynnag, mae cymhariaeth â chyflwyniadau'r flwyddyn flaenorol yn dangos lefel uchel barhaus o gydymffurfiaeth Llywodraethu Gwybodaeth, gan roi hyder bod prosesau, mesurau diogelu a dogfennaeth ar waith i sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn cael ei rheoli'n briodol o fewn IGDC.

Sefydlwyd cynllun gweithredu Llywodraethu Gwybodaeth, a oedd hefyd yn ystyried adborth o archwiliad mewnol IGDC ar ei gydymffurfiaeth â Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU (GDPR y DU) (cyfeirir ato yn yr adran "Archwilio Mewnol gan gynnwys casgliad y pennaeth archwilio mewnol"). Cafodd camau gweithredu allweddol o'r cynllun eu rhannu a'u monitro drwy'r Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol.

Cyflwynwyd Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth 2023/24 ar 31 Mawrth 2024, gyda'r canlyniad a'r cynllun gweithredu i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol.



Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Cymru Welsh Information Governance Toolkit

IGDC • DHCW


STRATEGAETHAU A RHAGLENNI CYSYLLTIEDIG

Mae cyfrifoldebau IGDC wedi ehangu dros amser i gefnogi trefniadau rhannu gwybodaeth a sicrwydd ar gyfer ei strategaethau a'i raglenni mewnol ei hun yn ogystal â'r rhai sy'n cael eu darparu gan sefydliadau eraill. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Cofnod Unigol y Claf
- Yr Adnodd Data Cenedlaethol (NDR)
- Addewid Data
- Gwasanaethau Digidol ar gyfer Cleifion a'r Cyhoedd (DSPP)
- Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol
- Rheoli Meddyginiaethau
- System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru

ATAL TWYLL

Yn unol â Safonau Twyll, Llwrwobrwyo a Llygredd NHS Protect ar gyfer Cyrff y GIG (Cymru), cytunodd yr Arbenigwr Atal Twyll Lleol a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid ar ddechrau'r flwyddyn ariannol ar gynllun gwaith ar gyfer 2023/24 a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ym mis Ebrill 2023. Mae diweddariadau ar gyflawni yn erbyn y cynllun gwaith hwn wedi cael eu darparu i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn ystod 2023/24.



CYDYMFFURFIO Â DEDDFWRIAETH CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A HAWLIAU DYNOL



CYDRADDOLDEB AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT

Mae IGDC wedi ymrwymo i roi pobl wrth wraidd popeth y mae'n ei wneud ac fel sefydliad, rydym yn cael ein harwain gan ein gwerthoedd craidd. Ein huchelgais yw dathlu ein sefydliad fel man lle mae pobl yn ffynnu, yn arloesi ac yn cyflawni pethau gwych. Credwn fod ein gwerthoedd yn rhan annatod o bopeth yr ydym yn ei wneud.

DEDDF CAETHWASIAETH FODERN 2015 - TRYLOYWDER MEWN CADWYNI CYFLENWI

Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru: Cyflwynwyd Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi i amlygu'r angen, ar bob cam o'r gadwyn gyflenwi, i sicrhau bod arferion cyflogaeth da yn bodoli ar gyfer yr holl weithwyr, yn y Deyrnas Unedig a thramor.

Mae IGDC wedi ymrwymo i wreiddio egwyddorion a gofynion y Cod a Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Wrth wneud hynny, mae'n dangos yr ymrwymiad i'n rôl fel cyflogwr sector cyhoeddus, i ddileu arferion cyflogaeth anghyfreithlon ac anfoesegol, fel:

- anghydraddoldeb
- Caethwasiaeth fodern a sathru ar Hawliau Dynol
- Hunangyflogaeth ffug
- Defnydd annheg o gynlluniau ambarél a chontractau dim oriau; a
- Pheidio â thalu'r Cyflog Byw

Yn ystod 2023/24 cymerwyd y camau canlynol:

- Talwyd cyfradd cyflog byw y llywodraeth ar ei raddfa gyflog isaf, sydd ar fand cyflog 3 Agenda ar gyfer Newid ac nid yw bellach yn recriwtio i fandiau 1 neu 2 gan mai band 3 yw ein gradd mynediad bellach.
- Mae ganddo Bolisi Mynegi Pryderon (Chwythu'r Chwiban), sy'n rhoi proses deg a thryloyw i'r gweithlu, i'w grymuso a'u galluogi i godi amheunon o unrhyw fath o gamymddwyn, gan staff, cyflenwyr neu gontractwyr sy'n gweithio ar safleoedd IGDC ac mae'n cefnogi'r dim anfantais i unrhyw un sy'n mynegi pryder.

- Mae ganddo brosesau IR35 cadarn ar waith, sy'n sicrhau nad oes unrhyw ddefnydd annheg o weithwyr hunangyflogedig ffug neu weithwyr sy'n cael eu cyflogi o dan gynlluniau ambarél. Mae'r prosesau hyn hefyd yn sicrhau bod yr holl weithwyr yn cael eu cyflogi mewn modd teg a phriodol, ac mae'n atal unigolion rhag osgoi talu treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol. Mae hefyd yn sicrhau nad oes unrhyw weithiwr dan anfantais ormodol o ran cyflog, hawliau neu gyfleoedd cyflogaeth parhaol.
- Nid yw'n sicrhau gwasanaeth nac yn cyflogi staff na gweithwyr ar gontractau dim oriau
- Mae ganddo Bolisi a Gweithdrefn Recriwtio a Dethol agored a chadarn, sy'n sicrhau proses deg a thryloyw. Ymrwymadau penodol i gefnogi cydraddoldeb yw: hysbysebu cyfleoedd i ymuno â'r sefydliad mewn cymunedau ehangach ac amrywiol. Mae'r sefydliad wedi cyhoeddi ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol ym mis Ebrill 2023 sy'n cyd-fynd â'r ymrwymadau a amlinellir yn Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol y sefydliad.
 - Mae wedi gweithio'n agos mewn partneriaeth â'r undebau llafur, darparwr cymorth gweithwyr a rhwydweithiau ehangach i gefnogi gweithwyr
 - Ymrwymiad i'r Siarter Cynhwysiant Digidol - disgrifiwyd IGDC fel 'rhagorol' ar ôl derbyn Achrediad Siarter Cynhwysiant Digidol ym mis Ionawr 2024
 - Mae gan y sefydliad Bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, sy'n sicrhau nad oes unrhyw ddarpar ymgeisydd, gweithiwr neu weithiwr a gyflogir gan IGDC dan anfantais ormodol mewn unrhyw ffordd. Mae hyn yn ymwneud â chyflog, hawliau cyflogaeth, cyflogaeth, hyfforddiant a datblygiad neu gyfleoedd gyrfa. Darparwyd adroddiad cyflog rhwng y rhywiau i Fwrdd IGDC ym mis Mawrth 2024.

CYNLLUN PENSIWN

Fel cyflogwr gyda staff sydd â hawl i aelodaeth o gynllun pensiwn y GIG, mae mesurau rheoli ar waith i sicrhau y cydymffurfir â holl rwymedigaethau'r cyflogwr a gynhwysir yn rheoliadau'r cynllun. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod didyniadau cyflog, cyfraniadau'r cyflogwr a thaliadau i'r cynllun yn digwydd yn unol â rheolau'r cynllun, a bod cofnodion aelodau o'r cynllun pensiwn yn cael eu diweddarau'n gywir yn unol â'r amserlenni a nodir yn y Rheoliadau.

CRONFA RISG CYMRU

Mae Gwasanaethau Cronfa Risg Cymru (WRPS) yn fecanwaith rhannu risg, yn debyg i drefniant yswiriant, sy'n darparu indemniad i sefydliadau GIG Cymru yn erbyn hawliadau a cholledion esgeuluster. Mae'n rhaid i sefydliadau unigol y GIG dalu'r £25,000 cyntaf o hawliad neu golled, sy'n debyg i dâl dros ben polisi yswiriant. Mae'r Bwrdd, ynghyd â'i ffynonellau sicrwydd mewnol, sy'n cynnwys ei swyddogaeth archwilio mewnol a ddarperir gan Gydwasanaethau'r GIG, hefyd yn defnyddio ffynonellau sicrwydd allanol ac adolygiadau gan archwilwyr, rheoleiddwyr ac arolygwyr i lywio ac arwain ein datblygiad. Mae canlyniadau'r asesiadau hyn yn cael eu defnyddio gan y Bwrdd i lywio ein cynllunio ymhellach ac i ymgorffori llywodraethu da ar draws ystod o gyfrifoldebau'r sefydliad.

CYNLLUN CYFLAWNI LLEIHAW CARBON

Ym mis Mawrth 2024 cymeradwyodd Bwrdd IGDC Gynllun Cyflawni Datgarboneiddio (DAP) 2024-2027 diwygiedig, sy'n edrych o'r newydd ar ein hanghenion adeiladu, ynni, caffael a theithio, yn ogystal â ffynonellau allyriadau eraill, ac sy'n cynnwys map ffordd gyda chamau gweithredu hyd at 2030. Mae'r cynllun wedi cael ei ddatblygu i gefnogi'r uchelgeisiau a nodir yng Nghynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru sy'n amlinellu sut y gall GIG Cymru gyfrannu at yr adferiad a'i ymrwymiad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n mynd i'r afael â heriau parhaus hirdymor fel tlodi, annhegwch iechyd a'r newid yn yr hinsawdd. Mae IGDC wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran datgarboneiddio ein hystad yn 2023/24, fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod mwy i'w wneud.

DEDDF NEWID YN YR HINSAWDD AC ADDASU

Mae IGDC wedi cynnal yr asesiadau risg gofynnol yn unol â'n rhwymedigaethau o dan y [Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd](#). Rydym wedi adolygu Pecyn Cymorth Addasu Hinsawdd Partneriaethau Lleol ynghyd ag Asesiadau Risg cysylltiedig a byddwn yn parhau i gydymffurfio ag asesiadau pellach pan fyddant ar gael i ni.

Rydym yn cynnal Cofrestr Deddfwriaeth, sy'n cael ei hadolygu'n rheolaidd i sicrhau ein bod yn darparu'r sicrwydd gofynnol ac yn cyflawni ein rhwymedigaethau cydymffurfio. Mae gennym Gofrestr Agweddau Amgylcheddol, a ddefnyddir i asesu risg effeithiau amgylcheddol ac sy'n ein galluogi i gydymffurfio â'r Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd.

Byddwn yn parhau i sicrhau y cydymffurfir â rhwymedigaethau IGDC o dan y gofynion Adrodd ar Addasiadau. Rydym yn y broses o gydweithio â chyrff eraill y GIG ar becyn cymorth asesu risg addasu penodol i GIG Cymru. Disgwylir i hwn gael ei rannu â ni yn gynnar yn 2024/25.

Yn bresennol, gallwn gadarnhau ein bod yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd a'r Adroddiad ar Addasu. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i gynnal cydymffurfiaeth yn y maes hwn a byddwn yn cymryd yr holl gamau angenrheidiol i sicrhau ein bod yn parhau i fodloni'r rhwymedigaethau pwysig hyn.

MYNEDIAD DIAWDURDOD AT DDATA PERSONOL

Adroddir am ddigwyddiadau sy'n arwain at fynediad diawdurdod at ddata yn unol â gofynion statudol IGDC a'r Weithdrefn Weithredu Safonol ddogfenedig ar Reoli Adrodd ar Fynediad Diawdurdod at Ddata Personol. O dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data, mae achosion o fynediad diawdurdod at ddata personol yn cael eu hystyried yn achosion o danseilio diogelwch sy'n arwain at ddinistrio, colli, newid, datgelu heb awdurdod neu fynediad at ddata personol, a hynny'n ddamweiniol neu'n anghyfreithlon.

Mae'n ofynnol cynnal asesiad risg o fynediad diawdurdod at ddata personol er mwyn pennu tebygolrwydd y risg i hawliau a rhyddid yr unigolion yr effeithir arnynt. Os yw risg yn debygol, o dan Ddeddf Diogelu Data, rhaid rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am y toriad o fewn 72 awr. Gallai methu ag adrodd arwain at golled ariannol neu golled i'r enw da. Yn ogystal, efallai y bydd angen rhoi gwybod i'r unigolion hynny dan sylw'n uniongyrchol os yw'r toriad yn debygol o arwain at risg uchel i hawliau a rhyddid unigolion.

Mae ein tîm Llywodraethu Gwybodaeth yn ymchwilio'n briodol i bob achos o dorri rheolau data ac adroddir yn eu cylch i'r Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol. Lle bo'n briodol neu'n fandadol, rhoir gwybod i Lywodraeth Cymru fel rhan o adroddiad dim syndod.

Yn ystod 2023/24, fe wnaethom gofnodi cyfanswm o 3 digwyddiad ar y system Datix a arweiniodd at achosion posibl o dorri rheolau data personol. O'r

digwyddiadau hyn, nid oedd yr un ohonynt yn bodloni'r meini prawf asesu ar gyfer adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Gwnaeth archwiliad mewnol GDPR y DU (y cyfeirir ato yn yr adran "Archwiliad Mewnol gan gynnwys casgliad y pennaeth archwilio mewnol") un argymhelliad blaenoriaeth isel ar hybu ymwybyddiaeth o fewn IGDC o achosion o dorri data personol. Mae dull haenog o gyfathrebu ac ymwybyddiaeth i staff IGDC wedi'i gynllunio.

CYFARWYDDIADAU GWEINIDOGOL

Er bod sefydliadau GIG Cymru yn cael Cyfarwyddiadau Gweinidogol, nid yw'r rhain bob amser yn berthnasol i IGDC. Mae'r Cyfarwyddiadau Gweinidogol a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn yn cael eu rhestru ar wefan [Llywodraeth Cymru](#) uchod. Mae manylion y Cyfarwyddyd Gweinidogol a dderbyniwyd a'u perthnasedd i IGDC ar ddiwedd y flwyddyn 31 Mawrth 2024 wedi'u cynnwys yn [Atodiad 4](#).

TREFNIADAU CYNLLUNIO

Cyflwynwyd y CTCl i'r Bwrdd AIA ac yn olaf i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd mis Mawrth 2023. Cydnabuwyd y cynllun wedi hynny gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol drwy lythyr atebolrwydd ym mis Hydref 2023.

Mae amodau atebolrwydd IGDC i'w gweld isod:

CYFFREDINOL

Rhaid i'r **'Pum Ffordd o Weithio' a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** fod yn ganolog i ddull gweithredu'r bwrdd iechyd. Mae'n hanfodol bod eich sefydliad yn parhau i adeiladu ar y cynnydd a wnaed i ddefnyddio'r pum ffordd o weithio, sef egwyddorion datblygu cynaliadwy, i gyflawni eich cynllun. Dylai'r sefydliad sicrhau bod ei amcanion llesiant yn gyson â'i drefniadau cynllunio ac yn parhau i gael eu cefnogi ganddynt.

Rhaid i'r **Ddyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd**, sy'n weithredol o fis Ebrill 2023, fod yn sail i'ch modelau gweithredol a bydd angen dangos hyn mewn trafodaethau mewn cyfarfodydd IQPD rheolaidd a threfniadau llywodraethu eraill.

Bydd angen **arweinyddiaeth gref ond tosturiol** i ddangos ymrwymiad i staff o'r angen i fabwysiadu ffyrdd newydd o weithio. Dylai hyn annog staff o bob gradd i ddysgu gwersi o'r pandemig.

Mae galw a chapasiti a'r risgiau ariannol yn her sylweddol ar draws y system. Bydd angen gwneud dewisiadau anodd ar bob lefel a rhaid i benderfyniadau fod yn gadarn ac yn unol â threfniadau llywodraethu'r sefydliad.

Mae **newid yn yr hinsawdd** yn risg fyd-eang. Fel sefydliadau angori, dylai pob sefydliad ar draws y GIG yng Nghymru sicrhau bod trefniadau cynllunio a gwneud penderfyniadau yn ystyried risgiau'r dewisiadau a wneir ar newid yn yr hinsawdd (ar draws amcanion datgarboneiddio a chynllunio ymaddasu). Mae GIG Cymru wedi ymrwmo i'r uchelgais o gael sector cyhoeddus sero net ar y cyd erbyn 2030 ac i sicrhau gwydnwch i effeithiau hinsawdd.

Rhaid cyflwyno **adroddiadau** bob chwarter i roi diweddariad ar gynnydd yn erbyn y cynllun. Dylid adrodd yn erbyn y cerrig milltir allweddol sy'n gysylltiedig â'r chwarter hwnnw, unrhyw lithriad yn erbyn y cynllun, y cerrig milltir nesaf a lliniaru unrhyw risgiau newydd/datblygol. Dylid cyflwyno copi o'ch adroddiad Bwrdd bob chwarter i HSS-PlanningTeam@gov.wales.

Dylai sefydliadau adnewyddu eu **Set Ddata Sylfaenol (MDS)** bob chwarter fel rhan o'u hadolygiad mewnol o gynlluniau. Cyflwynwch eich datganiadau MDS chwarter dau i HSS-PlanningTeam@gov.wales erbyn 27 Hydref 2023.

CYLLID AC EFFEITHLONRWYDD

Darparu **adroddiadau misol** i Lywodraeth Cymru, yn amlinellu cyflawniad yn erbyn cynlluniau arbedion a amlinellwyd yn llythyr y Swyddog Atebol, gyda chamau unioni clir o'r proffil arfaethedig, a rhoddir sicrwydd clir i Fwrdd IGDC gyda mesurau lliniaru cysylltiedig.

Sicrhau bod **fframweithiau a methodoleg budd** yn cael eu sefydlu a sicrhau bod gan bob cynnig achos busnes achos buddion clir, bod fframweithiau buddion ar waith, a bod manteision yn cael eu holrhain.

Cefnogi datblygiad **modelau ariannu** newydd, dadansoddiad cryfach o amgylch effeithlonrwydd dyraniadol ar draws portffolios, a Chytundebau Lefel Gwasanaeth a gwasanaethau cenedlaethol i lywio model ariannu cenedlaethol ar gyfer 23/24, bydd hyn yn cynnwys mwy o dryloywder ynghylch costau Cytundebau Lefel Gwasanaeth ar gyfer yr holl bartneriaid.

LLYWODRAETHU AC YMGYSYLLTU

Datblygu **fframwaith rheoli a llywodraethu portffolio** gwell, sy'n alinio ac wedi'i integreiddio i ddatblygiad systemau a llywodraethu ehangach y GIG, er mwyn galluogi cyflwyno adroddiadau cymesur i fyrddau IGDC a byrddau gweithredol a thimau Llywodraeth Cymru a'r GIG.

Adolygu **trefniadau Cytundebau Lefel Gwasanaeth** gyda byrddau iechyd a gwasanaethau cysylltiedig i sicrhau yn ystod y flwyddyn bod pob Bwrdd Iechyd yn deall manylion y gwasanaethau a ddarperir, neu sydd i'w darparu gan IGDC yn genedlaethol, gyda chatalogau gwasanaeth clir ar gyfer pob bwrdd iechyd.

CYFLAWNI

Datblygu cynllun a **map ffordd clir ar gyfer Pensaerniaeth Genedlaethol integredig a rhyngweithredol** i alluogi golwg unigol o gleifion o bob oed a lleoliad gofal, gan gynnwys plant a phobl ifanc – gan dynnu ynghyd mewn gwaith portffolio sengl ar WICCS/WCP/WNCR ac NDR, Ap y GIG a datblygiadau EPR Gofal Sylfaenol, gan wneud y gorau o adnoddau pensaernïol a defnyddio, a sicrhau bod pensaerniaeth genedlaethol yn agored i bob bwrdd iechyd ei defnyddio i gefnogi cynllunio iechyd a gofal lleol a gwell gofal, rheoli iechyd y boblogaeth a datblygu storfeydd Data Clinigol

Sefydlu **portffolio diagnosteg** ddigidol i wneud y defnydd gorau o adnoddau ar draws rhaglenni'r portffolio hwnnw.

IGDC i weithio'n agos gyda holl bartneriaid y GIG a Gofal Cymdeithasol o ran **Strategaeth a Phecynnau Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth** trosfwaol, fel ei fod yn cefnogi darpariaeth effeithiol a diogel ar raddfa o fewn lleoliadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mae tystiolaeth fod eich Bwrdd yn dangos **Arweinyddiaeth System** ar faterion digidol a data allweddol, yn enwedig Seiberddiogelwch a Diogelwch Data, yn hanfodol.

Cwblhau datblygiad yr holl swyddogaethau blaenoriaeth o fewn y **System Gwybodaeth Canser** sydd eu hangen i ddarparu gofal cleifion

Y GWEITHLU

Atgyfnerthwyd y cynllun, mewn cydweithrediad ag AaGIC, i **ddatblygu sgiliau digidol** a phrofiad gweithlu DDaT GIG Cymru gyda mesurau clir i asesu effaith.

ADOLYGIAD O EFFEITHIOLRWYDD

Fel y Swyddog Atebol, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae fy adolygiad o'r system rheolaeth fewnol wedi'i seilio ar waith yr archwilwyr mewnol, a'r swyddogion gweithredol yn y sefydliad, sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, ac ar sylwadau gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr archwilio ac mewn adroddiadau eraill.

Mae'r Bwrdd a'i Bwyllgorau yn dibynnu ar sawl ffynhonnell o sicrwydd mewnol ac allanol sy'n dangos effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol yr Awdurdod Iechyd Arbennig ac yn cynghori lle mae meysydd i wella. Manylir ar yr elfennau hyn uchod yn y diagram o [Fframwaith Rheoli Bwrdd IGDC](#).

Mae'r prosesau sydd ar waith i gynnal ac adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol yn cynnwys:

- Goruchwyliaeth y Bwrdd a'r pwyllgor o ffynonellau sicrwydd mewnol ac allanol a dal Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Uwch Reolwyr i gyfrif
- Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Uwch Reolwyr sy'n gyfrifol am ddatblygu, gweithredu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol a'r gwelliant parhaus mewn effeithiolrwydd o fewn y sefydliad
- Goruchwyllo risg weithredol trwy'r Bwrdd a'i Bwyllgorau
- Goruchwyllo risg twyll trwy dîm Atal Twyll Lleol Caerdydd a'r Fro
- Monitro gweithrediad yr argymhellion trwy'r olrheiniwr archwilio a oruchwylir gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd
- Goruchwyllo trefniadau archwilio, rheoli risg a sicrwydd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd

Darparodd holl Bwyllgorau'r Bwrdd adroddiad blynyddol i gyfarfod Bwrdd mis Mawrth 2024 yn manylu ar y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor perthnasol yn ystod y flwyddyn a'r penderfyniadau allweddol a wnaed.

Rwy'n fodlon yn gyffredinol bod y mecanweithiau sydd ar waith i asesu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol yn gweithio'n dda a bod gan yr Awdurdod Iechyd Arbennig y cydbwysedd cywir rhwng lefel y sicrwydd a gaf gan fy Swyddogion Gweithredol, trefniadau'r Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd a Gwasanaethau Archwilio Mewnol IGDC.

ARCHWILIO MEWNOL GAN GYNNWYS CASGLIAD Y PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL

Mae Archwilio Mewnol, trwy'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd, yn rhoi llif sicrwydd i mi fel Swyddog Atebol a'r Bwrdd ar y system rheolaeth fewnol. Rwyf wedi comisiynu rhaglen o waith archwilio a gyflawnwyd yn unol â safonau archwilio mewnol y sector cyhoeddus gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Cytunir ar gwmpas y gwaith hwn gyda'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd, ac mae'n canolbwyntio ar feysydd risg sylweddol a blaenoriaethau gwella lleol.

Mae'r farn gyffredinol gan y Pennaeth Archwilio Mewnol ar lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth yn swyddogaeth o'r rhaglen archwilio hon sy'n seiliedig ar risg ac mae'n cyfrannu at y darlun o sicrwydd sydd ar gael i'r Bwrdd wrth adolygu effeithiolrwydd a chefnogi ein hymgyrch i wella'n barhaus.

Mae'r rhaglen wedi'i chyflawni'n sylweddol yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni ac mae'r newidiadau gofynnol yn ystod y flwyddyn wedi'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd, yn ogystal, mae adroddiadau cynnydd archwilio rheolaidd wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgor. Er y gwnaed mân newidiadau i'r cynllun yn ystod y flwyddyn, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn fodlon y bu digon o sylw i archwilio mewnol yn ystod y cyfnod adrodd er mwyn rhoi Barn Flynyddol i'r Pennaeth Archwilio Mewnol.

Wrth ffurfio'r Farn, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi ystyried effaith yr holl archwiliadau a gynhaliwyd, a grynhoir yn y tabl isod:

Enw'r Archwiliad	Dyddiad derbyn gan y Pwyllgor Archwilio	Sgôr Sicrwydd
Llywodraethu Corfforaethol	18/04/2023	Sylweddol
Cydymffurfiaeth Ystadau - Rheoli Gwastraff	18/04/2023	Sylweddol
Rheoli Risg	18/04/2023	Sylweddol
PADR Cynllunio Gweithlu	18/04/2023	Rhesymol
Canolfan Ragoriaeth	03/07/2023	Rhesymol
Gwella Seiberddiogelwch	03/07/2023 ([PREIFAT])	Sylweddol
Gweithio Hybrid	17/10/2023	Sylweddol
Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd	17/10/2023	Sylweddol
GDPR y DU	17/10/2023 (PREIFAT)	Sylweddol
Rheoli Stoc	17/10/2023 (PREIFAT)	Rhesymol
Gwireddu Buddion	13/02/2024	Rhesymol

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi dod i'r casgliad:

Sicrwydd Rhesymol – Gall y Bwrdd fod yn **rhesymol o sicr** fod y trefniadau sydd yn eu lle i sicrhau llywodraethu, rheolaeth risg a rheolaeth fewnol, yn y meysydd hynny sydd wedi eu hadolygu, wedi eu dylunio'n addas ac wedi eu rhoi ar waith yn effeithiol. Mae rhai materion angen sylw rheolwyr wrth gynllunio rheolaeth neu gydymffurfedd, gydag effaith isel i gymedrol ar amlygiad i risg gweddilliol, hyd nes y cânt eu datrys.

Wrth ddod i'r casgliad yma, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi nodi bod mwyafrif yr adolygiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn wedi diweddu'n bositif, a bod trefniadau rheoli cadarn yn gweithredu mewn rhai meysydd. Roedd Cynllun Archwilio Mewnol 2023/24 yn cynnwys archwiliadau o gyflawniadau gweithredol allweddol a risgiau cysylltiedig, gyda chynlluniau blaenorol yn ymgorffori risgiau sy'n gysylltiedig â sefydlu'r Awdurdod Iechyd Arbennig.

O'r farn a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn, dyrannwyd Sicrwydd Sylweddol i saith, dyrannwyd Sicrwydd Rhesymol i bedwar ac ni ddyrannwyd barn 'gyfyngedig' neu 'ddim sicrwydd' i unrhyw adroddiadau. Hefyd, bu inni gyhoeddi un adroddiad cynghorol yn ystod y flwyddyn, sydd wedi ei ystyried wrth lunio ein barn.

ARCHWILIO CYMRU ASESIAID STRWYTHUREDIG

Nod y gwaith hwn yw helpu i gyflawni gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol i fod yn fodlon bod IGDC wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau o dan adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Roedd y gwaith yn canolbwyntio'n benodol ar drefniadau IGDC mewn perthynas â llywodraethu; cynllunio strategol; rheolaeth ariannol; a rheoli'r gweithlu, asedau digidol, yr ystâd ac asedau ffisegol eraill,

Canfu casgliad cyffredinol [Asesiad Strwythuredig 2023](#) y canlynol: *“Mae IGDC yn gwreiddio trefniadau llywodraethu da ac yn awr bod yn rhaid iddo geisio datblygu ymhellach ei rôl fel partner digidol y gellir ymddiried ynddo i fanteisio ar gyfleoedd gwasanaeth digidol ledled Cymru.”*

Mae argymhellion gan Archwilio Mewnol ynghyd ag ymateb y rheolwyr yn cael eu cofnodi a chaiff hyn ei dderbyn ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd.

ANSAWDD DATA

Mae ansawdd ac effeithiolrwydd y wybodaeth a'r data a ddarperir i'r Bwrdd yn cael eu hadolygu'n barhaus ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd a gwnaed rhai diwygiadau i'r Adroddiad Perfformiad Integredig yn ystod y flwyddyn i roi mwy o eglurder.

CASGLIAD

Fel y nodir drwy'r datganiad hwn a'r Adroddiad Blynyddol, nid oes unrhyw faterion rheoli na materion llywodraethu sylweddol wedi codi yn 2023/24. Fodd bynnag, mae pwysau ariannol ar wasanaethau cyhoeddus yn parhau yn gyffredinol. Yn ogystal, gan fod dibyniaeth ar ddigidol a data yn parhau i gynyddu bob blwyddyn, mae'r bygythiad seiber yn parhau i fod yn risg uchel i IGDC barhau i'w reoli. Byddaf yn sicrhau bod ein Fframwaith Llywodraethu yn ystyried ac yn ymateb i'r angen hwn.

Llofnodwyd gan Helen Thomas



Prif Weithredwr

Dyddiad: 9 Gorffennaf 2024

**ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR
AR GYFER Y CYFNOD A DDAETH I
BEN AR 31 MAWRTH 2023**

IGDC • DHCW

Mae'r wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer yr adroddiad hwn i'w gweld yn y tablau a'r tudalennau yn yr adroddiad blynyddol y manylir arnynt isod:

CYFANSODDIAD Y BWRDD AC AELODAETH

Cyfansoddiad y Bwrdd: Mae [Atodiad 1](#) yn rhoi gwybodaeth fanwl am gyfansoddiad y Bwrdd gan gynnwys cyfarwyddwyr gweithredol ac aelodau annibynnol, sydd ag awdurdod neu gyfrifoldeb am gyfarwyddo neu reoli prif weithgareddau IGDC yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23. Mae hyn yn cynnwys enwau'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr. Mae [Tabl 1](#) hefyd yn cynnwys enwau'r cyfarwyddwyr sy'n ffurfio'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd. Mae [Atodiad 1](#) hefyd yn manylu ar y cyfarfodydd a fynychwyd yn ystod y flwyddyn a'r rolau hyrwyddwr y cytunwyd arnynt gan Aelodau'r Bwrdd ar gyfer y flwyddyn i ddod. Yn ogystal, gellir [gweld holl Aelodau'r Bwrdd ar wefan yr Awdurdodau Iechyd Arbennig](#).

FRESTR O FUDDIANNAU

Er mwyn sicrhau bod penderfyniadau teg a chyfiawn yn cael eu gwneud, mae'n ofynnol i'r Bwrdd ddatgan unrhyw fuddiannau a allai wrthdaro â chyfrifoldebau'r sefydliad. Caiff ei diweddarau'n rheolaidd a'i derbyn gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ar ran y Bwrdd, ac fe'i cyhoeddir ar wefan IGDC Cymru [o dan ddogfennau allweddol](#). Gellir cael copi caled gan Ysgrifennydd y Bwrdd [ar gais](#).

DIGWYDDIADAU SY'N GYSYLLTIEDIG Â DATA PERSONOL

Rhoddir gwybodaeth am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â data personol a adroddwyd yn ffurfiol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a "digwyddiadau anffafriol difrifol" yn ymwneud â cholli data neu dorri cyfrinachedd yn y [Datganiad Llywodraethu Blynyddol](#).

ENVIRONMENTAL, SOCIAL AND COMMUNITY ISSUES

Mae manylion [strategaeth ddatgarboneiddio](#) IGDC a'i gynnydd yn hynny o beth ar gael yn yr Adroddiad Perfformiad.

DATGANIAD AR GYFER DEILIAID GWYBODAETH Y SECTOR CYHOEDDUS

Mae IGDC yn cadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â'r dyraniad costau a'r gofynion codi tâl a nodir yng nghanllaw Trysorlys EF yn ystod y flwyddyn.

**DATGANIAD LLYWODRAETHU
BLYNYDDOL. SWYDDOGATEBOL
YR AWDURDOD IECHYD
ARBENNIG.**

IGDC • DHCW

Mae Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo mai'r Prif Weithredwr ddylai fod yn Swyddog Atebol i'r Awdurdod Iechyd Arbennig.

Mae cyfrifoldebau perthnasol Swyddogion Atebol, gan gynnwys eu cyfrifoldeb am briodoldeb a chysondeb y cyllid cyhoeddus maen nhw'n atebol amdano, ac am gadw cofnodion priodol, yn cael eu manylu ym Memorandwm y Swyddog Atebol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Gallaf gadarnhau:

- Hyd eithaf fy ngwybodaeth, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr yr endid yn ymwybodol ohoni, ac fy mod i fel y Swyddog Atebol wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd i wneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac wedi cadarnhau bod archwilwyr yr endid yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.
- Bod adroddiad blynyddol a chyfrifon IGDC yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac fy mod yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon a'r dyfarniadau sy'n ofynnol ar gyfer penderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae'r Swyddog Atebol yn gyfrifol am awdurdodi cyhoeddi'r datganiadau ariannol ar y dyddiad y cawsant eu hardystio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, rwyf wedi cyflawni'n briodol y cyfrifoldebau a nodwyd yn y llythyr sy'n fy mhenodi fel Swyddog Atebol.

Llofnodwyd gan Helen Thomas



Prif Weithredwr

Dyddiad: 9 Gorffennaf 2024



DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R CYFARWYDDWYR

IGDC • DHCW

Mae'n ofynnol i'r cyfarwyddwyr, o dan Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae Gweinidogion Cymru, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys, yn rhoi cyfarwyddyd y dylai'r cyfrifon hyn roi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod Iechyd Arbennig ac o incwm a gwariant yr Awdurdod Iechyd Arbennig ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r cyfrifon hyn, mae'n ofynnol i'r cyfarwyddwyr wneud y canlynol:

- cymhwyso ar sail gyson egwyddorion cyfrifyddu a osodwyd gan Weinidogion Cymru gyda chymeradwyaeth y Trysorlys
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n gyfrifol ac yn ddarbodus
- datgan p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelwyd ac a esboniwyd yn yr adroddiad.

Mae'r cyfarwyddwyr yn cadarnhau eu bod nhw wedi cydymffurfio â'r gofynion uchod wrth baratoi'r cyfrifon.

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu cywir, sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol sefyllfa ariannol yr awdurdod ar unrhyw adeg, a'u galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio â'r gofynion a amlinellir yn y cyfarwyddyd uchod gan Weinidogion Cymru.

Drwy Orchymyn y Bwrdd




Simon Jones

Ar ran y Cadeirydd



Helen Thomas

Prif Weithredwr



Claire Osmundsen-Little

Cyfarwyddwr Cyllid

Dyddiad: 9 Gorffennaf 2024



ADRODDIAD AR DÂL A STAFF

IGDC • DHCW

ADRODDIAD AR DÂL

Mae'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â thâl yr uwch reolwyr a gyflogir gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC). Y diffiniad o "Uwch Reolwr" yw: 'yr unigolion hynny mewn swyddi uwch sydd ag awdurdod neu gyfrifoldeb dros gyfarwyddo neu reoli prif weithgareddau corff y GIG. Mae hyn yn golygu'r rhai sy'n dylanwadu ar benderfyniadau'r endid yn ei gyfanrwydd yn hytrach na phenderfyniadau cyfarwyddiaethau neu adrannau unigol.' O ran IGDC, ystyrir mai'r uwch reolwyr yw mynychwyr rheolaidd cyfarfodydd y Bwrdd, h.y. Aelodau o'r Tîm Gweithredol a'r Aelodau Annibynnol.

Mae trefniadau cyflog presennol y sector cyhoeddus yn gymwys i bob aelod o staff gan gynnwys y Tîm Gweithredol.

Mae pob aelod o'r Tîm Gweithredol ar bwyntiau cyflog yn hytrach na graddfeydd cyflog.

Mae perfformiad y Tîm Gweithredol yn cael ei asesu yn erbyn amcanion personol a pherfformiad cyffredinol yr Awdurdod Iechyd Arbennig. Nid yw'r Awdurdod Iechyd Arbennig yn gweithredu cynllun tâl cysylltiedig â pherfformiad.

Cafwyd rhai taliadau i gyn Weithredwyr neu gyn uwch-reolwyr eraill yn ystod y flwyddyn, a manylir ar y rhain yn y [Tabl 1](#).

Gall y cyfansymiau yn rhai o'r tablau canlynol fod yn wahanol i'r rhai yn y Cyfrifon Blynyddol gan eu bod yn cynrychioli staff yn y swydd ar 31 Mawrth 2024 tra bod y Cyfrifon Blynyddol (nodyn 9.2) yn dangos nifer y gweithwyr ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn.

Tryloywder Tâl Uwch Reolwyr yn y Sector Cyhoeddus Datganoledig yng Nghymru - [Canllaw ar Drechu Arferion Cyflogaeth Annheg a Hunangyflogaeth Ffug](#)

Y PWYLLGOR TÂL A THELERAU GWASANAETH

Mae'r cyflog a'r telerau ac amodau cyflogaeth ar gyfer y Tîm Gweithredol a'r uwch-reolwyr wedi cael, ac yn mynd i gael eu pennu gan y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth, o fewn y fframwaith a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae aelodau Pwyllgor Tâl yr Awdurdod Iechyd Arbennig i gyd yn Aelodau Annibynnol o'r Bwrdd. Cadeirydd yr Awdurdod Iechyd Arbennig sy'n cadeirio'r Pwyllgor. Adolygir Cylch Gorchwyl y Pwyllgor yn flynyddol. Ceir manylion am aelodaeth y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth yn [Atodiad 1](#).

DATGELIADAU CYFLOG A PHENSIYNAU

Tablau datgelu cyflogau a phensiynau (heb eu harchwilio) – ffigur cyfanswm taliad sengl.

Mae'r Adroddiad hwn ar Daliadau yn cynnwys ffigur cyfanswm taliad sengl. Mae swm y buddiannau pensiwn ar gyfer y flwyddyn sy'n cyfrannu at un ffigur y cyfanswm yn cael ei gyfrifo ar sail y canllawiau a ddarperir gan Asiantaeth Pensiynau Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG.

Mae'r swm a gynhwysir yn y tabl ar gyfer buddiannau pensiwn yn seiliedig ar y cynnydd mewn pensiwn cronedig wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant. Bydd hyn yn gyffredinol yn cymryd i ystyriaeth blwyddyn ychwanegol o wasanaeth, ynghyd ag unrhyw newidiadau mewn cyflog pensiwnadwy. Nid yw hyn yn swm sydd wedi cael ei dalu i unigolyn gan yr Awdurdod Iechyd Arbennig yn ystod y flwyddyn; mae'n gyfrifiad sy'n defnyddio gwybodaeth o'r tabl buddiannau pensiwn.

Gall y ffigurau hyn gael eu dylanwadu gan sawl ffactor e.e. newidiadau mewn cyflog unigolyn, p'un a ydynt yn dewis gwneud cyfraniadau ychwanegol i'r cynllun pensiwn o'u cyflog, a ffactorau prisio eraill sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn cyfan.

Mae'r datgeliadau cyflogau a phensiynau yn adlewyrchu gwybodaeth yr uwch-reolwyr. Yn 2023/24, mae'r uwch dîm rheoli yn cynnwys y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r Aelodau Annibynnol (Cyfarwyddwyr Anweithredol), Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl, Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol ac Ysgrifennydd y Bwrdd.

TABL 1 - FFIGUR CYFANSWM TÂL SENGL 2023/24

Enw	(a) Cyflog (£'000) £5k bandiau	(b) Taliadau bonws (£'000) £5k bandiau	(c) Buddiant mewn nwyddau £ (i'r £100 agosaf £100)	(d) Buddiannau pensiwn*** £'000 (i'r £1000 agosaf)	(e) Cyfanswm £'000 £5k bandiau
Swyddogion Gweithredol ac Uwch Reolwyr					
Helen Thomas	160 - 165	-	-	0	160 - 165
Claire Osmundsen-Little	130 - 135	-	-	32	160 - 165
Chris Darling	105 - 110	-	-	4	110 - 115
Rhidian Hurle	160 - 165	-	-	50	210 - 215
Sarah-Jane Taylor	120 - 125	-	-	N/A	120 - 125
Samantha Hall	115 - 120	-	-	27	145 - 150
Sam Lloyd	125 - 130	-	-	28	150 - 155
Ifan Evans (1)	120 - 125	-	-	7	125 - 130

(1) Cafodd Ifan Evans ei secondio o Lywodraeth Cymru am y flwyddyn gyfan

*** Cyflwynwyd ffigurau pensiwn cyn y cynnydd cyflog uwch iawn i reolwyr. Er nad yw'r ffigurau hyn wedi'u cynnwys, ni fyddent yn cael effaith sylweddol ar fuddion pensiwn

TABL 2 - FFIGUR CYFANSWM TÂL SENGL 2023/24

Enw	(a) Cyflog (£'000) £5k bandiau	(b) Taliadau bonws (£'000) £5k bandiau	(c) Buddiant mewn nwyddau £ (i'r £100 agosaf £100)	(d) Buddiannau pensiwn*** £'000 (i'r £1000 agosaf)	(e) Cyfanswm £'000 £5k bandiau
Cyfarwyddwyr Anweithredol					
Simon Jones	40 - 45	-	-	-	40 - 45
Marian Jones	5 - 10	-	-	-	5 - 10
Ruth Glazzard	20 - 25	-	-	-	20 - 25
David Selway	5 - 10	-	-	-	5 - 10
Rowan Gardener (2)	5 - 10	-	-	-	5 - 10
Marilyn Bryan-Jones	5 - 10	-	-	-	5 - 10
Alastair Klaas Neill	5 - 10	-	-	-	5 - 10

(2) Gadawodd Rowan Gardner ar 31 Ionawr 2024 – Y cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn yw £5K-£10K

*** Pension Figures were submitted prior to the very senior manager pay uplift. Although these Figures have been excluded, they would not have a material impact on pension benefits

TABL 3 - DATGELIADAU CYFLOG A PHENSIYNAU 2022/23

Enw	(a) Cyflog (£'000) £5k bandiau	(b) Taliadau bonws (£'000) £5k bandiau	(c) Buddiant mewn nwyddau £ (i'r £100 agosaf £100)	(d) Buddiannau pensiwn*** £'000 (i'r £1000 agosaf)	(e) Cyfanswm £'000 £5k bandiau
Swyddogion Gweithredol ac Uwch Reolwyr					
Helen Thomas	150 - 155	-	-	***	150 - 155
Claire Osmundsen-Little	125 - 130	-	-	30	155 - 160
Chris Darling	100 - 105	-	-	88	190 - 195
Rhidian Hurle	155 - 160	-	-	76	230 - 235
Carwyn Lloyd-Jones (1)	30-35	-	-	8	35-40
Sarah-Jane Taylor (2)	105-110			N/A	105-110
Samantha Hall (3)	45-50			11	55-60
Sam Lloyd (4)	25-30			6	30-35
Gareth Davis (5)	60-65			N/A	60-65
Ifan Evans (6)	120-125			97	215-220

(1) Perfformiodd Carwyn Lloyd-Jones y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithredol Dros Dro rhwng 17 Hydref 2022 a 15 Ionawr 2023 (91 Diwrnod) - Y cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn yw £120K-£125K

(2) Dechreuodd Sarah-Jane Taylor ar 2 Mai 2022 - Y cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn yw £115K-£120K

(3) Dechreuodd Samantha Hall 1 Tachwedd 2022 - Y cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn yw £115K-£120K

(4) Dechreuodd Sam Lloyd ar 16 Ionawr 2023 - Y cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn yw £120K-£125K

(5) Gareth Davis Gadawodd 23 Hydref 2022 - Cyfwerth â blwyddyn lawn yw £120K-£125K

(6) Cafodd Ifan Evans ei secondio o Lywodraeth Cymru am y flwyddyn gyfan

Enw	(a) Salary (£'000) £5k bandiau	(b) Bonus payments (£'000) £5k bandiau	(c) Benefits in kind £ (to the nearest £100)	(d) Pension benefits £'000 (to the nearest £1000)	(e) Total £'000 £5k bandiau
Cyfarwyddwyr Anweithredol					
Simon Jones	40 - 45	-	-	-	40 - 45
Marian Jones	5 - 10	-	-	-	5 - 10
Ruth Glazzard	20 - 25	-	-	-	20 - 25
David Selway	5 - 10	-	-	-	5 - 10
Rowan Gardener	5 - 10	-	-	-	5 - 10
Grace Quantock (1)	0 - 5	-	-	-	0 -5
Marilyn Bryan-Jones (2)	5-10	-	-	-	5-10
Alastair Klaas Neill (3)	5-10	-	-	-	5-10

(1) Gadawodd Grace Quantock 17 Mehefin 2022 – Cyfwerth â blwyddyn lawn yw £5K-£10K

(2) Dechreuodd Marilyn Bryan-Jones ar 15 Gorffennaf 2022 – Cyfwerth â blwyddyn lawn yw £5K-£10K

(3) Dechreuodd Alistair Klaas Neill ar 8 Awst 2022 – Cyfwerth â blwyddyn lawn yw £5K-£10K

GWERTHOEDD TROSGLWYDDO CYFWERTH AG ARIAN PAROD Y DATGELIAD CYFLOGAU A PHENSIYNAU

Y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yw gwerth cyfalafedig buddiannau'r cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol, wedi ei asesu gan actwari. Y buddion y pennir eu gwerth yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn dichonol sydd i'w dalu o'r cynllun i wŷr neu wraig.

Taliad yw'r Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn, i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth yn y cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae datgelu yn berthnasol iddi.

Mae'r ffigurau Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yn cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi ei drosglwyddo i gynllun pensiwn y GIG. Maen nhw hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod, o ganlyniad iddo ef neu hi brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun.

Cyfrifir y Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yn unol â'r canllawiau a'r fframwaith a gynigir gan Sefydliad a Chyfadrannau yr Actiwariadaid. **CYNNYDD GWIRIONEDDOL MEWN GWERTH TROSGLWYDDO CYFWERTH AG ARIAN PAROD.** Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod sy'n cael ei ariannu gan y cyflogwr. Mae'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall), ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

TABL 4 - TABLAU DATGELU CYFLOG A PHENSIWN (WEDI'U HARCHWILIO) - CYFANSWM SENGL FFIGUR TALIADAU BUDDION PENSIWN 2023-24

Enw a Theitl	(a) Pensiwn cronedig ar oedran pensiwn ar 31/03/24 a'r cyfandaliad cysylltiedig (bandiau of £5,000) £000	(b) Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn (bandiau of £2,500) £000	(c) Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod ar 31/03/2024 i'r £1,000 agosaf £000	(d) Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod ar 31/03/23 i'r £1,000 agosaf £000	(e) Cynnydd gwirioneddol mewn Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod i'r £1,000 agosaf £000	(f) OS YW'N BERTHNASOL Cyfraniad y cyflogwr i'r cyfrif pensiwn partneriaeth £000
Swyddogion Gweithredol ac Uwch Reolwyr						
Ms Helen Thomas Chief Executive Officer	60-65 plus lump sum of 165-170	25-27.5	1,408	1,090	209	N/A
Ms Claire Osmundsen-Little Executive Director of Finance	15-20	0-2.5	251	168	66	N/A
Mr Chris Darling Board Secretary	25-30 plus lump sum of 70-75	25-27.5	528	344	150	N/A
Mr Rhidian Hurle Executive Medical Director	65-70 plus lump sum of 180-185	57.5-60	1,576	1,121	342	N/A
Mrs. Samantha Hall, Director of Primary Care and Mental Health	0-5	0-2.5	46	11	34	N/A
Mr. Sam Lloyd, Executive Director of Operations	10-15 plus lump sum of 25-30	0-2.5	248	168	63	N/A
Mr. Ifan Evans, Executive Director of Strategy	35 - 40	0-2.5	661	533	0	N/A

Cyflwynwyd ffigurau pensiwn cyn y cynnydd cyflog uwch iawn i reolwyr. Er nad yw'r ffigurau hyn wedi'u cynnwys, ni fyddent yn cael effaith sylweddol ar fuddion pensiwn

TABLE 5 - SALARY AND PENSION DISCLOSURE TABLES (AUDITED) - SINGLE TOTAL FIGURE OF REMUNERATION PENSION BENEFITS 2022-23

Enw a Theitl	(a) Pensiwn cronedig ar oedran pensiwn ar 31/03/24 a'r cyfandaliad cysylltiedig (bandiau of £5,000) £000	(b) Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn (bandiau of £2,500) £000	(c) Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod ar 31/03/2024 i'r £1,000 agosaf £000	(d) Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod ar 31/03/23 i'r £1,000 agosaf £000	(e) Cynnydd gwirioneddol mewn Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod i'r £1,000 agosaf £000	(f) OS YW'N BERTHNASOL Cyfraniad y cyflogwr i'r cyfrif pensiwn partneriaeth £000
Swyddogion Gweithredol ac Uwch Reolwyr						
Ms Helen Thomas Chief Executive Officer	55-60 plus lump sum of 120-125	0	1,090	1,052	0	N/A
Ms Claire Osmundsen-Little Executive Director of Finance	10-15	0-2.5	168	132	16	N/A
Mr Chris Darling Board Secretary	25-30 plus lump sum of 40-45	12.5-15	344	265	57	N/A
Mr Rhidian Hurle Executive Medical Director	60-65 plus lump sum of 115-120	10-12.5	1,121	989	75	N/A
Dr. Carwyn Lloyd-Jones, Interim Executive Director of Operations	5-10 plus lump sum of 10-15	0-2.5	520	465	27	N/A
Mrs. Samantha Hall, Director of Primary Care and Mental Health	0-5	0-2.5	11	0	5	N/A
Mr. Sam Lloyd, Executive Director of Operations	5-10 plus lump sum of 25-30	0-2.5	168	0	5	N/A
Mr. Ifan Evans, Executive Director of Strategy	35-40	5-7.5	553	447	63	N/A

DATGELIADAU CYFLOG TEG

PERTHYNAS TÂL CYDNABYDDIAETH

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng tâl cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr / cyflogai sy'n cael y cyflog uchaf yn ei sefydliad a'r 25ain canradd, canolrif a 75ain canradd o dâl cydnabyddiaeth gweithlu'r sefydliad.

TABL 6 - MAE'R YSTOD HOLL STAFF YN CYNNWYS CYFARWYDDWYR (GAN GYNNWYS Y CYFARWYDDWR SY'N CAEL Y CYFLOG UCHAF) AC NID YW'N CYNNWYS BUDDION PENSIWN YR HOLL WEITHWYR.

	2023 -2024	2023 -2024	2023 -2024
	£000	£000	£000
Cyfanswm cyflog a buddion	Prif Weithredwr	Cyflogai	Cymhareb
Cymhareb cyflog 25ain canradd	162.5	35.9	4.5:1
Cyflog canolrifol	162.5	44.2	3.7:1
Cymhareb cyflog 75ain canradd	162.5	52.0	3.1:1
Cydran cyflog y cyfanswm cyflog a budd-daliadau			
Cymhareb cyflog 25ain canradd	162.5	35.1	
Cyflog canolrifol	162.5	43.3	
Cymhareb cyflog 75ain canradd	162.5	51.7	

Cyfanswm cyflog a buddion	Cyfarwyddwr â'r Cyflog Uchaf	Cyflogai	Cymhareb
Cymhareb cyflog 25ain canradd	162.5	35.9	4.5:1
Cyflog canolrifol	162.5	44.2	3.7:1
Cymhareb cyflog 75ain canradd	162.5	52.0	3.1:1
Cydran cyflog y cyfanswm cyflog a budd-daliadau			
Cymhareb cyflog 25ain canradd	162.5	35.1	
Cyflog canolrifol	162.5	43.3	
Cymhareb cyflog 75ain canradd	162.5	51.7	

	2022 -2023	2022 -2023	2022 -2023
	£000	£000	£000
Cyfanswm cyflog a buddion	Prif Weithredwr	Cyflogai	Cymhareb
Cymhareb cyflog 25ain canradd	152.5	33.7	4.5:1
Cyflog canolrifol	152.5	41.8	3.6:1
Cymhareb cyflog 75ain canradd	152.5	49.9	3.1:1
Cydran cyflog y cyfanswm cyflog a budd-daliadau			
Cymhareb cyflog 25ain canradd	152.5	33.4	
Cyflog canolrifol	152.5	41.2	
Cymhareb cyflog 75ain canradd	152.5	49.3	

Total pay and benefits	Cyfarwyddwr â'r Cyflog Uchaf	Cyflogai	Cymhareb
Cymhareb cyflog 25ain canradd	157.5	33.7	4.7:1
Cyflog canolrifol	157.5	41.8	3.8:1
Cymhareb cyflog 75ain canradd	157.5	49.9	3.2:1
Cydran cyflog y cyfanswm cyflog a budd-daliadau			
Cymhareb cyflog 25ain canradd	157.5	33.4	
Cyflog canolrifol	157.5	41.2	
Cymhareb cyflog 75ain canradd	157.5	49.3	

Mae'r gymhareb cyflog canolrifol ar gyfer y flwyddyn ariannol berthnasol yn gyson â'r polisiau cyflog, gwobrwyo a dilyniant ar gyfer gweithwyr yr endid yn eu cyfanrwydd.

ADRODDIAD STAFF**NIFER YR UWCH AELODAU STAFF**

Ar 31 Mawrth 2024, roedd 15 aelod ar y Bwrdd, gyda phump ohonynt yn Gyfarwyddwyr Gweithredol, tri Chyfarwyddwr a saith Aelod Annibynnol gan gynnwys Cadeirydd ac Is-Gadeirydd IGDC.

NIFEROEDD A CHYFANSODDIAD STAFF AR 31 MAWRTH 2024**TABL 7 - DADANSODDIAD O NIFER Y STAFF FESUL GRŴP**

Grŵp Staff	Staff Parhaol	Staff ar Secondiad Mewnol	Staff Asiantaeth	Hyfforddai Arbenigol (SLE)	Staff Eraill	Cyfanswm	Blwyddyn Ariannol
Staff Gweinyddol, Clerigol ac Aelodau'r Bwrdd	1154	12	8	0	2	1176	2023-24
Meddygol a Deintyddol					1	1	2023-24
Staff Gweinyddol, Clerigol ac Aelodau'r Bwrdd	1016	5	9	0	0	1030	2022-23


TABL 8 - DADANSODDIAD YN ÔL RHYW Y BWRDD A'R CYFARWYDDWYR - DIWEDDARWYD AR 31/03/24

Swydd	Benyw	Gwryw	
Cadeirydd		1	1
Prif Swyddog Gweithredol	1		1
Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol	1		1
Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth		1	1
Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau		1	1
Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol		1	1
Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol	1		1
Ysgrifennydd y Bwrdd		1	1
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl	1		1
Aelod Annibynnol - Is-gadeirydd	1		1
Aelod Annibynnol	3	2	5
Cyfanswm Terfynol	8	7	15

TABL 9 - DADANSODDIAD YN ÔL RHYW FESUL TÎM GWEITHREDOL A CHYFLOGEION ERAILL AR 31 MAWRTH 2024

Cyfansoddiad Staff	Benyw	Gwryw	
Uwch Weithwyr (Tîm Gweithredol, Cyfarwyddwyr, Aelodau Annibynnol)	8	7	15
Gweithwyr Eraill	530	699	1229
Secondiad Mewnol	11	8	19
Cyfanswm Terfynol	549	715	1263
% % Holl Staff	43%	57%	

FFIGUR 20 - DADANSODDIAD YN ÔL RHYW AC YN ÔL BAND



DATA ABSENOLDEB OHERWYDD SALWCH

Mae'r Tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol yn gweithio'n agos gyda phob Cyfarwyddiaeth i gefnogi a rheoli lles pobl ac absenoldeb salwch IGDC. Datblygir adroddiadau perfformiad misol ar gyfer Cyfarwyddiaethau a chydweithwyr Gweithredol i fonitro salwch. Mae IGDC hefyd yn cynnig mynediad at Wasanaeth Iechyd Galwedigaethol i'w weithwyr a mynediad at Raglen Gymorth i Weithwyr, y gall aelodau teulu ei defnyddio am ddim hefyd.

Y prif reswm dros absenoldeb salwch ar draws y sefydliad yn ystod 2023/2024 oedd straen a phryder, a achoswyd yn bennaf gan amgylchiadau y tu allan i'r amgylchedd gwaith. Mae ymyriadau Iechyd a Lles i gefnogi'r unigolyn a'i reolwyr yn cael eu datblygu a'u monitro'n rheolaidd. Mae Grŵp Iechyd a Lles IGDC hefyd yn cyfarfod bob yn ail fis i sicrhau adolygiad parhaus o'r cymorth Lles a gynigir ac i ddatblygu ffyrdd arloesol o gyflwyno mentrau i alluogi Iechyd a Lles ein pobl.


Mae tabl 5 isod yn dangos y lefelau absenoldeb salwch yn ystod 2023/24. Y gyfradd gyfredol ar 31 Mawrth 2024 yw 2.70% sy'n meincnodi'n ffafriol iawn ar draws GIG Cymru.

TABL 11 - NIFER Y DIWRNODAU GWAITH A GOLLWYD OHERWYDD SALWCH

Nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd oherwydd salwch	
Diwrnodau Calendr a Gollwyd	14886
Diwrnodau Calendr a Gollwyd oherwydd Salwch (Tymor Byr)	6065
Diwrnodau Calendr a Gollwyd oherwydd Salwch (Tymor Hir)	8821
% y Gweithwyr â Dim Absenoldeb	49.89%
% y Gweithwyr ag Absenoldeb	50.11%

Y ffigur below isod yn dangos y lefelau absenoldeb salwch yn ystod 2023/24. Y gyfradd gyfredol ar 31 Mawrth 2024 yw 2.70% sy'n meincnodi'n ffafriol iawn ar draws GIG Cymru.

FFIGUR 21 - CANRAN ABSENOLDEB SALWCH 2023/24



POLISIÂU A WEITHREDWYD YN YSTOD Y FLWYDDYN ARIANNOL

Mae asesiad yn cael ei gynnal ar holl bolisiau a gweithdrefnau IGDC o'u heffaith ar gydraddoldeb yn erbyn y naw nodwedd warchoddedig, er mwyn sicrhau nad ydynt yn gwahaniaethu yn erbyn pobl sy'n gwneud cais i weithio i IGDC neu sy'n cael eu cyflogi gan IGDC. Mae'r holl bolisiau a gweithdrefnau ar gael trwy [wefan IGDC](#).

Mabwysiadwyd a gweithredwyd polisiau ychwanegol drwy gydol y flwyddyn, ac maent fel a ganlyn:

- Gweithdrefn Polisi Lles Iechyd a Diogelwch
- Delio â Phryderon a Chwynion
- Polisi Dilysu
- Polisi ar Bolisiau
- Adolygiad Gwerthuso a Datblygu
- Polisi Rheoli Gwastraff
- Polisi Gweithio Hybrid
- Polisi Adfer ar ôl Trychineb
- Polisi Diogelwch Dŵr

IECHYD A LLES, CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT

IECHYD A LLES

Mae iechyd a lles ein pobl yn parhau i fod yn hollbwysig. Yn 2023-24, llwyddwyd i gadw'r Safon Iechyd Corfforaethol Aur ac ailardystio ar gyfer BS76000 – Safon Gwerthfawrogi Pobl a BS76005 Safonau Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Mae'r Rhwydwaith Iechyd a Lles, sy'n cynnwys gwirfoddolwyr amrywiol IGDC ar draws y sefydliad, yn arwain ar hyrwyddo ymgyrchoedd a mentrau cenedlaethol a lleol i gefnogi gwydnwch a lles ein pobl. Mae hyn yn darparu cyfeiriad defnyddiol o wybodaeth a chymorth i'n gweithlu. Mae'r canlynol yn ddiweddiariad ar waith y rhwydwaith.

Cefnogaeth i Ymgyrchoedd Cenedlaethol - Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, Diwrnod Rhyngwladol y Dynion, Diwrnod Ffitrwydd Cenedlaethol, Diwrnod Ymwybyddiaeth Menopos, Diwrnod Hawliau Gofalwyr, Ionawr Sych, Bore Coffi Mwyaf y Byd a Phaned Dydd Llun.

Mentrau Lleol y Rhwydwaith Iechyd a Lles - Menter Prosiectau Cymunedol (yn enwedig cefnogi'r prosiectau Cynhwysiant Digidol), Mentrau Lles y Gaeaf drwy'r tymor, Dosbarth Meistr Costau Byw, Nabdod eich Rhifau - Pwysedd Gwaed y DU, Wythnos Siarad Arian, Her Gamu, Cystadleuaeth Ffotograffau Iechyd a Lles, Ymwybyddiaeth o'r Haul, Beicio i'r Gwaith a chysiau The Body Hotel (Symud Hunan-dosturi).



CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT

Datblygwyd y [Cynllun Cydraddoldeb Strategol](#), a oedd yn ymgorffori ymrwymadau gwrth-fwlio a gwrth-hiliaeth sefydliadol, mewn partneriaeth â Chynrychiolwyr Ochr Staff, Staff IGDC a rhanddeiliaid allanol allweddol ac fe'i cymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2023 ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Ebrill 2023. Mae hyn yn parhau i fod yn arwydd allweddol o bwysigrwydd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i IGDC. Roedd y cynllun yn cynnwys amrywiol ymrwymadau i'w cyflawni. Fel rhan o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, sefydlwyd rhwydwaith Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ym mis Mai 2023 i ddarparu allfa newydd ar gyfer mewnbwn a llais i weithwyr. Ategir Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2023-2027 gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru 2022, a Chynllun Gweithredu LHDTG+ Cymru 2010. Mae IGDC yn dangos ymrwymiad i feithrin amgylchedd sy'n cefnogi amgylchedd gwrth-hiliol a gwrth-fwlio a gyflawnir trwy ymddygiad modelu rôl sy'n cyd-fynd â'n gwerthoedd craidd, a thrwy feithrin diwylliant cynhwysol. Lle mae pawb yn ffynnu a lle mae cyfle cyfartal i bawb.

Mae'r cynllun gweithredu yn nodi pum ymrwymiad allweddol, a ategir gan ein Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol. Isod mae nifer o ddatblygiadau i fodloni'r ymrwymadau hyn.

Ymrwymiad 1 - Cefnogi ein Pobl

Rhwydwaith Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant IGDC – cynrychiolaeth ar draws pob un o'r naw nodwedd warchoddedig a amlinellir yn y Ddeddf Cydraddoldeb. Mae'r aelodaeth yn tyfu ac yn ysgogi gwell dealltwriaeth a newid cadarnhaol yn y modd y caiff polisiau a deunyddiau eu datblygu, a'r iaith a ddefnyddir i gefnogi gwell ymgysylltiad a chynhwysiant i bawb yn y gweithlu.

Ar draws Iechyd a Gofal Digidol Cymru, mae sawl Swyddog Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl hyfforddedig ar gael i siarad â staff yn gyfrinachol.

Ymrwymiad 2 – Sicrhau bod pawb yn cael eu haddysgu a'u dal yn atebol

Addysg a gwell dealltwriaeth o Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant – uwchsgilio'r gweithlu trwy Ymsefydlu, Datblygu Arweinyddiaeth Uwch, rhaglenni Talent, hyfforddiant Statudol a Gorfodol mewn Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol (cyfradd cwblhau o 99%), sesiynau TENTalks a phrofiadau byw a rennir gan aelodau'r gweithlu.

Asesiadau cadarn o'r Effaith ar Gydraddoldeb (gan gynnwys y Gymraeg) sy'n canolbwyntio ar asesu a chofnodi'n systematig effaith debygol prosiectau, polisiau neu gynlluniau newydd a dehongli a oes effaith andwyol ar gydraddoldeb, cynhwysiant a hawliau dynol. Ein hymrwymiad yw parhau i godi ymwybyddiaeth, asesu, gwerthuso a gwreiddio'r holl egwyddorion ac arferion sy'n rhan annatod o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ym mhob ymdrech strategol a gweithredol.

Ymrwymiad 3 – Defnyddio data ac olrhain i ddeall ein man cychwyn

Mae IGDC yn defnyddio data i ddatblygu ac arwain nodweddion a mentrau cymorth cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ystyrlon. Defnyddir data mewn adroddiadau mewnol ac adroddiadau ar gyfer Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid ehangach.

Ymrwymiad 4 - Dadansoddi i ddeall yn well

Mae dadansoddi dwfn o fewn y tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol wedi bod yn her, ac mae'n bwysig i ni ddeall ystod o gyfleoedd a rhwystrau yn well, yn enwedig yr heriau gwirioneddol hynny a wynebier gan bobl â phrofiadau byw. Yr her yw bod rhai pobl y mae angen cymorth arnynt yn amharod i ofyn am gymorth, yn enwedig y rheini ag anabledd anweledig neu anabledd nad yw'n gorfforol, ond mae hyn yn gwella'n araf. Mae hyn yn gwella yn araf drwy enghreifftiau megis dadansoddi data cyfweiliadau ymadael a'r Rhaglen Mynediad i Waith a ddarperir drwy gov.uk yn dilyn ymgyrch gyfathrebu ddwys. Fel Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd, mae IGDC yn gwneud darpariaeth ar gyfer addasiadau rhesymol, gan roi'r sefydliad mewn sefyllfa dda i barhau i ddenu a chadw pobl anabl a chefnogi datblygiad eu gyrfaedd. Ar hyn o bryd, mae 8.5% o'r gweithlu wedi'u disgrifio'n anabl ar Gofnod Staff Electronig ar 31 Mawrth 2024.

Ymrwymiad 5 - Nawdd gweladwy a gweithredol trwy ein partneriaid

